Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Cyllideb Ddrafft 2012-2013: Cyllideb Twf a Swyddi

Hydref 2011

ISBN 978 0 7504 6694 3
© Hawlfraint y Goron Hydref 2011
WG-13680

Rhagair

Cyllideb Twf a Swyddi

Heddiw rwyf yn cyhoeddi ein cynigion ariannol er mwyn gwireddu'r weledigaeth ar gyfer Cymru a amlinellwyd yn y Rhaglen Lywodraethu a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn egluro'r hyn yr ydym am ei gyflawni dros Gymru a'r camau y byddwn yn eu cymryd i roi ein gweledigaeth ar waith. Mae'r cynlluniau gwariant hyn yn amlinellu sut y byddwn yn cydweddu ein cyllidebau â'r amcanion hynny ac yn cyflawni dros bobl Cymru.

Cyllideb ar gyfer Twf a Swyddi yw hon. Rydym wedi wynebu cyfnod anodd a heriol yn ariannol yn sgil y dirwasgiad byd-eang. Mae'r ystadegau economaidd diweddaraf yn dangos bod economi'r DU mewn cyflwr gwan o hyd. Mae hyn yn tanlinellu'r effaith y mae toriadau Llywodraeth y DU i wariant yn ei chael ar allu'r wlad i adfer wedi'r argyfwng economaidd ac ariannol byd-eang. Mae'r heriau hyn yno o hyd ac yn parhau i ddylanwadu ar ein cynlluniau gwariant.

Un o'n prif flaenoriaethau o hyd yw sicrhau pecyn ariannu tecach ar gyfer Cymru, sydd hefyd yn caniatáu i ni fenthyca er mwyn ariannu prosiectau cyfalaf. Rydym yn croesawu'r camau sydd wedi'u cymryd ar yr agenda bwysig hon a'r ffaith bod holl bleidiau'r Cynulliad wedi cymeradwyo'r agenda diwygio ariannol ym mis Gorffennaf. Byddwn yn cyfrannu'n adeiladol at y trafodaethau rhynglywodraethol i adolygu cyllid Cymru, gan gynnwys yr hawl i fenthyca, ac yn cydweithio'n agos â'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru i ystyried datganoli rhagor o bwerau ariannol yng Nghymru. Yn y cyfamser, ein cyfrifoldeb ni yw ymdopi hyd eithaf ein gallu gyda'r adnoddau sydd ar gael i ni. Rydym eisoes wedi mabwysiadu ffordd fwy strategol o ymdrin â buddsoddiadau cyfalaf trwy'r Gronfa Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog, trwy ddatblygu Cynllun Seilwaith Cenedlaethol a thrwy ystyried y cyfleoedd i gynyddu'r buddsoddiad yn seilwaith Cymru drwy nifer o wahanol ddulliau arloesol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd camau cadarn i gefnogi'r economi a darparu'r seilwaith angenrheidiol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

Yng Nghyllideb Derfynol 2011-12, fe gymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y cynlluniau gwariant ar gyfer y tair blynedd 2011-12, 2012-13 a 2013-14. Mae blaenoriaethau'r Gyllideb ddiwethaf wedi dylanwadu ar ffurf y Rhaglen Lywodraethu, ac wedi gosod y sylfaen ar gyfer y cynlluniau gwariant yn y Gyllideb Ddrafft hon. Wrth gyflwyno'r Gyllideb Ddrafft hon, rydym yn amlinellu am y tro cyntaf ein cynlluniau ar gyfer 2014-15, sef blwyddyn derfynol setliad Adolygiad Gwariant 2010.

Rydym wedi adolygu ein cynlluniau gwariant yng ngoleuni ein blaenoriaethau ar gyfer y Rhaglen Lywodraethu. Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn amlinellu sut y byddwn ni'n cydweddu'r cynlluniau gwariant gyda'r blaenoriaethau hynny. Fe adlewyrchir hyn yn y penodau Adrannol yn y ddogfen hon, lle mae'r Gweinidogion yn manylu ar y cyllid ar gyfer y prif raglenni sy'n cael eu cyflwyno er mwyn gwireddu ein blaenoriaethau.

Rhaid cadw mewn cof bod ein cyllideb flaenorol wedi'i llunio yn y cyfnod mwyaf heriol, yn ariannol, ers datganoli. Er ein bod wedi derbyn bod angen gostwng y diffyg

ariannol, cydnabuwyd bod Llywodraeth y DU yn cyflwyno toriadau ariannol difrifol. Er gwaetha parhad yr hinsawdd ariannol anodd, rydym wedi defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ni yn y ffordd orau posibl er mwyn dyrannu cyllid ychwanegol yn strategol i gefnogi ein blaenoriaethau parhaus, sef ysgolion, sgiliau, iechyd a buddion cyffredinol. Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn cynnwys dros £129m dros y tair blynedd i gefnogi ein haddewidion, y **'Pump am Ddyfodol Tecach'** a nodwyd yn ein Rhaglen Lywodraethu. Mae datblygu cynaliadwy yn ganolog i bopeth a wnawn o fewn y Llywodraeth ac rydym yn canolbwyntio ar les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol pobl a chymunedau Cymru. Mae ein cynlluniau gwariant yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i gwrdd ag anghenion pobl a chymunedau Cymru. Maent yn adlewyrchu'r ffaith ein bod yn rhoi blaenoriaeth i wasanaethau rheng flaen, ym meysydd addysg ac iechyd yn arbennig. Dros y tair blynedd nesaf byddwn yn buddsoddi £288m yn ychwanegol yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Ochr yn ochr â'r cyllid ychwanegol hwn mae yna ddisgwyliad y bydd y GIG yn cael ei osod ar seiliau ariannol cynaliadwy, gan barhau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel ar yr un pryd. Rydym hefyd yn ymestyn yr amddiffyniad a roesom ni i'r Buddion Cyffredinol yn y Gyllideb ddiwethaf i 2014-15 er mwyn lliniaru effeithiau y pwysau ariannol y mae nifer fawr o bobl Cymru yn eu profi erbyn hyn.

Byddwn yn parhau i wella'r dulliau caffael ar draws sector cyhoeddus Cymru i sicrhau bod cynhyrchion a gwasanaethau'n cynnig gwerth am arian, gan gefnogi economi Cymru ar yr un pryd, a thrwy ddefnyddio contractau mewn modd creadigol i gynnig cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant newydd yn lleol.

Ochr yn ochr â Chyllideb Derfynol 2011-12, fe wnaethom gyhoeddi asesiad cynhwysfawr o effaith ein penderfyniadau ar y gyllideb ar gydraddoldeb. Fe wnaethom yr asesiad o gydraddoldeb yn rhan ganolog o'n prosesau i lunio'r gyllideb gan ei fod yn helpu i lywio ein cynlluniau gwariant. Mae llawer o'r gwaith hwnnw yn parhau i fod yn berthnasol eleni. Rydym wedi ychwanegu at y gwaith blaenorol drwy asesu'r effaith yn y meysydd hynny lle rydym ni wedi gwneud dyraniadau atodol neu wedi addasu cyllidebau.

Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd gennym ni y llynedd ac yn arddangos ein hymrwymiad parhaus i warchod a gwella gwasanaethau rheng flaen, gwasanaethau cyhoeddus yr ydym ni i gyd yn dibynnu arnynt ac y gwyddom eu bod yn bwysig i bobl Cymru, amddiffyn pobl sy'n agored i niwed a chefnogi'r adferiad economaidd yng Nghymru. Yn anad dim, mae'r Gyllideb ar gyfer Twf a Swyddi yn dangos sut y byddwn ni'n defnyddio'r cyllid sydd ar gael i ni i gyflawni blaenoriaethau ein Rhaglen Lywodraethu er budd pobl Cymru.

Jane Hutt AC

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ

Cynnwys

1. Y Cyd-destun Strategol 1

2. Dyraniadau Atodol 7

3. Diwygio'r Gwasanaethau Cyhoeddus ac Effeithlonrwydd 13

4. Asesiadau Effaith 17

5. Cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllideb 2012-13 18

6. Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant 24

7. Llywodraeth Leol a Chymunedau 32

8. Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth 38

9. Addysg a Sgiliau 45

10. Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy 52

11. Tai, Adfywio a Threftadaeth 56

12. Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu 62

Atodiad A – Cysoni'r Gyllideb Weinyddol â Dyraniad yr Adnoddau yn y Cynigion ar gyfer y Gyllideb Ddrafft 67

Atodiad B – Cysoni Strwythur y Gyllideb ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau 70

Atodiad C - Asesu'r Effeithiau ar Gydraddoldeb 72

Atodiad D – Geirfa 86

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys y ddogfen hon cysylltwch â: Budget_and_Strategic_Planning@Wales.gsi.gov.uk

1. Y Cyd-destun Strategol

Blaenoriaethau'r Gyllideb

1.1 Lansiodd y Prif Weinidog y Rhaglen Lywodraethu ar 27 Medi 2011. Mae'n manylu ar y canlyniadau strategol y mae Llywodraeth Cymru am eu cyflawni a sut y bydd y rheini'n cael eu gweithredu er budd pobl Cymru. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn amlinellu sut y bydd ein deddfwriaeth, ein rhaglenni, ein polisïau a'n cyllid yn cyfrannu at wneud y gwahaniaeth yr ydym ni am ei weld i bobl a chymunedau Cymru. Mae hyn yn cynnwys yr ymrwymiadau, y **Pump am Ddyfodol Tecach,** sy'n cael eu hegluro'n fanylach yn adran 2 – Dyraniadau Atodol.

1.2 Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn pennu'r trywydd ar gyfer y tymor Cynulliad hwn. Dyma ein hymrwymiad ni i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl Cymru. Mae'n nodi'r canlyniadau yr ydym ni'n anelu atynt – economi fwy llewyrchus; gwell gwasanaethau cyhoeddus; gwell addysg, cydraddoldeb, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a thai. Mae'n dangos y camau allweddol y byddwn ni'n eu cymryd i gyflawni'r canlyniadau hynny a sut y byddwn ni'n cadw llygad i sicrhau eu bod ar y trywydd iawn. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn gam pwysig i gyfeiriad newydd, un nad yw'n canolbwyntio yn unig ar faint o arian yr ydym ni'n ei wario. Yn hytrach, rydym yn canolbwyntio ar y gwelliannau diriaethol yr ydym am eu gwneud i fywydau pobl. Yr egwyddor hon sydd wrth wraidd y cynlluniau gwariant yr ydym ni'n eu cyhoeddi heddiw.

1.3 Rydym wedi adolygu'r cynlluniau gwariant a gyhoeddwyd yn flaenorol yng ngoleuni'r Rhaglen Lywodraethu ac rydym yn hyderus bod y blaenoriaethau a adlewyrchwyd yn y Gyllideb flaenorol yn parhau i fod yn sail gadarn ar gyfer gweithredu'r Rhaglen Lywodraethu. Mae ein cynlluniau gwariant yn parhau i adlewyrchu'r ffaith ein bod yn rhoi blaenoriaeth i wasanaethau rheng flaen – ac iechyd ac addysg yn arbennig. Rydym ni hefyd yn ymestyn hyd 2014-15 yr amddiffyniad a roesom ni i'r Buddion Cyffredinol yn flaenorol. Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn dangos sut y bydd ein cynlluniau gwariant yn cefnogi'r blaenoriaethau hynny a sut y mae'r Adrannau wedi cydweddu eu cyllidebau er mwyn datblygu agenda'r Rhaglen Lywodraethu. Ceir rhagor o fanylion ym mhenodau Adrannol y ddogfen hon.

Y Cyd-destun Gwariant Cyhoeddus

1.4 Adolygiad Gwariant 2010 Llywodraeth y DU, fel y'i haddaswyd gan Gyllideb y DU ym mis Mawrth 2011, sy'n pennu ein cyllideb ar gyfer cyfnod y cynigion hyn ar gyfer y Gyllideb Ddrafft. Mewn termau real, bydd yna ostyngiad o £430m yng nghyfanswm ein cyllideb DEL yn 2012-13, ac erbyn 2014-15 bydd £1.95bn yn llai nag yn 2010-11[1].

[1] Heb gynnwys dibrisiant

1.5 Mae'r gostyngiad hwn mewn termau real mewn cyferbyniad amlwg â'r twf yn y gyllideb a welwyd dros y degawd diwethaf rhwng sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999 a 2009-10. Yn y cyfnod hwnnw gwelwyd twf o £4.9bn yng nghyllideb DEL adnoddau cyllidol Cymru, mewn termau real. Erbyn 2014-15 bydd cyllideb Cymru £1.3bn yn llai mewn termau real nag ydoedd ar ei huchafbwynt yn 2009-10 a bydd tua'r un lefel ag yn 2005-06. Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran ymdopi gyda'r adnoddau sydd ar gael i ni, ond bydd y gostyngiadau parhaus yn parhau i roi pwysau ar yr holl wasanaethau cyhoeddus.

Siart 1.1 – Terfyn Gwariant Adrannol Adnoddau Cyllidol Cymru mewn Termau Real ers Datganoli (prisiau 2010-11)



1.6 Mae'r her o ran cyllidebau cyfalaf hyd yn oed yn fwy difrifol. Mae'r gostyngiad yn y gyllideb gyfalaf rhwng 2011-12 a 2012-13 yn llai na'r gostyngiad oedd yn ein hwynebu yn 2011-12. Yn 2012-13 mae'r cyllidebau cyfalaf yn gostwng 9.9% mewn termau real, o gymharu â 28.6% yn 2011-12. Ni ddylid tanbrisio effaith gronnol y gostyngiadau cyfalaf, fodd bynnag. Byddant yn cael effaith sylweddol ar y sector preifat a'n gallu ni i fuddsoddi mewn ysgolion, ysbytai a'r seilwaith sydd ei angen i gefnogi'r adferiad economaidd. Bydd ein Cyllideb ar gyfer buddsoddi mewn prosiectau cyfalaf yn 2014-15, mewn termau real, 50% o'r hyn ydoedd yn 2009-10.

Siart 1.2 – Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf Cymru mewn Termau Real ers Datganoli (prisiau 2010 – 11)



1.7 Nid yw'n debygol y bydd y rhagolygon ar gyfer gwariant cyhoeddus yn gwella yn y tymor byr, ac mae'r cynlluniau hyn ar gyfer y Gyllideb Ddrafft wedi'u llunio o fewn y cyd-destun hwnnw.

Y Sefyllfa Economaidd

1.8 Mae'r dystiolaeth ddiweddaraf yn awgrymu bod economi y DU a Chymru yn parhau i deimlo effeithiau'r dirywiad economaidd. Ers i'r dirwasgiad ddod i ben ddiwedd 2009, mae economi'r DU wedi tyfu 2.7%, ond mae gennym dipyn o ffordd i fynd eto cyn adennill yr allbwn a gollwyd yn y dirwasgiad – pan ostyngodd yr allbwn 6.4%. Mae'r rhagolygon tymor canolig ar gyfer twf economaidd yn ansicr iawn o hyd. Yn y tymor byr, fodd bynnag, mae'n debygol y bydd twf economaidd yn wan o ganlyniad i lai o wariant gan ddefnyddwyr, toriadau Llywodraeth y DU ar wariant a'r ansicrwydd yn y farchnad yn sgil yr argyfwng dyledion sofran yn nifer o wledydd Ewrop. Mae cyn bwysiced ag erioed ein bod yn ceisio sicrhau twf economaidd a lliniaru effeithiau'r dirwasgiad ar bobl a chymunedau Cymru.

1.9 Wrth i ni ddod allan o'r dirwasgiad, gwelwyd cynnydd i ddechrau yn nifer y bobl a gyflogir yng Nghymru. Mae'r data diweddaraf, fodd bynnag, yn awgrymu bod y farchnad lafur yn gwanhau, gyda'r data chwarterol diweddaraf yn dangos gostyngiad mewn cyflogaeth a thwf mewn diweithdra.

1.10 Yn anochel, mae'r toriadau mewn gwariant a orfodwyd ar Lywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU wedi effeithio ar yr heriau yr ydym ni'n eu hwynebu. Rydym wedi ceisio lliniaru'r effaith negyddol hon gymaint â phosibl drwy warchod y buddsoddiad mewn ysgolion, iechyd a llywodraeth leol. Mae'r meysydd hyn nid yn unig yn darparu gwasanaethau hanfodol, ond hefyd yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth pwysig i nifer o gymunedau yng Nghymru. Yn ogystal â gwarchod y buddsoddiad, rydym hefyd wedi bod yn cynnal trafodaeth

â'r gweithlu, ac wedi cymryd camau cefnogol pryd bynnag y bo hynny'n bosibl drwy Gyngor Partneriaeth y Gweithlu, dan gadeiryddiaeth y Prif Weinidog.

1.11 Mae'r camau hyn, ynghyd â'n hagwedd ragweithiol at hyfforddi a rhoi sgiliau newydd i weithwyr sy'n colli eu swyddi drwy Adapt, ReAct a ProAct, yn golygu bod miloedd o bobl wedi cael eu cefnogi drwy'r cyfnod anodd hwn. Rydym wedi helpu i gefnogi busnesau, diogelu swyddi a helpu i gadw'r sgiliau yn eu cymunedau. Un ffactor allweddol wrth liniaru effaith economaidd y gostyngiad mewn swyddi sector cyhoeddus yng Nghymru yw'r twf posibl mewn cyflogaeth yn y sector preifat. Mae ein cefnogaeth i fusnesau wedi helpu i liniaru effeithiau'r dirywiad economaidd a bydd ein cefnogaeth barhaus i helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith yn hanfodol yn y dyfodol.

Sicrhau bod Gwariant Cyhoeddus yng Nghymru yn cael yr effaith fwyaf posibl

1.12 Rydym wedi datgan yn glir bod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno toriadau rhy ddwfn yn rhy gyflym. Yn gynyddol, mae'r farn honno yn cael ei chyfiawnhau gan ddatblygiadau economaidd dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym ni wedi bod yn Llywodraeth gyfrifol erioed – gan gyflawni ein cyfrifoldebau hyd eithaf ein gallu o fewn yr adnoddau sydd ar gael i ni a chwarae ein rhan i helpu i ostwng y diffyg ariannol.

Dull Ariannu Tecach

1.13 Nid yw ein gwaith yn cael ei wneud yn ddim haws gan fecanweithiau ariannu nad ydynt yn briodol bellach. Mae angen diwygio'r ffordd y caiff y gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru eu hariannu, a hynny ar fyrder. Cynigiodd Comisiwn Holtham dystiolaeth annibynnol argyhoeddiadol nad yw'r drefn ariannu bresennol yn rhoi digon o arian i Gymru o ystyried ei hanghenion. Os na fydd pethau'n newid, mae'n debygol y bydd y broblem hon yn gwaethygu dros amser. Dyna pam y mae Llywodraeth Cymru yn chwilio am welliannau i'r system bresennol, gydag 'arian gwaelodol' fel cam cyntaf hanfodol tuag at roi bargen decach i Gymru.

1.14 Rydym ni hefyd o'r farn bod yr amser wedi dod i Lywodraeth Cymru allu benthyca er mwyn buddsoddi mewn seilwaith. Bydd hynny'n hybu twf economaidd ac yn gwella ein gwasanaethau cyhoeddus. Ni all hi fod yn iawn mai Cymru yw'r unig ran o'r DU nad yw'n gallu benthyca er mwyn buddsoddi mewn ffyrdd ac ysbytai. Daw'r anghysondeb hwn yn amlycach fyth wrth i'r cyllidebau cyfalaf ostwng.

1.15 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gydweithio'n adeiladol â Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r holl agweddau ar yr agenda diwygio ariannol. Byddwn yn parhau i chwarae rhan gadarnhaol yn y trafodaethau rhynglywodraethol sy'n parhau ac sy'n ystyried materion ariannu teg a phwerau benthyca. Byddwn hefyd yn ceisio datblygu perthynas adeiladol â'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru, a fydd yn ystyried a ddylid datganoli mwy o bwerau ariannol.

Buddsoddiadau Cyfalaf

1.16 Wrth i ni ystyried pwerau benthyca, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu dulliau amgenach o wneud y defnydd gorau posibl o'n hadnoddau cyfredol a lleddfu effeithiau'r gostyngiad sylweddol yn ein cyllidebau cyfalaf.

1.17 Byddwn yn cydweithio â'n partneriaid i adolygu a gweithredu dulliau o weithio gyda chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat i sicrhau cymaint o fuddsoddiad cyfalaf â phosibl. Byddwn yn edrych ar ffyrdd o reoli ein hasedau'n effeithlon ac yn effeithiol. Bydd gwario strategol yn ganolog i'n dull ni o weithredu – sicrhau arian newydd drwy ddulliau arloesol a defnyddio'r cyllid sydd gennym eisoes mewn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol. I'r perwyl hwnnw rydym yn:

- **ceisio cynyddu'r adnoddau ar gyfer buddsoddi yn seilwaith y sector cyhoeddus** drwy ddatblygu ffynonellau cyllid priodol arloesol a fforddiadwy i ariannu ein buddsoddiadau cyfalaf a chynnig y strwythurau a'r gallu sefydliadol y gallent fod yn angenrheidiol i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hynny;

- sicrhau ein bod yn gwario ein harian yn strategol drwy ddatblygu **Cynllun Seilwaith Cymru** – gan adeiladu ar waith cychwynnol a wnaed eisoes i fapio cynlluniau buddsoddi a gweithredu cynllun 10 mlynedd strategol ar gyfer buddsoddi yn seilwaith economaidd a chymdeithasol Cymru. Bydd yn helpu i flaenoriaethu'r adnoddau a ddyrennir, yn llywio penderfyniadau buddsoddi ac yn rhoi sicrwydd i'r sector preifat ac yn denu mewnfuddsoddiad. Bydd y cynllun yn llywio'r modd y caiff cyllidebau cyfalaf y dyfodol eu dyrannu;

- **gwneud buddsoddiad y sector cyhoeddus yn fwy effeithlon ac effeithiol** – trwy fanteisio ar bob cyfle i gydweithio ar draws ffiniau a gwneud arbedion maint drwy wella'r trefniadau llywodraethu a gwarantu busnes ar gyfer ein buddsoddiadau, gwella'r prosesau caffael a meithrin y sgiliau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod buddsoddiadau cadarn y gellir eu cyfiawnhau ac sy'n cynnig gwerth am arian yn cael eu gwneud a'u gwireddu. Byddwn yn cydgysylltu'r gwaith ledled Cymru i ddefnyddio'n hasedau'n well ac yn fwy strategol.

1.18 Rydym eisoes wedi dechrau mabwysiadu agwedd fwy strategol at fuddsoddiadau cyfalaf gyda'r Gronfa Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog. Ym mis Mawrth 2011, fe wnaethom gyhoeddi pa brosiectau y byddem yn buddsoddi ynddynt yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae'r prosiectau hyn yn ychwanegol at y gwariant cyfalaf Adrannol ac fe'u nodir yn Nhabl 1.1.

Tabl 1.1 – Prosiectau Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog 2011-12

Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	**£m**
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Integredig i Gymunedau Llanfair-ym-Muallt	4.0
Parc Iechyd Merthyr	18.4
Tîm Ymateb mewn Ardaloedd Peryglus (HART)	3.8
Ailddatblygu Treforys	22.2
Llywodraeth Leol a Chymunedau	
Gwelliannau i seilwaith y rheilffyrdd ar rwydwaith Cymoedd Caerdydd	3.0
Gwelliannau'r A470 Maes yr Helmau i Cross Foxes	1.3
Yr A470 Gelligemlyn	2.0
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	
Gwasanaethau ar-lein i Daliadau Gwledig	2.4
Prosiectau i Gefnogi Busnes a Menter[2]	15.0
Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (TISS)	3.0
Addysg a Sgiliau	
Diwygio ar Dair Lefel, Clwstwr Dinefwr	8.0
Trawsnewid Addysg Ôl-16 (Merthyr)	7.0
Pen-y-bont ar Ogwr – Porth i'r Cymoedd – Ysgolion 11-18	7.3
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	
Rhaglen y Seilwaith Gwastraff	2.0
Tai, Adfywio a Threftadaeth	
Eco-oleuadau	1.0
Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Trosglwyddo Archifau ITV	1.0
Hen Neuadd y Dref, Merthyr Tudful	1.0
Grant Addasiadau Ffisegol a Chyfleusterau i'r Anabl	3.0
Cyfanswm	**105.4**

1.19 Mae hwn yn ddull gweithredu y byddwn yn parhau i'w ddatblygu a'i ehangu. Dros y tair blynedd nesaf byddwn yn dyrannu hyd at £192m ar gyfer rhaglenni cyfalaf drwy'r dull strategol hwn.

Mecanwaith Cyfnewid Cyllidebau

1.20 Rydym wedi bod yn pryderu y byddai cynigion Llywodraeth y DU i ddiwygio'r drefn Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn yn ein hamddifadu o hyblygrwydd pwysig i reoli ein hadnoddau o un flwyddyn i'r llall. Dyna pam y gwnaethom annog Llywodraeth y DU i addasu eu cynigion ynghylch gweithrediad y Mecanwaith Cyfnewid Cyllidebau newydd yn y gweinyddiaethau datganoledig. Bydd y trefniadau newydd y gwnaethom eu sicrhau yn rhoi hyblygrwydd i ni y mae mawr alw amdano i'n helpu i ymateb i'r her o ymdopi â chyllidebau sy'n gostwng. Byddwn yn parhau i ddadlau y dylai ein stociau blaenorol o Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn – arian y pleidleisiodd Senedd San Steffan i'w roi i Gymru – fod ar gael i Lywodraeth Cymru unwaith eto.

[2] Mae BETS yn datblygu cynigion prosiect penodol yn lle'r Gronfa Twf Cyfalaf a oedd wedi'i chymeradwyo o'r blaen ar gyfer Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog. Mae hyn yn cynnwys cynnig sydd â'r nod o'i gwneud yn haws i fusnesau micro yng Nghymru gael gafael ar gyllid.

2. Dyraniadau Atodol

2.1 Rydym wedi adolygu'r dyraniadau dangosol ar gyfer 2012-13 a 2013-14 y cytunwyd arnynt yn flaenorol yng ngoleuni'r Rhaglen Lywodraethu. Rydym ni'n hyderus bod y blaenoriaethau a adlewyrchir yn y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2011-12 yn parhau i gynnig sylfaen gadarn ar gyfer gwireddu ein Rhaglen Lywodraethu. Lle bo hynny'n angenrheidiol, rydym wedi addasu'r Cyllidebau Adrannol i'n galluogi i gyflawni'r canlyniadau yr ydym yn dymuno eu gweld. Caiff y newidiadau hynny eu hegluro yn y penodau Adrannol. Yn ogystal, rydym wedi gwneud dyraniadau pellach i'r Prif Grwpiau Gwariant (MEG), yn ychwanegol at y dyraniadau dangosol blaenorol, a amlinellir yn Nhablau 2.1 a 2.2. Mae ein dyraniadau atodol yn canolbwyntio ar:

- ein hymrwymiadau, **Pump am Ddyfodol Tecach**;
- parhau i ddarparu ein buddion cyffredinol;
- sicrhau bod y GIG yn gynaliadwy yn ariannol.

Pump am Ddyfodol Tecach

2.2 Yr hyn sy'n ganolog i'n Rhaglen Lywodraethu yw ymrwymiad i greu cymdeithas gyfartal. Rydym ni am weld y canlyniadau gorau ar gyfer pob teulu; rydym eisiau cefnogi cymunedau cadarn ac yn dymuno meithrin twf economaidd cryf. Y weledigaeth hon sydd wedi pennu patrwm ein Rhaglen Lywodraethu yn ei chyfanrwydd - rydym yn sicrhau bod yr holl raglenni yn cyfrannu at wireddu'r weledigaeth honno. Yn ogystal, rydym wedi pennu pum ymyriad allweddol i gefnogi ein nod – ein hymrwymiadau, **Pump am Ddyfodol Tecach**. Byddwn yn:

- creu cronfa swyddi a hyfforddiant i bobl ifanc;
- cynnig mynediad gwell i feddygfeydd meddygon teulu;
- cynyddu'r gwariant rheng flaen mewn ysgolion;
- ariannu 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru;
- dyblu nifer y plant sy'n elwa ar y rhaglen Dechrau'r Deg.

Creu cronfa swyddi a hyfforddiant i bobl ifanc

2.3 Trwy gynllun Twf Swyddi Cymru, ein nod yw creu 4,000 o swyddi ar gyfer pobl ifanc 16 i 24 oed o fewn y flwyddyn gyntaf. Pennwyd mai £25m y flwyddyn fydd cost cwrdd â'r ymrwymiad hwn, ac fe gaiff ei ariannu drwy gyfuniad o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru.

2.4 Prif bwyslais y Rhaglen fydd darparu cymorth wedi'i deilwra a chyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Ein

nod yw helpu unigolion i symud i swyddi parhaol, ac aros ym myd gwaith. Byddwn yn gweithio gyda'r Ganolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru i sicrhau ei bod yn cyd-fynd yn effeithiol â rhaglenni presennol, i osgoi dyblygu gwaith a sicrhau gwerth ychwanegol. Bydd Twf Swyddi Cymru yn cysylltu'n uniongyrchol â'r rhaglen Prentisiaethau er mwyn cynnig cyfle i ddatblygu.

Cynnig mynediad gwell i feddygfeydd meddygon teulu

2.5 Mae gennym ni ymrwymiad i'r GIG a gofal iechyd safonol gan eu bod yn cael effaith ar ansawdd bywydau pobl, a chan fod iechyd da yn cyfrannu at gyflawni cymaint o'n huchelgeisiau. Mae'n hanfodol bod pobl yn mwynhau iechyd da ac yn gallu rheoli cyflyrau cronig yn effeithiol er mwyn chwarae rhan lawn mewn cymdeithas ac yn yr economi. Dyna pam ein bod wedi ymrwymo i wneud meddygfeydd yn fwy hygyrch i bobl sy'n gweithio a chynyddu'r gwasanaeth sydd ar gael gyda'r nos ac ar ddydd Sadwrn.

Cynyddu'r gwariant rheng flaen mewn ysgolion

2.6 Mae addysg yn hanfodol er mwyn creu cymdeithas gyfiawn, gynhwysol a theg. Mae cymaint o'n gobeithion a'n dyheadau ar gyfer unigolion, cymunedau a'r economi yn ddibynnol ar fuddsoddiad effeithiol mewn addysg. Dyna pam ein bod wedi cadw at ein hymrwymiad y bydd y twf yn y buddsoddiad mewn ysgolion yn uwch na'r twf yng nghyllideb Cymru yn gyffredinol. Byddwn yn parhau â'r cynlluniau blaenorol i gynyddu cyllidebau ysgolion 1% yn fwy na'r newidiadau cyffredinol yng nghyllideb Cymru yn ei chyfanrwydd ar gyfer 2012-13 a 2013-14. Yn y Gyllideb hon, rydym yn dyrannu £27m yn ychwanegol ar gyfer ysgolion yn 2014-15, er mwyn ymestyn yr un amddiffyniad ar draws holl gyfnod y gyllideb.

2.7 Bydd y buddsoddiad ychwanegol hwn – ar ben y dyraniadau dangosol blaenorol – yn golygu twf o dros 5% mewn arian parod ar gyfer cyllidebau ysgolion dros y pedair blynedd. Bydd y cyllid ar gyfer addysg o fewn y Grant Cynnal Refeniw dros £80m yn fwy yn 2014-15 nag yn 2010-11. O ganlyniad i'r amddiffyniad a roesom i gyllid ysgolion yng Nghyllideb y llynedd bu'n bosibl i awdurdodau lleol gynyddu lefel y gwariant fesul disgybl 1% o gymharu â 2010-11. Bydd yr amddiffyniad ar gyfer cyllidebau ysgolion hefyd yn golygu y bydd y cyllidebau hyn yn y MEG Addysg a Sgiliau £16.6m yn fwy yn 2014-15 nag yn 2010-11. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein cynlluniau gwariant yn adlewyrchu ein blaenoriaethau strategol ar gyfer addysg; mae hyn yn ymwneud â chynyddu'r adnoddau sydd ar gael yn y rheng flaen. Am y rheswm hwn, byddwn yn casglu gwybodaeth benodol gan awdurdodau lleol am eu gwariant ar gyllidebau ysgolion er mwyn monitro sut mae'r awdurdodau lleol yn defnyddio'r arian a sicrhau bod yr arian yn cael ei wario ar ysgolion. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y cyllid ychwanegol yn y MEG Addysg a Sgiliau yn cyrraedd y rheng flaen drwy ddosbarthu'r cyllid atodol hwn drwy'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion.

Ariannu 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru

2.8 Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o wneud ein cymunedau'n gryfach ac yn fwy diogel. Er mwyn cefnogi'r uchelgais hon, rydym wedi ymrwymo i ariannu 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs) atodol. Bydd hyn yn golygu cynnydd sylweddol yn nifer y PCSOs yng Nghymru, ac yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n cymunedau. Rydym yn darparu £5m yn

ychwanegol ar gyfer y MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau yn 2013-14 a 2014-15, ac fe ddarperir cyllid ychwanegol yn sgil ailflaenoriaethu o fewn y MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau.

2.9 Rydym ni'n glir ein meddwl nad fydd y PCSOs yn cymryd lle swyddogion yr heddlu gyda gwarant, ond yn hytrach eu bod yno i ategu a chefnogi adnoddau cyfredol yr heddlu. Bydd y PCSOs newydd hyn yn gallu adeiladu ar y cysylltiadau rhwng yr heddlu a chymunedau, gan ddarparu presenoldeb gweladwy, cynnig cysur ac ymgysylltu â phobl leol. Byddant yn gallu ymdrin â'r ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n parhau i ddifwyno rhai o'n cymunedau. A byddant yn datblygu'r berthynas sydd yno eisoes rhwng yr heddlu a blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru, megis Cymunedau yn Gyntaf.

Dyblu nifer y plant sy'n elwa ar y rhaglen Dechrau'n Deg

2.10 Mae yna dystiolaeth gadarn y bydd rhoi cymorth o safon uchel yn y blynyddoedd cynnar i blant o gefndiroedd difreintiedig yn gwella eu hiechyd a'u canlyniadau addysgol yn y tymor byr, ac y bydd yn gwella sgiliau a chau'r bylchau mewn canlyniadau ar gyfer plant sy'n byw mewn tlodi yn y tymor hir. Dyna pam y gwnaethom sefydlu'r Rhaglen Dechrau'n Deg, lle mae 18,000 o blant eisoes yn elwa ar ddull integredig o gefnogi eu datblygiad cynnar. Mae'r canfyddiadau gwerthuso cychwynnol yn cadarnhau ein bod ar y trywydd cywir. Rydym wedi ymrwymo i ymestyn y Rhaglen Dechrau'n Deg i gynyddu nifer y plant sy'n elwa ar y rhaglen.

2.11 Rydym yn dyrannu £5m yn ychwanegol yn 2012-13, £20m yn 2013-14 a £30m yn 2014-15 er mwyn cefnogi'r broses o ymestyn y rhaglen lwyddiannus hon gam wrth gam.

Cynyddu Cyllid y GIG

2.12 Rydym ni'n credu mewn GIG cryf, sy'n darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i bobl Cymru. Rydym ni felly'n dyrannu £287.5m yn ychwanegol i'r GIG dros y tair blynedd nesaf, gyda'r disgwyliad y bydd y GIG yn cael ei roi ar seiliau ariannol cynaliadwy. Ni fydd y setliad hwn heb ei heriau, a byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â'r GIG wrth iddo ymateb.

2.13 Mae hyn yn golygu £239m yn ychwanegol dros y tair blynedd nesaf, yn ychwanegol at £48.5m o gyllid atodol a ddyrannwyd yn gynharach eleni i gynnal safonau'r gwasanaeth orthopedeg[3]. Bydd y dyraniad cyffredinol i'r GIG yn codi, o gymharu â'r lefel a osodwyd yn y gyllideb y llynedd, 2% yn 2012-13 a 2% yn 2013-14, gyda buddsoddiad ychwanegol ar lefel debyg yn 2014-15[4].

[3] Nid yw'r dyraniad atodol o £48.5m i gynnal safonau'r gwasanaeth orthopedeg yn cynnwys y £12.2m (na fydd yn cael ei ailadrodd) yn 2012-13 sydd wedi'i ryddhau er mwyn rheoli amseroedd aros oprthopedeg.

[4] Dyraniadau atodol wedi'u cyfrifo fel canran o'r Maes Rhaglenni Gwariant Cyflenwi'r GIG.

Buddion Cyffredinol

2.14 Mae buddion cyffredinol yn rhan bwysig o'r rhwydwaith o raglenni a buddion sy'n ein helpu i gyflawni ein hamcanion ar gyfer pobl Cymru. Mae presgripsiynau am ddim yn sicrhau nad yw'r rheini ar incwm isel yn cael eu hatal rhag cymryd meddyginiaethau rheolaidd, ac yn helpu pobl i reoli cyflyrau hirdymor a gweithio ar yr un pryd. Mae brecwastau am ddim mewn ysgolion a llaeth mewn ysgolion yn gyfraniadau pwysig at faeth pobl ifanc ac yn helpu i wella canlyniadau addysgol. Mae teithio rhatach ar fysiau yn cynnig mynediad i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Mae nofio am ddim yn cefnogi ein huchelgais ar gyfer iechyd a lles dinasyddion Cymru. Mae'r rhain i gyd yn fentrau pwysig sy'n cyfrannu at ein gweledigaeth o gymdeithas fwy cyfartal ac fe'u cynhwyswyd ymhlith ein hymrwymiadau, y *pump i'w cadw*. Maent hefyd yn helpu i liniaru effeithiau'r pwysau ariannol y mae llawer o bobl yng Nghymru yn ei brofi erbyn hyn.

2.15 O dan gynlluniau dangosol y gyllideb y cytunwyd arnynt o'r blaen, cafodd y mentrau hyn eu gwarchod 1% uwchlaw'r newidiadau cyffredinol i gyllideb Cymru. Yn y cynlluniau hyn ar gyfer y gyllideb, rydym wedi cadarnhau'r amddiffyniad blaenorol ac wedi dyrannu £1.3m yn ychwanegol yn 2014-15 i ymestyn yr amddiffyniad i flwyddyn derfynol cyfnod y gyllideb hon.

Dyraniadau ac Ymrwymiadau Eraill

2.16 Yn ogystal â'r dyraniadau a amlinellir yn gynharach yn yr adran hon, rydym hefyd yn gwneud nifer o ddyraniadau atodol ar gyfer ymrwymiadau cyfredol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- £7.4m yn ychwanegol dros y tair blynedd er mwyn darparu cymorth ariannol ar gyfer **Rheoli Gwastraff**;

- £15m yn ychwanegol dros y tair blynedd nesaf ar gyfer **Adapt** er mwyn parhau i gefnogi gweithgor sector cyhoeddus sy'n colli eu gwaith.

Tabl 2.1 – Dyraniadau Ychwanegol

Dyraniadau	£000oedd		
	2012-13	2013-14	2014-15
Y Rhaglen Lywodraethu			
Twf Swyddi Cymru[5]	12,500	12,500	12,500
Cynyddu Arian i Ysgolion o leiaf 1% uwchlaw'r newid canrannol yn ein grant bloc	0	0	27,000
Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu	0	5,000	5,000
Dyblu'r nifer sy'n elwa ar Dechrau'n Deg	5,000	20,000	30,000
Cyfanswm	**17,500**	**37,500**	**74,500**
Y GIG			
Cymorth Strwythurol i Iechyd	83,000	83,000	73,000
Cyfanswm	**83,000**	**83,000**	**73,000**
Buddion Cyffredinol			
Llaeth Ysgol	0	0	30
Brecwast yn yr Ysgol	0	0	105
Presgripsiynau	0	0	388
Tocynnau Teithio Rhatach	0	0	741
Nofio am Ddim	0	0	46
Cyfanswm	**0**	**0**	**1,310**
Dyraniadau ac Ymrwymiadau Presennol			
Orthopaedeg – Meithrin Gallu	15,300[6]	16,600	16,600
Adapt	5,000	5,000	5,000
Cadw	353	621	621
Rheoli Gwastraff	500	1,300	5,600
Cyfanswm	**21,153**	**23,521**	**27,821**
Trosglwyddiadau Llinell Sylfaen			
Iechyd Anifeiliaid	17,394	16,835	15,981
Cyfanswm	**17,394**	**16,835**	**15,981**
Cyfanswm a ddyrennir i Adrannau Llywodraeth Cymru o'r Cronfeydd wrth Gefn	**139,047**	**160,856**	**192,612**

[5] At ddibenion y Gyllideb, rydym wedi cymryd y bydd 50% o'r costau yn dod o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd. Bydd y dyraniad hwn yn cael ei ailystyried os bydd cyfran yr arian o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn uwch neu'n is na'r amcan hwn.

[6] Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys y cyllid o £12.2 miliwn o gyllid (na fydd yn cael ei ailadrodd) ar gyfer gwasanaethau orthopaedeg, a ddyrennir yn ystod y flwyddyn yn amodol ar gyflawni rhai cerrig milltir.

Tabl 2.2 – Dyraniadau Ychwanegol yn ôl Prif Grŵp Gwariant (MEG)

MEG	2012-13 £000oedd	2013-14 £000oedd	2014-15 £000oedd
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	103,300	119,600	119,988
Llywodraeth Leol a Chymunedau	0	5,000	28,141
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	0	0	0
Addysg a Sgiliau	17,500	17,500	22,235
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	17,694	17,935	21,381
Tai, Adfywio a Threftadaeth	353	621	667
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	200	200	200
Cyfanswm a ddyrennir i Adrannau	**139,047**	**160,856**	**192,612**

3. Diwygio'r Gwasanaethau Cyhoeddus ac Effeithlonrwydd

Y Cynnydd Hyd Yma

3.1 Roedd ein Cyllideb flaenorol, a gymeradwywyd gan y Cynulliad ym mis Chwefror, yn canolbwyntio ar sut y gallwn barhau i ddarparu'r ystod bresennol o wasanaethau a gwella'u hansawdd gyda chyllideb sy'n gostwng mewn termau real. Cyn cyhoeddi'r Gyllideb y llynedd, fe wnaethom weithio ar draws y gwasanaeth cyhoeddus i'n helpu ni a'n partneriaid sy'n darparu gwasanaethau i baratoi ar gyfer yr her o setliad tynn. Mae'r gwaith hwnnw wedi parhau ers mis Chwefror, ac rydym wedi sicrhau cynnydd sylweddol:

- drwy Buddsoddi i Arbed rydym wedi cefnogi 48 o brosiectau gwella yn y sector cyhoeddus. Rhagwelir y bydd ein buddsoddiad gwerth £42m, a gaiff ei ad-dalu, yn arwain at arbedion blynyddol o £46m – bron i £150m dros y tair blynedd nesaf;

- rydym wedi gweithio gyda Swyddfa Masnach y Llywodraeth i ddatblygu cronfa ddata bwrpasol er mwyn casglu data am eiddo'r sector cyhoeddus a helpu i reoli asedau'n well – Y Gwasanaeth Gwybodaeth Electronig am Eiddo (ePIMS lite);

- bydd ePIMS yn parhau i hwyluso mentrau megis prosiect Adolygu Asedau Sir Gaerfyrddin, sy'n cynnwys partneriaid o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae'r prosiect hwn eisoes wedi canfod oddeutu £40m o asedau y gallent fod dros ben yn ogystal â'r arbedion cysylltiedig o ran adnoddau;

- ym maes caffael, mae sector cyhoeddus Cymru wedi arbed £13.5m drwy ddefnyddio contractau fframwaith Cymru gyfan, a £12.5m o ganlyniad i fabwysiadu offer e-gaffael cyfnewidcymru yn 2010-11;

- yn ogystal, adroddodd llywodraeth leol a'r GIG eu bod wedi gwneud arbedion caffael ychwanegol gwerth dros £11m;

- mae Llywodraeth Cymru ei hun wedi arbed £30m yn 2010-11, drwy ein rhaglen **Llwyddo â Llai** ac wedi arbed £3m ym maes caffael hyd yma y flwyddyn hon.

Y Camau Nesaf

3.2 Mae'r gwaith hwn yn ein rhoi mewn sefyllfa dda i wynebu'r blynyddoedd nesaf. Er gwaethaf ein dadl gref bod y toriadau'n rhy lym, prin yw'r arwyddion y bydd agwedd Llywodraeth y DU yn newid. O ganlyniad, mae angen i ni barhau i ganfod atebion newydd er mwyn darparu gwell gwasanaethau gyda llai o arian. Yn dilyn yr etholiad, rydym ni wedi adolygu'n dull o sicrhau arbedion, ac rydym yn symud y pwyslais o baratoi ar gyfer cyllidebau tynn i wireddu'r arbedion.

3.3 Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig arweiniad cadarn drwy symleiddio'r trefniadau partneriaeth a chynnig eglurder ar y sail ranbarthol newydd. Mae hefyd yn cyflwyno fframwaith newydd ar gyfer cydweithio cenedlaethol ar arweiniad a llywodraethu rhwng llywodraeth ganolog a llywodraeth leol a phartneriaid allweddol eraill yn y gwasanaeth cyhoeddus.

Mae **Adolygiad Simpson: Pa wasanaethau yw'r rhai gorau i'w darparu ble?** yn gosod yr agenda ar gyfer diwygio'r dull o ddarparu gwasanaethau lleol. Y nod yw sicrhau arbedion maint ac arbenigedd drwy weithio'n genedlaethol neu'n rhanbarthol, gan ymateb i anghenion lleol drwy atebolrwydd democrataidd lleol ar yr un pryd. Mae Simpson yn cynnig trywydd clir ar gyfer penderfynu pa batrwm darparu gwasanaethau sydd fwyaf effeithiol, boed hwnnw'n un lleol, rhanbarthol neu genedlaethol. Bydd cyflawni hyn yn gofyn am gydweithio na welwyd mo'i debyg rhwng yr holl sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus

3.4 Bydd gofyn am arweiniad cryf, yn wleidyddol ac ar lefel swyddogion, ar draws y gwasanaethau cyhoeddus, yn genedlaethol ac yn lleol, er mwyn sicrhau newid effeithiol. Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cadeirio Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus, a fydd yn cynorthwyo'r Cyngor Partneriaeth i gynnal y momentwm ar gyfer newid. Mae hyn yn adeiladu ar waith blaenorol i ganfod atebion newydd a darparu gwell gwasanaethau gyda llai o arian. Y Cyngor Partneriaeth fydd yn cynnig yr atebolrwydd gwleidyddol am yrru'r diwygiadau yn eu blaenau a bydd y Grŵp Arweiniad yn cynnig cysylltiad uniongyrchol rhwng yr arweinwyr cenedlaethol a'r ddarpariaeth ranbarthol.

3.5 Bydd hyn yn cynnwys cyflymu'r broses o ad-drefnu, a datblygu a mabwysiadu atebion cenedlaethol i heriau a rennir yn y gwasanaethau cyhoeddus, megis caffael, rheoli asedau ac effeithiolrwydd gwasanaethau. Ceir tystiolaeth gref y gallai cydweithio fel un gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ar y materion hyn arwain at enillion sylweddol, a bydd Cyngor Partneriaeth Cymru yn gweithio i sicrhau bod y rhain yn cael eu gwireddu cyn gynted â phosibl.

3.6 Dyma fydd y rhaglenni gwaith dan arweiniad Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus:

- **Rheoli Asedau a Chaffael** – gan ddwyn y gwaith ar gaffael a rheoli asedau ynghyd. Bydd yn adeiladu ar y gwaith cynharach i sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd drwy reoli ystadau mewn ffordd ragweithiol, strategol a sicrhau arbedion a gwerth ehangach o'r dros £4bn sy'n cael ei wario ar gaffael nwyddau a gwasanaethau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru bob blwyddyn;

- **Datblygu Sefydliadol a Gweithredu Simpson** – defnyddio'r arferion da cyfredol yng Nghymru a thu hwnt er mwyn helpu i weithredu methodolegau sydd wedi ennill eu plwyf, megis LEAN a gwasanaethau a rennir i wneud sefydliadau'n fwy effeithlon fel rhan o agenda Simpson;

- **Gwasanaethau Effeithiol i Grwpiau sy'n Agored i Niwed** – hyrwyddo dulliau arloesol a newid cynaliadwy yn y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu dylunio a'u darparu er mwyn gwella canlyniadau a defnyddio adnodau yn well.

3.7 Caiff pob un o'r grwpiau hyn ei gadeirio gan Brif Weithredwr o'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, a daw'r aelodau o bartneriaid y gwasanaeth cyhoeddus. Ategir y grwpiau cenedlaethol hyn gan arweinwyr rhanbarthol, a fydd yn gweithredu ar y sail ranbarthol a bennwyd gan y Llywodraeth i sicrhau eglurder a sefydlogrwydd wrth i ni sefydlu'r trefniadau cydweithredol traws-sectoriadd newydd.

3.8 Datblygir fframwaith mesur i helpu i ddangos y cynnydd sy'n cael ei wneud mewn gwahanol feysydd, ac adrodd arno, gan adeiladu ar y fframwaith blaenorol a chan elwa ar gyngor Swyddfa Archwilio Cymru ac arbenigwyr annibynnol eraill.

Sail newydd ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus

Bydd safoni'r cydweithredu ar sail gyffredin yn galluogi ac yn cefnogi cydweithio ar draws llywodraeth leol, y gwasanaeth iechyd a'r heddlu. Bydd yn lleihau cymhlethdod ac yn cynnig fframwaith clir ar gyfer cydweithio wrth i ni gymryd camau i weithredu adolygiad Simpson a'r diwygiadau mawr eraill sydd ar y gweill, ym meysydd addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol, er enghraifft.

Ymateb ydyw i'r galwadau am eglurder – yn enwedig o du llywodraeth leol – ynghylch y sail ar gyfer darparu gwasanaethau rhanbarthol ar y cyd. Nod y dull hwn yw creu sylfaen mwy sefydlog a hirdymor ar gyfer cydweithredu fel bod partneriaid yn gallu bwrw ymlaen â'r gwaith o gysylltu gwasanaethau er mwyn cwrdd ag anghenion unigolion a chymunedau ledled Cymru.

Bydd safoni ffiniau daearyddol a threfniadau rhanbarthol cyffredin yn hwyluso'r dulliau darparu drwy hyrwyddo gwell llywodraethu ac atebolrwydd. Ceir atebolrwydd gwleidyddol cliriach rhwng y Llywodraeth a phartneriaid lleol gan gynnwys awdurdodau lleol. Mae hefyd yn cryfhau'r atebolrwydd am ddarparu canlyniadau a rennir mewn ardal ddaearyddol benodol.

Cefnogi arloesi a'r arferion gorau

3.9 Un o nodweddion cyffredin yr holl waith hwn yw ein bwriad i greu neu ganfod yr arferion gorau y gellir eu hymestyn ledled y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Mae gofyn i ni i gyd weithio'n fwy effeithlon o fewn ein cyllidebau presennol, gwella ein gwasanaethau a sicrhau gwell canlyniadau. Gallwn ni i gyd ddysgu oddi wrth ein gilydd. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi hyn drwy ei Chronfa Buddsoddi i Arbed, sy'n helpu i weithredu prosiectau gwella a fydd yn arwain at arbedion effeithlonrwydd er mwyn rhyddhau symiau sylweddol o arian parod, ac yn darparu gwasanaethau effeithiol sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ar yr un pryd. Darperir y Gronfa fuddsoddi hon, sy'n ad-daladwy, yn ychwanegol at y cyllidebau craidd er mwyn ysgogi prosiectau effeithlonrwydd cydweithredol.

3.10 Mae'r buddsoddiadau eisoes wedi hwyluso gwelliannau mewn caffael cydweithredol, rheoli asedau, gwasanaethau corfforaethol a rennir a mentrau sy'n ymwneud â dulliau mwy effeithlon ac effeithiol o ddarparu gwasanaethau. Caiff manylion y prosiectau sy'n derbyn cymorth Buddsoddi i Arbed eu cyhoeddi heddiw mewn dogfen ar wahân o'r enw **Buddsoddi i Arbed**[7].

3.11 Mae'r Gronfa'n parhau i fuddsoddi mewn prosiectau sy'n cefnogi agweddau allweddol ar Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru – a'r agenda ar gyfer effeithlonrwydd y gwasanaeth cyhoeddus a gwelliannau ehangach yn arbennig. Bydd ar gael i gefnogi cynigion ar gyfer partneriaeth sy'n helpu i weithredu argymhellion allweddol sy'n codi o Adolygiad Simpson o wasanaethau llywodraeth leol, yr Adolygiad o Adnoddau Rheng Flaen, Adolygiad Vivian Thomas, diwygio'r gwasanaethau cymdeithasol, cynllun strategol pum mlynedd y GIG a'r Strategaeth TGCh ar gyfer y Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

3.12 Yn ogystal â'r Gronfa Buddsoddi i Arbed, mae yna nifer o brosiectau o dan Flaenoriaeth 4 yr ESF (Creu'r Cysylltiadau) a fydd yn defnyddio cyllid Strwythurol Ewropeaidd i fuddsoddi mewn gwella gwasanaethau cyhoeddus drwy gydweithio a meithrin gallu. Mae yna amryw o brosiectau ESF a fydd yn cefnogi dulliau mwy effeithlon o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- modelau newydd ar gyfer gweithio gyda theuluoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot sydd â'r nod o ddarparu gwasanaethau cofleidiol ar gyfer holl anghenion y teulu yn hytrach na fesul gwasanaeth unigol;

- prosiect Fframwaith Gwella Datblygu Cydweithio Ynys Môn, a fydd yn adeiladu ar sail y dulliau cydweithio cyfredol ac yn arwain integreiddio a gwelliannau mewn gwasanaethau, ar sail cytundebau ffurfiol.

3.13 Disgwylir y bydd y rhain yn arwain at ddarparu gwell gwasanaethau, lleihau dyblygu, lleihau'r galw yn y dyfodol a darparu model y gellir ei ddefnyddio'n ehangach.

---

[7] Mae'r manylion llawn i'w gweld ar y tudalennau Buddsoddi i Arbed ar wefan Llywodraeth Cymru: http://cymru.gov.uk/topics/improvingservices/bettervfm/i2savefund/;jsessionid=Lps6TGGFpWBN3GHWGMSGxrXf2yG1wLq4M0v4yYMB7zGNjj2xLtfg!-1666378451?lang=cy

4. Asesiadau Effaith

4.1 Er mwyn cwrdd â'n hymrwymiadau cyfreithiol, mae angen i ni ddangos ein bod yn ystyried effaith bosibl ein cynlluniau gwariant ar gydraddoldeb. Rydym yn cymryd y gofyniad hwn o ddifrif ac wedi mynd ymhellach na'r hyn sy'n ofynnol i ni ei wneud yn gyfreithiol. Fel rhan o Gyllideb y llynedd, gwnaeth Llywodraeth Cymru gryn dipyn o waith i asesu effaith y cynlluniau a gyhoeddwyd gennym ar bobl â nodweddion gwarchodedig yn ogystal â'r effeithiau cymdeithasol ac economaidd ehangach. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ailadrodd asesiad manwl y llynedd gan fod llawer o'n gwaith blaenorol yn parhau i fod yn berthnasol a llawer, ond nid y cyfan, o ddyraniadau eleni yn ddigyfnewid.

4.2 Mae angen i ni fod yn hyderus bod yr effaith ar gydraddoldeb wedi'i asesu ar gyfer y meysydd hynny o fewn y gyllideb sydd wedi newid. Er mwyn cyflawni hynny, cynhaliodd Adrannau Llywodraeth Cymru sgriniad cychwynnol ar y newidiadau arfaethedig er mwyn ystyried a allent effeithio ar gydraddoldeb. Yn dilyn y broses sgrinio gychwynnol, os oedd hi'n amlwg bod yna effaith sylweddol ar bobl â nodweddion gwarchodedig, roedd gofyn cynnal Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) er mwyn deall yn well effaith y dyraniadau arfaethedig yn y gyllideb ar gydraddoldeb a chwrdd â'r gofynion deddfwriaethol. Yn Atodiad C, mae'r Adrannau wedi darparu eu hasesiadau o effaith y gyllideb ar gydraddoldeb a, lle bo'n briodol, wedi rhoi diweddariadau ar y newidiadau i'r gyllideb ers cyhoeddi'r EIA gyda chyllideb 2011-12. Dylid ystyried Atodiad C a'r Asesiad Cydraddoldeb ar gyfer Cyllideb 2011-12[8] ar y cyd.

4.3 Mae Atodiad C hefyd yn cynnig crynodeb o effaith penderfyniadau gwariant Llywodraeth Cymru ac effaith y newidiadau i Drethi a Budd-daliadau nad ydynt wedi'u datganoli.

4.4 O safbwynt asesu'r effaith ar gydraddoldeb, prin yw'r newidiadau arfaethedig i'r gyllideb ddrafft. Mae'r prif newidiadau'n ymwneud ag:

- ein hymrwymiadau **Pump am Ddyfodol Tecach**;
- parhau i ddarparu ein buddion cyffredinol;
- sicrhau bod y GIG yn gynaliadwy yn ariannol.

4.5 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal Asesiadau o'r Effaith a'r Gydraddoldeb yn y meysydd hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb drwy ein proses Llunio Polisi Cynhwysol (IPM), sy'n sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan annatod o broses y llywodraeth ar gyfer llunio a gweithredu polisïau. Y maes polisi diweddaraf sy'n defnyddio'r broses IPM yw cam nesaf y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

[8] Mae manylion llawn y Gyllideb a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer 2011-12 i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru: http://cymru.gov.uk/about/civilservice/directorates/spfp/financedepartmentreports/110201equalityimpacts/?lang=cy

5. Cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllideb 2012-13

5.1 Mae cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gyllideb yn adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd hyd yma ac yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu newydd.

5.2 Y gwariant datganoledig yng Nghymru ar gyfer 2012-13 yw DEL Cymru o ychydig dros £15bn a'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) o £378m. Mae DEL Cymru yn cynnwys cyllidebau Comisiwn y Cynulliad, Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Yr elfen fwyaf yn DEL Cymru yw'r cyllid a ddyrennir i Adrannau Llywodraeth Cymru, ac yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2012-13 mae yna £13.6bn o adnodd ac £1.1bn o gyfalaf. Amlinellir y dyraniadau adrannol isod (gweler Tablau 5.1, 5.2 a 5.3), ac fe amlinellir yr AME ac elfennau eraill DEL Cymru yn Nhablau 5.4 a 5.5.

Cyllidebau DEL Adnoddau

5.3 Mae Tabl 5.1 a Thabl 5.2 yn nodi cyllidebau adnoddau cyllidol ac adnoddau anghyllidol y DEL a ddyrennir i'r Prif Grwpiau Gwariant dros y cyfnod 2012-13 i 2014-15. Mae'r tablau hyn hefyd yn dangos canran y newid yn y cyllidebau o gymharu â 2011-12. Mae'r cyllidebau adnoddau hyn, sef y sylfaen ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, yn cynyddu £76.4m mewn arian parod, neu 0.6% rhwng 2011-12 a 2012-13. Mae'r dyraniadau dangosol yn cynyddu 0.8% rhwng 2012-13 a 2013-14 a 0.3% rhwng 2013-14 a 2014-15.

Cyllidebau DEL Cyfalaf

5.4 Rydym ni o'r farn bod parhau â buddsoddiadau cyfalaf yn hanfodol er mwyn arwain adfywiad economaidd Cymru. Ni chafwyd unrhyw newid i'r dyraniadau cyfalaf Adrannol dangosol cyfredol ond rydym yn bwriadu cadw'n ganolog y swm gweddilliol sy'n codi o ganlyniad i'r cynnydd yn ein DEL Cyfalaf yn 2014-15 i'w ddyrannu'n strategol yn y man. Bydd hyn yn cynyddu ein Cronfa Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog (CRC) o £50m i £92m yn 2014-15 ac yn rhoi'r hyblygrwydd i ni allu dyrannu cyfalaf yn unol â'n blaenoriaethau strategol.

5.5 Mae Tabl 5.3 yn nodi'r newid canrannol yn y cyllidebau DEL cyfalaf a ddyrennir i'r Prif Grwpiau Gwariant o 2011-12. Mae'r cyllidebau cyfalaf hyn yn gostwng £79.2m neu 6.5% mewn arian parod rhwng 2011-12 a 2012-13, gan adlewyrchu gostyngiadau Llywodraeth y DU. Mae'r cynllun dangosol ar gyfer 2013-14 yn gostwng 10.9% rhwng 2012-13 a 2013-14. Mae'r cyllidebau cyfalaf Adrannol ar gyfer 2014-15 yr un fath â'r cynlluniau dangosol ar gyfer 2013-14.

Tabl 5.1 – Dyraniad Cyllidebau DEL Adnoddau Cyllidol Llywodraeth Cymru a Chanran y Newid rhwng 2011 a 2015

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG):	£000oedd					
Cyllidebau DEL Adnoddau Cyllidol	**Llinell Sylfaen 2011-12[9]**	**2012-13**	**2013-14**	**2014-15**	**% newid dros 3 blynedd (termau arian parod)**	**% newid dros 3 blynedd (termau real)**
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	5,804,139	5,876,623	5,909,280	5,909,668	1.8%	-5.8%
Llywodraeth Leol a Chymunedau	4,725,057	4,733,774	4,788,739	4,811,880	1.8%	-5.8%
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	184,095	181,319	182,877	182,877	-0.7%	-8.1%
Addysg a Sgiliau	1,532,070	1,550,749	1,570,793	1,575,528	2.8%	-4.9%
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	265,969	262,085	262,657	266,103	0.1%	-7.5%
Tai, Adfywio a Threftadaeth	280,345	274,605	275,920	275,966	-1.6%	-8.9%
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	315,830	305,455	290,899	290,899	-7.9%	-14.8%
Cyfanswm Adrannau Llywodraeth Cymru	**13,107,505**	**13,184,610**	**13,281,165**	**13,312,921**	**1.6%**	**-6.1%**

[9] Mae'r ffigurau llinell sylfaen ar gyfer 2011-12 yr un fath â rhai'r Gyllideb Atodol a gymeradwywyd gan y Cynulliad ym mis Mehefin, wedi'u haddasu i ddileu'r dyraniadau nad ydynt yn cael eu hailadrodd.

Tabl 5.2 – Dyraniad Cyllidebau DEL Adnoddau Anghyllidol Llywodraeth Cymru a Chanran y Newid rhwng 2011 a 2015

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG):	£000oedd					
Cyllidebau DEL Adnoddau Anghyllidol	**Llinell Sylfaen 2011-12[10]**	**2012-13**	**2013-14**	**2014-15**	**% newid dros 3 blynedd (termau arian parod)**	**% newid dros 3 blynedd (termau real)**
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	170,000	170,000	170,000	170,000	0.0%	-7.5%
Llywodraeth Leol a Chymunedau	109,098	109,098	109,098	109,098	0.0%	-7.5%
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	1,551	1,551	1,551	1,551	0.0%	-7.5%
Addysg a Sgiliau	98,131	97,431	104,031	106,931	9.0%	0.8%
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	3,098	3,098	3,098	3,098	0.0%	-7.5%
Tai, Adfywio a Threftadaeth	3,677	3,677	3,677	3,677	0.0%	-7.5%
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	16,000	16,000	16,000	16,000	0.0%	-7.5%
Cyfanswm Adrannau Llywodraeth Cymru	**401,555**	**400,855**	**407,455**	**410,355**	**2.2%**	**-5.5%**

[10] Mae'r ffigurau llinell sylfaen ar gyfer 2011-12 yr un fath â rhai'r Gyllideb Atodol a gymeradwywyd gan y Cynulliad ym mis Mehefin, wedi'u haddasu i ddileu'r dyraniadau nad ydynt yn cael eu hailadrodd.

Tabl 5.3 – Dyraniad Cyllidebau DEL Cyfalaf Llywodraeth Cymru a Chanran y Newid o 2011 i 2015

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG): Cyllidebau DEL Cyfalaf	£000oedd					
	Llinell Sylfaen 2011-12[11]	2012-13	2013-14	2014-15	% newid dros 3 blynedd (termau arian parod)	% newid dros 3 blynedd (termau real)
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	262,103	240,603	214,478	214,478	-18.2%	-24.3%
Llywodraeth Leol a Chymunedau	281,172	261,641	233,291	233,291	-17.0%	-23.3%
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	94,588	88,456	79,370	79,370	-16.1%	-22.4%
Addysg a Sgiliau	169,973	161,343	143,834	143,834	-15.4%	-21.7%
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	60,642	61,629	54,238	54,238	-10.6%	-17.3%
Tai, Adfywio a Threftadaeth	316,738	294,558	262,564	262,564	-17.1%	-23.3%
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	30,720	28,464	25,313	25,313	-17.6%	-23.8%
Cyfanswm Adrannau Llywodraeth Cymru	**1,215,936**	**1,136,694**	**1,013,088**	**1,013,088**	**-16.7%**	**-22.9%**

[11] Mae'r ffigurau llinell sylfaen ar gyfer 2011-12 yr un fath â rhai'r Gyllideb Atodol a gymeradwywyd gan y Cynulliad ym mis Mehefin, wedi'u haddasu i ddileu'r dyraniadau nad ydynt yn cael eu hailadrodd.

Cyllideb DEL Cymru

5.6 Mae Tabl 5.4 yn dangos elfennau cyllideb DEL Cymru sy'n cynnwys cyllideb DEL Llywodraeth Cymru a chyllidebau dangosol Comisiwn y Cynulliad, Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae hefyd yn dangos y cronfeydd adnoddau wrth gefn a'r cronfeydd cyfalaf wrth gefn. Mae DEL Cymru hefyd yn cynnwys Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru.

Tabl 5.4 - Dyraniad Cyllideb DEL Cymru

Cyllideb DEL Cymru		**£000oedd**			
		2011-12	**2012-13**	**2013-14**	**2014-15**
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant		6,236,242	6,287,226	6,293,758	6,294,146
Llywodraeth Leol a Chymunedau		5,115,327	5,104,513	5,131,128	5,154,269
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth		280,234	271,326	263,798	263,798
Addysg a Sgiliau		1,800,174	1,809,523	1,818,658	1,826,293
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy		329,709	326,812	319,993	323,439
Tai, Adfywio a Threftadaeth		600,760	572,840	542,161	542,207
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu		362,550	349,919	332,212	332,212
Cyfanswm a ddyrennir i Adrannau Llywodraeth Cymru		**14,724,996**	**14,722,159**	**14,701,708**	**14,736,364**
Cronfeydd Adnoddau Wrth Gefn	DEL Adnoddau Cyllidol	187,892	126,689	172,466	177,478
	DEL Adnoddau Anghyllidol	25,942	68,441	71,208	92,361
Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn		69,880	50,449	50,449	92,162
Comisiwn y Cynulliad		48,822	44,729	45,021	45,021
Archwilydd Cyffredinol Cymru		4,853	4,853	4,853	4,853
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru		3,854	3,961	3,960	3,960
Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru		631	675	675	675
Cyfanswm Gwariant yng Nghyllideb DEL Cymru		**15,066,870**	**15,021,956**	**15,050,340**	**15,152,874**

Cronfeydd wrth Gefn

5.7 Yn y Gyllideb Ddrafft hon pennir mai 0.95% o'r DEL adnoddau cyllidol fydd lefel ein Cronfeydd Wrth Gefn adnoddau cyllidol yn 2012-13. Ym mlynyddoedd 2013-14 a 2014-15, pennwyd mai ychydig dros 1% fydd lefel Cronfeydd wrth Gefn yr adnoddau cyllidol. Rydym yn fodlon bod lefel y Cronfeydd Wrth Gefn i'r dyfodol yn ddigonol i reoli risgiau ac yn cynnig digon o hyblygrwydd i ni allu ymateb i ddigwyddiadau annisgwyl.[12]

[12] Mae cronfeydd wrth gefn yr adnoddau cyllidol yn cynnwys yr adnoddau a glustnodwyd ar gyfer Arian Pontio yn y dyfodol.

Gwariant a Reolir yn Flynyddol

5.8 Mae Tabl 5.5 yn rhoi rhagolwg o lefel cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) Llywodraeth Cymru. Diffinnir AME fel gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, aml-flwyddyn yn yr un ffordd â DEL. Mae AME, fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr ac yn ymateb i'r galw. Mae diffiniad llawn i'w weld yn Atodiad 4 – yr Eirfa.

Tabl 5.5 - Cyllideb AME Llywodraeth Cymru

PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)	£000oedd					
	2012-13		2013-14		2014-15	
	Adnoddau	Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf	Adnoddau	Cyfalaf
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	181,780	-	80,514	-	199,392	-
Llywodraeth Leol a Chymunedau	64,314	-	25,690	-	53,240	-
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	41,402	-	41,402	-	41,402	-
Addysg a Sgiliau	-99,893	250,418	-108,455	269,740	-125,974	279,284
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	-	-	-	-	-	-
Tai, Adfywio a Threftadaeth	-58,510	-	-52,260	-	-52,260	-
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	-1,837	-	-1,366	-	-848	-
Cyfanswm Cyllideb AME Llywodraeth Cymru	**127,256**	**250,418**	**-14,475**	**269,740**	**114,952**	**279,284**

6. Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant

Crynodeb o'r Newidiadau i'r Gyllideb

6.1 O gymharu â chynlluniau dangosol ar gyfer 2012-13 a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Derfynol 2011-12 (fel y'u hailddatganwyd yn seiliedig ar y strwythur newydd yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2011-12), mae cyfanswm y dyraniad MEG ar gyfer Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant wedi cynyddu £92.4m yn 2012-13 a £108.7m yn 2013-14. Y cynllun dangosol ar gyfer 2014-15, a gyhoeddir am y tro cyntaf, yw £6.294bn (£0.4m yn fwy nag yn 2013-14).

6.2 Mae'r cyllid adnoddau ychwanegol yn gysylltiedig â'r rhaglenni gwariant canlynol:

- **Cyllid ychwanegol ar gyfer y GIG** – Rydym wedi dyrannu £83m ychwanegol yn 2012-13, £83m yn 2013-14 a £73m yn 2014-15 i roi Byrddau Iechyd Lleol ar sylfaen ariannol gynaliadwy wrth edrych tua'r dyfodol;

- **Orthopedeg** – Rydym wedi dyrannu £15.3m ychwanegol yn 2012-13 a fydd yn cynyddu i £16.6m yn 2013-14 ac yn cynnal y cyllid ar y lefel hon yn 2014-15 i wella'r capasiti i ddelio â'r cynnydd sylweddol yn y galw am driniaeth Orthopedig;

- **Rhaglen Dechrau'n Deg i blant** – Rydym wedi dyrannu £5m ychwanegol yn 2012-13 a fydd yn cynyddu i £30m yn 2014-15 i ymestyn y rhaglen yn unol ag ymrwymiad y Llywodraeth i ddyblu nifer y plant sy'n cael budd o'r cynllun;

- **Presgripsiynau am Ddim** – Rydym wedi dyrannu £0.4m yn ychwanegol yn 2014-15 i gynnal y budd cyffredinol hwn, sydd â'r nod o sicrhau nad yw pobl ar incwm isel yn cael eu hatal rhag cymryd meddyginiaeth reolaidd a fyddai'n eu helpu i fyw bywydau iachach.

6.3 Mae'r dyraniadau ychwanegol hyn wedi'u gwrthbwyso gan drosglwyddiadau i Brif Grwpiau Gwariant eraill o £10.8m ym mhob un o'r tair blynedd.

6.4 Yn unol â'r cyhoeddiad y llynedd, yn sgil gostyngiad sylweddol yn nyraniad cyfalaf Llywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU, bydd y dyraniad cyfalaf ar gyfer Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant £21.5m (9%) yn is yn 2012-13 nag yn 2011-12, gyda gostyngiad blynyddol pellach o £26.1m (12%) yn 2013-14. Mae cyllideb cyfalaf 2014-15 wedi'i osod ar lefel 2013-14.

6.5 Yn ogystal â'r newidiadau cyllidebol a nodir uchod, cafwyd trosglwyddiadau rhwng llinellau gweithredu penodol. Gwnaethpwyd hyn yn sgil cynnal adolygiad o gyllidebau Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant. Nod yr adolygiad hwn oedd dod o hyd i gyfleoedd i gydgrynhoi'r llinellau cyllideb presennol a throsglwyddo cyllid i ddyraniad refeniw'r GIG a chyllidebau grant craidd Iechyd Cyhoeddus Cymru lle bo hynny'n briodol.

Blaenoriaethau Strategol

6.6 Y prif nod ar gyfer ein Hadran Iechyd yn y Rhaglen Lywodraethu yw iechyd gwell i bawb a llai o anghydraddoldeb iechyd. Mae ein gwaith ar Wasanaethau Cymdeithasol yn adlewyrchu ein dymuniad i sefydlu gwasanaethau integredig, cynaliadwy, diogel ac effeithiol o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar bobl, ac sy'n adeiladu ar gryfderau unigolion ac yn hyrwyddo eu lles. Rydym wrthi'n rhoi help i'r unigolion a'r teuluoedd sydd ei angen fwyaf i fyw bywydau iach ac annibynnol. Byddwn yn cymryd camau rhagweithiol ac yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar i wneud y cyfraniad mwyaf posibl i'n nodau mewn perthynas â thlodi ac anghydraddoldeb.

Gwasanaethau Iechyd

6.7 Mae'r Fframwaith Pum Mlynedd Gwasanaeth, y Gweithlu a Chyllid ar gyfer y GIG, a luniwyd yn 2009, yn llywio'r agenda ddiwygio sy'n angenrheidiol i gyflawni'r weledigaeth o greu gwasanaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'r radd flaenaf. Bydd yr Adran yn parhau ar y trywydd hwn wrth ganolbwyntio ar y blaenoriaethau a nodwyd yn nogfen y Rhaglen Lywodraethu.

6.8 Bydd yr amcanion allweddol canlynol yn llywio gwaith yr Adran:

- gwella canlyniadau iechyd drwy sicrhau ein bod yn gwella ansawdd a diogelwch gwasanaethau;
- atal iechyd gwael a hyrwyddo ffyrdd iach o fyw;
- gwella mynediad a phrofiad y claf;
- cydweithio a hyrwyddo systemau gofal integredig rhwng gwasanaethau gofal sylfaenol, cymunedol a chymdeithasol i ddarparu gwasanaethau yn y gymuned.

6.9 Er gwaethaf y buddsoddiad ychwanegol a gyhoeddir yn y Gyllideb Ddrafft hon, mae'r hinsawdd ariannol bresennol yn un heriol, a bydd llwyddiant yn dibynnu ar weithio'n effeithlon ac yn effeithiol mewn partneriaeth ar draws Adrannau'r Llywodraeth, o fewn y GIG, gyda Llywodraeth Leol a chyda cyrff eraill sy'n bartneriaid.

6.10 Mae'r galw am wasanaethau yn parhau i gynyddu. Mae hyn, yn ogystal â'r rhagolygon ariannol presennol, yn atgyfnerthu'r angen i gynyddu'r momentwm a chyflymu'r gwaith o drawsnewid ein ffordd o ddarparu gwasanaethau. Rhaid inni wella'r ffordd y mae pob agwedd ar y system ofal wedi'u hintegreiddio. Bydd rheoli'r galw am wasanaethau iechyd a lleihau'r straen ar wasanaethau acíwt yn allweddol i gynnal gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel. Bydd ffocws cryf ar wella iechyd a hunanofal yn parhau'n flaenoriaeth allweddol.

Gwasanaethau Cymdeithasol

6.11 Yn ddiweddar, mae gwaith Comisiwn annibynnol wedi llywio'r broses o gynhyrchu dogfen strategol bwysig, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2011, o'r enw 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith

Gweithredu'. Bydd cyflawni'r ymrwymiadau sydd yn y ddogfen yn galw am weithio integredig a chydweithredu'n llawer agosach ar draws Llywodraeth Leol a chyda'r GIG. Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol i wella safonau. Byddwn yn adeiladu ar y gwaith hwn ac yn datblygu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol a fydd yn adlewyrchu'r weledigaeth a'r egwyddorion a nodir yn 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru'. Byddwn yn rhoi rhaglen polisi a deddfwriaeth ar waith i gyflawni ein huchelgais ac i adnewyddu Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru. Bydd y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol yn ganolog i hyn, a bydd yn cynnig fframwaith cyfreithiol cydlynol i Gymru ar gyfer trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol.

6.12 Er mis Ebrill 2011, rydym hefyd wedi rhoi ar waith "Pecyn Gwella Camau Cyntaf" i ddarparu mwy o gysondeb pan fydd awdurdodau lleol yn codi tâl am wasanaethau cymdeithasol dibreswyl. Gwnaed hyn er mwyn ymdrin â'r amrywiadau eang yn y taliadau a godwyd gan awdurdodau yng Nghymru, ac i gyflwyno gwarant na ddylai unrhyw un sy'n talu am wasanaethau orfod talu mwy na £50 yr wythnos. I ddigolledu awdurdodau lleol am yr incwm maent yn ei golli o ganlyniad i hyn, mae cyllid wedi'i gynnwys yn y Grant Cynnal Refeniw trwy drosglwyddo £10 miliwn i'r MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau.

Plant

6.13 Ein nod yw rhoi dechrau iach ar fywyd i blant. Rydym am sicrhau bod plant yn cael y gofal sydd ei angen arnynt mor agos at eu cartrefi â phosibl, drwy system iechyd integredig, diogel a chynaliadwy.

6.14 Rydym wedi pwysleisio ein hymrwymiad i wella canlyniadau i blant. Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc 2011 yn rhoi dyletswydd glir ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n darparu y dylai Gweinidogion Cymru flaenoriaethu hawliau Plant a Phobl Ifanc.

6.15 Rydym yn gwneud hyn drwy ein rhaglen o ymyriadau iechyd a chymdeithasol, gan ymateb i'r sylfaen dystiolaeth yn Adroddiadau Marmot, Allen a Field. Mae'r rhain yn dangos yn eglur bod atal ac adnabod ac ymyrryd yn gynnar, yn ogystal â mynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd, yn fuddsoddiad hollbwysig yn nyfodol pob plentyn.

Y Rhaglen Lywodraethu

6.16 Mae'r Rhaglen Lywodraethau yn nodi nifer o ymrwymiadau a fydd yn cael eu cyflawni dros y pedair blynedd nesaf, a dyma fydd ein prif flaenoriaethau ar gyfer tymor y Llywodraeth hon. Bydd yr ymrwymiadau hyn yn rhoi ffocws llawer mwy ar wella canlyniadau iechyd a lleihau anghydraddoldeb. Mae'r ymrwymiadau hyn yn cynnwys gwaith i:

- wella mynediad at feddygon teulu;
- sefydlu archwiliadau iechyd blynyddol ar gyfer pobl dros 50 oed;
- gwella gwasanaethau canser, cardiaidd a strôc ac iechyd plant;
- gwella amserau ymateb gwasanaethau ambiwlans;

- lleihau nifer y bobl sy'n mynychu adrannau damweiniau ac achosion brys yn ddiangen.

Pump am Ddyfodol Tecach

6.17 Yn fwy penodol, mae'r Llywodraeth wedi tynnu sylw at bum adduned penodol sydd o bwys arbennig, sef '**Pump am Ddyfodol Tecach**'. Mae gan yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant gyfrifoldeb uniongyrchol dros gyflawni dwy o'r rhain.

Gwella mynediad i feddygon teulu gyda'r nos ac ar foreau Sadwrn. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i feddygon teulu sicrhau bod eu meddygfeydd yn fwy hygyrch i bobl sy'n gweithio.

6.18 Mae'r ymrwymiad hwn yn ymestyn y gwaith presennol ar fynediad at feddygon teulu. Yn sgil cytundeb â Chymdeithas Feddygol Prydain yn 2008, mae tua 10% o'r practisau yng Nghymru eisoes yn cynnig oriau agor estynedig gyda'r nos. Caiff hyn ei ymestyn, a bydd Byrddau Iechyd yn gweithio gydag arweinwyr meddygon teulu i sefydlu gwasanaethau ar fore Sadwrn. Bydd yr ymrwymiad hwn yn gwella parhad ac ansawdd gofal. Bydd yn sicrhau bod pobl sy'n gweithio yn gallu cael mynediad at wasanaeth ar adegau sy'n gyfleus iddynt, ac yn cael gwared ar rwystrau sy'n atal pobl â chyflyrau cronig rhag gweithio. Bydd mynediad gwell at apwyntiadau wedi'u cynllunio yn gwella'r dull o reoli clefydau cronig, a dylai hynny yn ei dro leihau nifer y cleifion sy'n galw am ofal heb ei gynllunio o ganlyniad i gymhlethdodau. Bydd gwella mynediad at feddygon teulu ar gyfer cleifion na fyddai fel arall yn mynd atynt hefyd yn gyfle i ddarparu cyngor ar hyrwyddo iechyd, a allai ddod â manteision hirdymor i gleifion.

Byddwn yn dyblu nifer y plant sy'n elwa ar ymweliadau iechyd gwell, lleoedd am ddim mewn meithrinfeydd, a chefnogaeth well i deuluoedd drwy ein rhaglen 'Dechrau'n Deg'.

6.19 Mae rhaglen Dechrau'n Deg yn seiliedig ar dystiolaeth y bydd buddsoddi mwy ym mlynyddoedd cynnar plant o deuluoedd dan anfantais yn gwella eu canlyniadau iechyd a'u deilliannau addysg yn y tymor byr, ac yn y tymor hwy yn gwella'u sgiliau ac yn cau'r bwlch canlyniadau ar gyfer plant sy'n byw mewn tlodi. Mae Dechrau'n Deg yn seiliedig ar ddull integredig o ddarparu gwasanaethau, gyda lefelau digonol o fuddsoddi i wella'r canlyniadau i blant.

6.20 Mae'r rhaglen yn cynnwys pedair elfen allweddol:

- gofal rhan amser o ansawdd uchel yn rhad ac am ddim i bob plentyn cymwys rhwng 2 a 3 oed (12.5 awr yr wythnos am 42 wythnos y flwyddyn);
- gwasanaeth ymwelwyr iechyd dwys;
- mynediad at raglenni rhianta dwys yn seiliedig ar dystiolaeth;
- mynediad at iaith a chwarae sy'n datblygu sgiliau sylfaenol rhieni a phlant.

6.21 Bydd y broses o ymestyn y rhaglen yn digwydd fesul cam dros nifer o flynyddoedd. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer recriwtio a hyfforddi ymwelwyr

iechyd a gweithwyr gofal plant ychwanegol, a hyfforddi staff ychwanegol i ddarparu rhaglenni rhianta.

Cyllid ar gyfer Rhaglenni Allweddol

6.22 Dros y tair blynedd nesaf byddwn yn gwario £287.5m yn fwy ar gyflenwi gwasanaethau'r GIG nag yn y cynlluniau a gyhoeddwyd gennym yn flaenorol. Rydym yn disgwyl i'r cynnydd hwn osod sylfaen ariannol gynaliadwy a chaniatáu i'r GIG barhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Mae heriau penodol wedi codi mewn perthynas â bodloni targedau ar gyfer amseroedd aros am wasanaethau Orthopedig. Mae'r rhain wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y galw dros nifer o flynyddoedd, ac ymddengys bod hyn am barhau o ganlyniad i ffactorau demograffig. Rydym yn cydnabod yr angen penodol i fuddsoddi mwy i gefnogi mentrau sy'n gwella capasiti'r gwasanaethau hyn mewn ffordd gynaliadwy, ac i ymateb i'r dagfa bresennol.

6.23 Er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau allweddol, mae dyraniadau ariannol rhaglenni eraill wedi cael eu hadolygu. Mae camau gweithredu a Meysydd Rhaglenni Gwariant wedi'u blaenoriaethu a'u hailgyfeirio i sicrhau bod yr holl ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu yn cael eu cyflawni. Mae manylion y newidiadau hyn wedi'u cynnwys yn y tablau sy'n dangos cyllidebau ar lefel y camau gweithredu.

Arbedion Effeithlonrwydd

6.24 Oherwydd y pwysau ariannol parhaus a didrugaredd yn y GIG, mae angen rhoi sylw cyson i reoli costau. Rhaid inni ddod o hyd i ffyrdd arloesol o gyflawni mwy fyth o arbedion effeithlonrwydd. Ar hyn o bryd amcangyfrifir bod y costau na ellir eu hosgoi yn y GIG ar lefel o 4-5% y flwyddyn, ac felly er mwyn parhau mewn cydbwysedd ariannol rhaid i sefydliadau'r GIG ddod o hyd i arbedion i ryddhau arian parod gwerth o leiaf £250m y flwyddyn. Mae gan y GIG record dda o gyflawni arbedion effeithlonrwydd, gydag arbedion gwerth £313.9m yn 2010-11, ac arbedion pellach gwerth £296.5m yn cael eu rhagweld ar gyfer 2011-12.

6.25 Disgwylir i ragor o arbedion effeithlonrwydd gael eu cyflawni trwy waith Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, a ddaeth yn gwbl weithredol ar 1 Ebrill 2011. Bydd manteision gwirioneddol yn deillio o gysoni a safoni ar draws holl wasanaethau'r GIG.

6.26 Er i welliannau sylweddol mewn perfformiad ac effeithlonrwydd gael eu cyflawni dros y blynyddoedd diwethaf, mae trawsnewid y gwasanaeth yn allweddol i gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth yn y tymor hwy. I'r perwyl hwn, mae pob Bwrdd Iechyd Lleol wedi llunio cynlluniau 5 mlynedd i gefnogi'r Fframwaith Strategol Pum Mlynedd Gwasanaeth, Gweithlu a Chyllid. Bydd hwn yn parhau i lywio ein hymateb i gyllidebau presennol.

Asesiadau Effaith

6.27 Adeg pennu cynlluniau gwariant 2011-12 i 2013-14 yng Nghyllideb y llynedd, cynhaliwyd asesiadau llawn o'r effaith ar gydraddoldeb mewn perthynas â pholisïau'r Adran Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Phlant i sicrhau eu bod yn talu 'sylw dyledus' i ryw, hil, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd a chrefydd neu gred. Yn gyffredinol, nid yw'r tybiaethau sy'n sylfaen i'r cynlluniau gwariant hyn wedi newid yn sylweddol, ac maent yn parhau'n berthnasol i 2014-15.

6.28 Mae asesu cyllidebau yng nghyd-destun dyletswyddau cydraddoldeb y Cynulliad yn broses barhaus. Yn hynny o beth, mae effaith ar gydraddoldeb y dyraniadau ychwanegol sydd wedi'u cynnwys yn y gyllideb bresennol wedi'u hystyried ar wahân. Bydd cydraddoldeb yn parhau i gael ei ystyried nid yn unig wrth lunio polisïau, ond wrth eu rhoi ar waith, eu datblygu a'u cyflenwi.

Tabl 6.1 – Dyraniadau Adnoddau Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant

DEL	£000oedd							
	2011-12	2012-13			2013-14			2014-15
	Llinell sylfaen	Cynlluniau Dangosol Cyllideb Atodol Mehefin 2011	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Dangosol Cyllideb Atodol Mehefin 2011	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Dangosol
Cyflenwi'r GIG	5,407,503	5,386,004	105,958	5,491,962	5,399,772	107,258	5,507,030	5,497,418
Cyllidebau Canolog Iechyd	212,185	212,185	-6,811	205,374	212,185	-6,811	205,374	205,374
Atal Problemau ym maes Iechyd y Cyhoedd	155,592	155,591	1,957	157,548	155,591	1,957	157,548	157,548
Gwasanaethau Cymdeithasol	188,721	190,768	-8,664	182,104	193,825	6,336	200,161	210,161
CAFCASS Cymru	10,138	9,635	-	9,635	9,167	-	9,167	9,167
Cyfanswm DEL	**5,974,139**	**5,954,183**	**92,440**	**6,046,623**	**5,970,540**	**108,740**	**6,079,280**	**6,079,668**
AME								
Amhariadau'r GIG	184,699	129,764	52,016	181,780	89,827	-9,313	80,514	199,392
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	**6,158,838**	**6,083,947**	**144,456**	**6,228,403**	**6,060,367**	**99,427**	**6,159,794**	**6,279,060**

Tabl 6.2 – Dyraniadau Cyfalaf Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant

DEL	£000oedd							
	2011-12	2012-13			2013-14			2014-15
	Llinell sylfaen	Cynlluniau Dangosol Cyllideb Atodol Mehefin 2011	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Dangosol Cyllideb Atodol Mehefin 2011	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Dangosol
Cyflenwi'r GIG	247,573	230,279	-	230,279	205,275	-	205,275	205,275
Atal Problemau ym maes Iechyd y Cyhoedd	5,418	5,039	-	5,039	4,492	-	4,492	4,492
Gwasanaethau Cymdeithasol	9,112	5,285	-	5,285	4,711	-	4,711	4,711
Cyfanswm DEL	**262,103**	**240,603**	**0**	**240,603**	**214,478**	**0**	**214,478**	**214,478**
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	**262,103**	**240,603**	**0**	**240,603**	**214,478**	**0**	**214,478**	**214,478**

7. Llywodraeth Leol a Chymunedau

Crynodeb o'r Newidiadau i'r Gyllideb

7.1 O gymharu â chynlluniau dangosol ar gyfer 2012-13 a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Derfynol 2011-12 (fel y'u hailddatganwyd yn seiliedig ar y strwythur newydd yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2011-12), mae cyfanswm y dyraniad MEG ar gyfer Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi gostwng o £50.5m yn 2012-13 a £45.5m yn 2013-14. Y cynllun dangosol ar gyfer 2014-15, a gyhoeddir am y tro cyntaf, yw £5.154bn (£23.1m yn uwch na 2013-14). Mae'r Gyllideb Llywodraeth Leol a Chymunedau yn un sy'n net o ostyngiad mewn cyllidebau adnoddau anghyllidol, a gaiff ei esbonio yn ddiweddarach yn y bennod hon.

7.2 Mae'r cyllid adnoddau ychwanegol yn gysylltiedig â'r rhaglenni gwariant canlynol:

- **Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu** – Rydym wedi dyrannu £5m ychwanegol yn 2013-14 a 2014-15 i ddarparu 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ychwanegol;

- **Tocynnau Teithio Rhatach** – Rydym wedi dyrannu £0.7m ychwanegol yn 2014-15 ar gyfer teithiau bws am ddim i bensiynwyr a phobl anabl a'u gofalwyr;

- Mae'r ymrwymiad i **ddarparu mwy o arian ar gyfer ysgolion** wedi'i gyflawni trwy ddyrannu £22.4m ychwanegol ar gyfer y Grant Cynnal Refeniw yn 2014-15. Mae hyn yn golygu y darperir cyfanswm o £80m y flwyddyn yn ychwanegol ar gyfer ysgolion erbyn 2014-15, o'i gymharu â setliad 2011-12 ar gyfer llywodraeth leol.

7.3 Mae trosglwyddiadau i'r **Grant Cynnal Refeniw** gwerth cyfanswm o £11.1m o 2012-13, a hynny mewn perthynas â'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn a'r Pecyn Gwella Camau Cyntaf. Bydd hyn yn cysoni llinellau sylfaen ar gyfer 2012-13 ymlaen â setliad terfynol llywodraeth leol ar gyfer 2011-12. Darperir mwy o fanylion pan gaiff yr Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol Dros Dro ei gyhoeddi ar 18 Hydref 2011. Bydd hwn yn nodi swm y Grant Cymorth Refeniw y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei ddosbarthu i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yn 2012-13 a thu hwnt, ynghyd â'r sail dros ddosbarthu.

7.4 Mae'r cyllid yn y cyllidebau Trafnidiaeth wedi'i ailbroffilio. Oherwydd natur cyflenwi uniongyrchol y cyllidebau hyn sy'n cynnwys, er enghraifft, Adeiladu Ffyrdd a Thocynnau Teithio Rhatach, mae'r newidiadau'n adlewyrchu'r angen i ddiwygio'r proffiliau o ran cyflenwi a'r galw. Nid yw'r newidiadau hyn i'r gyllideb yn adlewyrchu effaith bosibl blaenoriaethu'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, a ddaw i ben ym mis Tachwedd 2011, fel yr esbonnir isod.

7.5 O ran diwygio cyllidebau adnoddau, nid oes unrhyw newidiadau sylweddol ar wahân i'r gyllideb DEL adnoddau anghyllidol ar gyfer Trafnidiaeth, sy'n gostwng

£61.5m o 2012-13 ymlaen. Mae'r gyllideb hon yn darparu ar gyfer dibrisiant a diffygion ar y rhwydwaith cefnffyrdd. Er ei bod yn bosibl gweld amrywioldeb sylweddol mewn costau yn erbyn y gyllideb hon, yn sgil perfformiad alldro blaenorol mae'r gyllideb hon wedi'i rhewi ar lefelau 2011-12, sef £108.7m. Byddwn yn parhau i adolygu'r tueddiadau ym mhrisiad cefnffyrdd.

7.6 Mae'r cyllidebau cyfalaf ar gyfer y MEG yn parhau'n gyfyngedig, gyda gostyngiadau o lefelau 2011-12 yn unol â'r cynlluniau cyhoeddedig blaenorol. Mae'r unig newidiadau yn berthnasol i'r cyllidebau Trafnidiaeth, yn sgil ailbroffilio prosiectau rheilffyrdd pwysig ac ailbroffilio costau adeiladu cynlluniau ffyrdd.

7.7 Cafwyd rhai newidiadau strwythurol i'r MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft hon er mwyn alinio cyllidebau â'r cynllun busnes Adrannol, ac i dynnu ynghyd cyllidebau sy'n canolbwyntio ar lywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus.

Blaenoriaethau Strategol

7.8 Mae'r Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cyfrannu at nifer o amcanion y Rhaglen Lywodraethu. Yn benodol, mae gennym ffocws trawsbynciol ar gryfhau'r dull o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, ar fynd i'r afael â thlodi a hyrwyddo diogelwch, ac ar wella'r seilwaith drafnidiaeth sy'n hwyluso mynediad at gyflogaeth ac yn ategu ansawdd bywyd pobl Cymru.

7.9 Mae ein rhaglenni Adrannol yn cefnogi newidiadau i sicrhau gwasanaethau cyhoeddus effeithiol, effeithlon a hygyrch sy'n bodloni anghenion pobl. Rydym yn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, trosedd (gan gynnwys ofn troseddau), a chamddefnyddio sylweddau, ac yn gweithio i leihau nifer yr achosion o dân ac argyfyngau eraill a'u heffeithiau. Byddwn yn ceisio gwella bywydau trwy weithio i leihau tlodi, lleihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn mynd yn dlawd, a thrwy helpu pobl a chymunedau i ddianc rhag tlodi parhaus.

Pump am Ddyfodol Tecach

7.10 Rydym yn benderfynol o wneud ein cymunedau yn rhai cryfach a mwy diogel. Rydym wedi ymrwymo i ariannu 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ychwanegol. Bydd hwn yn ychwanegiad sylweddol a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n cymunedau. Nid yw'r Swyddogion Cymorth Cymunedol hyn yn cymryd lle heddweision parhaol, ond yn ategu ac yn cefnogi adnoddau presennol yr heddlu. Bydd y swyddogion newydd hyn yn adeiladu ar y cysylltiadau rhwng yr heddlu a chymunedau. Byddant yn weladwy, yn rhoi sicrwydd i bobl leol ac yn ymgysylltu â nhw. Byddant yn gallu ymdrin â'r ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd o hyd yn bla ar rai o'n cymunedau. A byddant yn datblygu'r berthynas sydd eisoes yn bodoli rhwng plismona a rhaglenni blaenllaw eraill Llywodraeth Cymru, fel Cymunedau yn Gyntaf.

Y Rhaglen Lywodraethu

7.11 Bydd y Llywodraeth yn parhau i gefnogi ein hardaloedd o amddifadedd mwyaf trwy gam nesaf **Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf**. Fel y nodwyd yn nogfen

ymgynghori "Cymunedau yn Gyntaf - y Dyfodol" (a gyhoeddwyd ym Mehefin 2011), o fis Ebrill 2012 bydd Cymunedau yn Gyntaf yn canolbwyntio ar gefnogi agenda **Gwrth-dlodi** y Llywodraeth. Bydd yn cefnogi'r bobl mwyaf difreintiedig yn ein hardaloedd o amddifadedd mwyaf, gyda'r nod o liniaru tlodi parhaus. Bydd yn gweithio ar y cyd â rhaglenni eraill i gau'r bwlch addysg, sgiliau, economaidd ac iechyd rhwng yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf ac ardaloedd mwy cyfoethog Cymru, ac yn helpu unigolion i ddod o hyd i waith.

7.12 Bydd y Llywodraeth yn cefnogi camau i wella'r dull o **gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus** trwy gryfhau democratiaeth leol a pharhau i sicrhau setliadau ariannol ar gyfer **llywodraeth leol** sy'n adlewyrchu anghenion lleol. Bydd cyhoeddi setliadau ariannol ar gyfer y tair blynedd nesaf yn caniatáu i awdurdodau ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol a chynllunio at y dyfodol. Bydd cymhelliannau ariannol i wella gwasanaethau, a rhoddir cymorth ymarferol i awdurdodau nad ydynt yn cyrraedd y safonau disgwyliedig. Bydd y trefniadau cynllunio a phartneriaeth hefyd yn cael eu symleiddio.

7.13 Mae'r Llywodraeth wedi cytuno ar ôl troed cyffredin ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, gan adeiladu ar ffiniau Byrddau Iechyd Lleol a'r heddlu. Bydd safoni cydweithredu yn seiliedig ar ffiniau cyffredin yn cefnogi cydweithio ar draws llywodraeth leol, gwasanaethau iechyd a'r heddlu, gan leihau cymhlethdod a chan ddarparu fframwaith clir ar gyfer cydweithredu. Mae hyn yn arbennig o bwysig am fod camau ar y gweill i roi adolygiad Simpson ar waith, ac am fod newidiadau sylweddol eraill yn mynd rhagddynt ym meysydd addysg a gwasanaethau cymdeithasol.

7.14 Bydd Grŵp Arwain y Gwasanaethau Cyhoeddus sydd newydd ei sefydlu yn ysgogi newidiadau, a bydd Cyngor Partneriaeth adnewyddedig yn arwain ar gamau cydweithredol i gyflawni'r effeithlonrwydd a'r effeithiolrwydd gorau posibl yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

7.15 Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ddatblygu system drafnidiaeth o'r radd flaenaf i ddarparu gwasanaethau diogel, fforddiadwy a chynaliadwy i bawb ar y ffyrdd, y rheilffyrdd ac yn yr awyr. Yn ddiweddar, cynhaliwyd trafodaethau rhyngom ni, awdurdodau lleol a'r Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr ynghylch teithio am ddim ar fysiau, a daethpwyd i gytundeb i ymestyn y cynllun i gyn-filwyr sydd wedi'u hanafu'n ddifrifol.

7.16 Rydym yn cynnal ymarfer blaenoriaethu mewn perthynas â'r **Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol**. Lansiwyd y Cynllun hwn ym mis Mawrth 2010, a'i nod yw darparu atebion i faterion trafnidiaeth penodol ledled Cymru. Mae'r Cynllun hefyd yn nodi'r egwyddorion sy'n arwain y broses o reoli'r system drafnidiaeth o ddydd i ddydd, gan gynnwys y meini prawf ar gyfer prosiectau ymyrryd yn y rhwydwaith. Bydd y gwaith blaenoriaethu yn caniatáu ad-drefnu cynlluniau i sicrhau bod cyllid ar gyfer trafnidiaeth yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol, a bod penderfyniadau buddsoddi yn adlewyrchu blaenoriaethau cyffredin y Llywodraeth.

Asesiadau Effaith

7.17 Wrth benderfynu dyraniadau'r gyllideb, cafodd yr effaith ar gydraddoldeb yn sgil unrhyw newidiadau ei hystyried yn ofalus. Fel rhan o broses Gyllidebol y llynedd, gwnaed llawer o waith i asesu effaith ar gydraddoldeb y cynlluniau a gyhoeddwyd gennym. Nid yw'r tybiaethau sy'n sylfaen i ddyraniadau eleni yn wahanol i gynlluniau'r llynedd. Er enghraifft, mae'r ffordd y mae cyllidebau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol eisoes yn cael eu diogelu yn cymryd hyn i ystyriaeth, a hefyd yn adlewyrchu'n fwy cyffredinol yr angen i gynnal gwasanaethau ar gyfer y bobl mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae'r cynnydd mewn dyraniadau ar gyfer blaenoriaethau fel **teithiau bws am ddim i bensiynwyr a phobl anabl a'u gofalwyr** yn 2014-15 hefyd yn tanlinellu ein hymrwymiad i'r agenda gydraddoldeb. Er bod cyllid yn cael ei ailbroffilio yn y cyllidebau trafnidiaeth, a bod newidiadau strwythurol i'r cyllidebau llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus, nid oes posibilrwydd i hyn effeithio ar gydraddoldeb. Yn olaf, cynhelir Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â cham nesaf rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar yr adeg briodol.

Tabl 7.1 – Dyraniadau Adnoddau Llywodraeth Leol a Chymunedau

DEL	£000oedd							
	2011-12	2012-13			2013-14			2014-15
	Llinell sylfaen	Cynlluniau Dangosol Cyllideb Atodol Mehefin 2011	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Dangosol Cyllideb Atodol Mehefin 2011	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Dangosol
Cyllid Llywodraeth Leol	4,209,918	4,228,997	11,117	4,240,114	4,280,255	16,117	4,296,372	4,318,772
Cefnogi Cymunedau a Phobl	58,662	53,227	-	53,227	52,064	-	52,064	52,064
Cymunedau Diogelach	43,841	44,026	-	44,026	44,176	-	44,176	44,176
Gwella Gwasanaethau, Cydweithredu a Democratiaeth	37,552	42,096	-200	41,896	41,179	-200	40,979	40,979
Polisi Trethi Leol	10,744	-	-	-	-	-	-	-
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol	15,757	15,190	-	15,190	14,461	-	14,461	14,461
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru	2,824	2,722	-	2,722	2,591	-	2,591	2,591
Estyn	13,437	12,968	-	12,968	12,364	-	12,364	12,364
Fframweithiau Arolygu, Rheoleiddio a Pherfformiad	400	-	-	-	-	-	-	-
Cydweithredu'n Lleol ac yn Rhanbarthol	1,560	-	-	-	-	-	-	-
Effeithlonrwydd ac Arloesi	3,197	-	-	-	-	-	-	-
Gwella Cysylltedd Domestig (Rhanbarthol a Chenedlaethol)	234,063	261,286	-33,522	227,764	257,716	-30,650	227,066	227,066
Gwella Cysylltedd Rhyngwladol	114,487	145,031	-31,194	113,837	145,008	-31,194	113,814	113,814
Gwella Trafnidiaeth Integredig (Lleol)	84,657	84,775	358	85,133	91,469	-2,514	88,955	89,696
Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd ac Effaith Trafnidiaeth ar yr Amgylchedd	3,056	3,056	2,939	5,995	2,056	2,939	4,995	4,995
Cyfanswm DEL	**4,834,155**	**4,893,374**	**-50,502**	**4,842,872**	**4,943,339**	**-45,502**	**4,897,837**	**4,920,978**
AME								
Cyllid Llywodraeth Leol	13,583	13,583	7,134	20,717	13,583	7,134	20,717	18,288
Gwella Cysylltedd Domestig (Rhanbarthol a Chenedlaethol)	24,138	-	43,597	43,597	40,703	-35,730	4,973	34,952
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	**4,871,876**	**4,906,957**	**229**	**4,907,186**	**4,997,625**	**-74,098**	**4,923,527**	**4,974,218**

Tabl 7.2 – Dyraniadau Cyfalaf Llywodraeth Leol a Chymunedau

DEL	£000oedd							
	2011-12	2012-13			2013-14			2014-15
	Llinell sylfaen	Cynlluniau Dangosol Cyllideb Atodol Mehefin 2011	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Dangosol Cyllideb Atodol Mehefin 2011	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Dangosol
Cyllid Llywodraeth Leol	20,000	20,000	-	20,000	20,000	-	20,000	20,000
Cefnogi Cymunedau a Phobl	17,280	14,774	-	14,774	10,950	-	10,950	10,950
Cymunedau Diogelach	9,156	8,529	-	8,529	7,711	-	7,711	7,711
Estyn	339	315	-	315	281	-	281	281
Gwella Cysylltedd Domestig (Rhanbarthol a Chenedlaethol)	83,674	73,670	11,082	84,752	55,850	-1,234	54,616	54,616
Gwella Cysylltedd Rhyngwladol	59,088	56,029	-3,342	52,687	83,836	-1,322	82,514	82,514
Gwella Trafnidiaeth Integredig (Lleol)	80,713	77,402	-4,801	72,601	43,741	5,495	49,236	49,236
Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd ac Effaith Trafnidiaeth ar yr Amgylchedd	10,922	10,922	-2,939	7,983	10,922	-2,939	7,983	7,983
Cyfanswm DEL	**281,172**	**261,641**	**0**	**261,641**	**233,291**	**0**	**233,291**	**233,291**
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	**281,172**	**261,641**	**0**	**261,641**	**233,291**	**0**	**233,291**	**233,291**

8. Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth

Crynodeb o'r Newidiadau i'r Gyllideb

8.1 O gymharu â'r cynlluniau dangosol ar gyfer 2012-13 a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Derfynol 2011-12 (fel y'u hailddatganwyd yn seiliedig ar y strwythur newydd yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2011-12), mae cyfanswm y dyraniad MEG ar gyfer Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (BETS) wedi cynyddu £1m yn 2012-13 a £1m yn 2013-14. Y cynllun dangosol ar gyfer 2014-15, a gyhoeddir am y tro cyntaf, yw £263.8m (yr un fath ag yn 2013-14).

8.2 Darperir y cyllid adnoddau ychwanegol ar gyfer:

- **Yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol** – Fel rhan o'r newidiadau i bortffolios y Gweinidogion, bydd y £1m o gyllid adnoddau a drosglwyddwyd yn 2011-12 i ddechrau yn troi'n rheolaidd.

8.3 Mân newidiadau yn unig sydd i gyllideb ddrafft BETS ar gyfer 2012-13 o gymharu â dyraniadau dangosol yr Adran yng Nghyllideb flaenorol Llywodraeth Cymru. Mae'r addasiadau hyn yn cynnig eglurder ar yr adnoddau a ddyrennir er mwyn cyflawni mewn meysydd penodol.

8.4 Mae'r Adran wedi symud y gyllideb adnoddau gwerth £2.7m ar gyfer cynlluniau arloesi o'r Maes Rhaglenni Gwariant 'Sectorau a Busnes' i'r Maes Rhaglenni Gwariant 'Hybu Arloesi'. Mae'r Adran hefyd wedi symud y gyllideb adnoddau gwerth £0.3m i gefnogi rhaglenni strategol o'r Maes Rhaglenni Gwariant 'Sectorau a Busnes' i'r Maes Rhaglenni Gwariant 'Rhaglenni Strategaeth a Chorfforaethol' er mwyn adlewyrchu natur ehangach y gefnogaeth hon ar gyfer gweithgareddau'r Adran.

Blaenoriaethau Strategol

8.5 Prif nod yr Adran yw cryfhau'r amodau a fydd yn galluogi busnesau i greu swyddi a thwf economaidd cynaliadwy. Ein swyddogaeth fel Llywodraeth Cymru fydd canolbwyntio ar wella'r amodau ar gyfer twf economaidd, drwy ymdrin â materion allweddol megis sgiliau a seilwaith. Fe welir effeithiau cadarnhaol hynny bob yn dipyn ac yn gynyddol yn y tymor hir; y prif ddylanwadau ar economi Cymru yn y tymor byr yw cyflwr yr economi fyd-eang a pholisi ariannol a chyllidol Llywodraeth y DU.

8.6 Mae'r Gweinidog Busnes, Menter, Gwyddoniaeth a Thechnoleg wrthi'n adolygu cynlluniau gwariant y portffolio ar hyn o bryd er mwyn sicrhau eu bod yn effeithlon ac yn effeithiol, eu bod yn canolbwyntio ar ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, a'u bod yn cwrdd ag anghenion busnesau Cymru. Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Gweinidog y detholiad cychwynnol o'r pum lleoliad sy'n cael eu ffafrio ar gyfer Ardaloedd Menter yng Nghymru. Ym mhob lleoliad, byddwn yn gweithredu ymyriadau polisi mewn modd detholus.

8.7 Mae'r cynigion yn y Gyllideb Ddrafft hon yn adlewyrchu cynlluniau gwariant cyfredol yr Adran, felly mae'n bosibl y gallant newid yn y tymor byr i'r tymor canolig.

8.8 Ceir cytundeb eang ynghylch y trywydd y dylai Cymru ei ddilyn, gan gynnwys cefnogaeth eang i'r polisi adfywio economaidd. Ein nod yw adeiladu ar hynny er mwyn gweithredu ein polisïau economaidd a'n polisïau ar addysg, sgiliau a chynllunio, a'u hintegreiddio ymhellach, ar draws holl adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru, a'r cyrff cyflawni eraill.

Y Rhaglen Lywodraethu

8.9 Mae'r dull Llywodraeth gyfan o ddarparu gwasanaethau yn ganolog i'r Rhaglen Lywodraethu newydd. Bydd yr Adran BETS yn arwain ar gyflawni 32 o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu newydd ac yn cyfrannu at 15 arall. Bydd ganddo gyfrifoldeb sylweddol am gyflawni'r Penodau yn y Rhaglen sy'n ymdrin â'r blaenoriaethau canlynol:

- creu'r amodau ar gyfer twf economaidd cynaliadwy a chreu swyddi;
- hyrwyddo economi a chymdeithas wledig gyfartal, fywiog ac amrywiol gan arwain at well ansawdd bywyd i bobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig.

8.10 Bydd BETS hefyd yn cyfrannu at ymrwymiadau allweddol ym Mhenodau eraill y Rhaglen gan gynnwys:

- creu gwasanaethau hygyrch a safonol sy'n canolbwyntio ar y dinesydd i bawb, nid dewis ar gyfer nifer fechan o bobl, gyda chymorth Cymru Ddigidol;
- y bwriad i sefydlu Uned Troseddu yn erbyn Busnesau Cymru i ymdrin â throseddu yn erbyn busnesau;
- darparu gwell sylfaen ar gyfer bywyd drwy leoedd, diwylliant, chwaraeon a chyfryngau bywiog a thrwy gefnogi digwyddiadau mawr.

Cyllid ar gyfer Rhaglenni Allweddol

Sectorau a Busnes

8.11 Byddwn yn buddsoddi £89.4m[13] yn 2012-13 i greu amgylchedd a fydd yn helpu i ddatblygu cwmnïau ffyniannus. Darperir cymorth wedi'i dargedu i sectorau/diwydiannau allweddol ac fe ddarperir amrywiaeth o weithgareddau i annog buddsoddi, entrepreneuriaeth ac arloesi.

8.12 Mae timau sectoraidd integredig, sy'n elwa ar arbenigedd allanol y Paneli Sector, yn darparu cymorth i fusnesau. Y sectorau allweddol a gyhoeddwyd yn 2010 yw:

[13] Mae'r ffigwr hwn yn cwmpasu'r Camau Gweithredu 'SIF Etifeddol' a 'Sectorau' (adnoddau a chyfalaf).

- deunyddiau uwch a gweithgynhyrchu;
- y diwydiannau creadigol;
- ynni a'r amgylchedd;
- gwasanaethau ariannol a phroffesiynol;
- technolegau gwybodaeth a chyfathrebu;
- gwyddorau bywyd.

8.13 Yn achos Deunyddiau Uwch a gweithgynhyrchu, bydd Trywydd Strategol lefel uchel, amser real ar gyfer y sector, wedi'i ategu gan gyfres o Gynlluniau Gweithredu manwl, yn ceisio adlewyrchu'r agwedd ddeinamig at ddatblygu strategaeth sy'n cael ei arddel gan y Fforwm Gweithgynhyrchu, a'i ategu gan Banel y Sector.

8.14 Ym mis Medi 2011, cyhoeddodd y Gweinidog BETS y byddai tri sector blaenoriaeth newydd yn cael ei creu. Bydd y rhain yn adeiladu ar y chwe sector presennol â blaenoriaeth yr ydym yn eu cefnogi er mwyn helpu busnesau o Gymru i dyfu a chreu'r swyddi sy'n angenrheidiol er mwyn datblygu ein heconomi yn y dyfodol:

- adeiladu;
- twristiaeth;
- bwyd a ffermio.

8.15 Byddwn yn darparu cefnogaeth gwerth £14.4m ar gyfer 'Entrepreneuriaeth a Gwybodaeth i Fusnesau', gan gynnwys entrepreneuriaeth ieuenctid, cymorth dechrau busnes i annog pobl i fynd yn hunangyflogedig a chreu busnesau newydd gyda photensial mawr ac arferion busnes cyfrifol.

8.16 Mae parhau i fuddsoddi yn flaenoriaeth o hyd a bydd Cyllid Cymru yn darparu buddsoddiadau ar gyfer busnesau yng Nghymru. Mae'r cymorth yn cynnwys cyllid craidd a chynnig cyfalaf i gefnogi cronfa JEREMIE, a fydd yn parhau i fuddsoddi yn ystod 2012-13.

8.17 Darperir £6.1m er mwyn annog busnesau i fuddsoddi mewn arolesedd a manteisio i'r eithaf ar y cysylltiadau gydag academia drwy'r rhaglenni Arloesi i Fusnes, A4B ac Ymchwil, Datblygu ac Arloesi. Mae'r rhaglenni hyn yn hwyluso'r broses o gyfnewid gwybodaeth rhwng busnesau ac academia ac yn annog masnacheiddio Eiddo Deallusol.

8.18 Bydd y Llywodraeth yn cydweddu £3m o fewn y Cam Gweithredu 'Cyllid Rhanbarthol' er mwyn cwrdd ag ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.

Twristiaeth a Marchnata

8.19 Bydd £18.1m o gyllid ar gyfer y camau gweithredu 'Twristiaeth' a 'Marchnata' yn canolbwyntio ar gynyddu'r galw gan ymwelwyr a throi ymholiadau yn ymweliadau, datblygu profiad yr ymwelydd a hwyluso'r ymgyrchoedd marchnata perthnasol. Er mwyn cynyddu'r swm y mae ymwelwyr yn ei wario bydd angen canolbwyntio ar ymwelwyr/marchnadoedd a fydd yn cynnig gwerth a niferoedd. Y flaenoriaeth ar gyfer Twristiaeth yw gweithio gyda phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i greu economi ymwelwyr cynaliadwy. Bydd gweinyddu'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth a chynllun graddio wedi'i gysoni y DU yn effeithiol yn helpu i wella ansawdd y cynnyrch ac yn cynyddu'r gystadleuaeth yn y sector twristiaeth. Y gweithgareddau marchnata allweddol fydd datblygu polisi brand Cymreig ac ymgyrchoedd strategol i hyrwyddo brand Cymreig.

Digwyddiadau Mawr

8.20 Bydd £3.9m ar gyfer 'Digwyddiadau Mawr' yn ategu'r gwaith gyda ffederasiynau chwaraeon cenedlaethol, ryngwladol ac ar lefel y DU i sicrhau bod mwy o ddigwyddiadau mawr yn cael eu cynnal yng Nghymru yn y dyfodol, gan sicrhau bod Cymru gyfan yn elwa ar yr uchelgais hon. Bydd y gyllideb hefyd yn cefnogi gwaith gyda Chyngor Dinas Caerdydd i ystyried dichonoldeb gwneud cais i gynnal Gemau'r Gymanwlad yn 2026.

Seilwaith

8.21 Byddwn yn dyrannu £31.1m (heb gynnwys y DEL adnoddau anghyllidol) i gefnogi 'Seilwaith sy'n Gysylltiedig ag Eiddo' a'r 'Seilwaith TGCh' a phrosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf Cymru. O ran y 'Seilwaith sy'n Gysylltiedig ag Eiddo', mae'r maes polisi Eiddo cyfredol yn ymdrin â rheoli'r portffolio eiddo presennol, rhaglen adfer tir a chynigion eiddo i fusnesau.

Materion Gwledig

8.22 Bydd y Llywodraeth yn darparu cymorth gwerth £90.6m (heb gynnwys y DEL adnoddau anghyllidol) ar gyfer busnesau a chymunedau gwledig er mwyn hyrwyddo cynaliadwyedd y diwydiannau ffermio, pysgodfeydd a bwyd-amaeth a'u cadwyni cyflenwi cysylltiedig mewn ffordd sy'n gwella cydlyniant economaidd-gymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y Gymru wledig a lles ei phobl. Mae gweithredu i gyflawni'r amcanion hyn yn golygu gweithio gyda sefydliadau allweddol eraill sy'n bartneriaid yn ogystal â gweinyddiaethau datganoledig eraill y DU a'r UE. Rhoddir cefnogaeth i bob agwedd ar y polisi a'r strategaeth Pysgodfeydd, y ddeddfwriaeth, rheoli pysgodfeydd, gorfodi a gweinyddu Cronfa Pysgodfeydd Ewrop, yn ogystal â datblygu a marchnata diwydiant bwyd a diod Cymru.

Rhaglenni Strategaeth a Chorfforaethol

8.23 Mae £5.3m yn cefnogi'r Rhaglen Her Iechyd, ad-daliadau'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol, marchnata corfforaethol a gweithgarwch cefnogi'r farchnad. Mae'r llinell hon yn y gyllideb hefyd yn cefnogi'r dadansoddiad economaidd sy'n sail i lawer o'r penderfyniadau gwariant.

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)

8.24 Bydd WEFO yn parhau i reoli, monitro ac adrodd ar y modd y gweithredir rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru ac yn helpu i sicrhau bod rhaglenni a phrosiectau Cronfeydd Strwythurol yr UE yn cyd-fynd â pholisïau Llywodraeth Cymru a pholisïau a strategaethau yr UE.

Gwyddoniaeth

8.25 Mae Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru wrthi'n datblygu strategaeth newydd ar gyfer Cymru ar hyn o bryd. Bydd hon yn llywio datblygiad rhaglen yr Academi Wyddoniaeth Genedlaethol a drosglwyddwyd i BETS.

Asesiadau Effaith

8.26 Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb pan osodwyd y dyraniadau dangosol yn y Gyllideb Derfynol fis Chwefror 2011 ac mae hynny'n parhau i fod yn berthnasol gan mai mân newidiadau yn unig a wnaed ar gyfer y Gyllideb Ddrafft hon. Ar hyn o bryd mae BETS yn canolbwyntio'r gwaith ar asesu'r effaith ar gydraddoldeb ar y cam cynllunio a gweithredu ar draws gwahanol feysydd yr Adran. Bydd pob asesiad yn cynnwys cynllun gweithredu a fydd yn nodi sut y bydd yr Adran yn ymdrin â'r meysydd lle ceir effaith anghymesur ar draws ei holl waith.

8.27 O ran datblygu cynaliadwy, mae'r Adran yn cymryd camau i hybu economi carbon isel sy'n defnyddio adnoddau'n effeithiol gydag ychydig o wastraff, gan gydweithio'n agos â busnesau, cydweithio â phartneriaid allweddol a pharatoi strategaethau sectoraidd fel dull wedi'i dargedu o sicrhau canlyniadau.

8.28 Mae'r Adran yn defnyddio Creu Datblygu Cynaliadwy gyda'n Gilydd a'r Erfyn Integreiddio Datblygu Cynaliadwy sy'n ei ategu. Nod hyn yw sicrhau o'r cychwyn cyntaf bod amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn ymwreiddio ym mhob gweithgaredd, rhaglen, proses cynllunio busnes a phrosiect er mwyn ymdrin â'r Strategaeth Economaidd a'r holl bolisïau, strategaethau a gofynion eraill.

8.29 Mae'r Adran hefyd yn gweithio i sicrhau bod band eang ar gael yn ehangach, sicrhau bod asedau eiddo mewn sefyllfa i allu sicrhau canlyniadau cynaliadwy, a sefydlu arferion caffael cynaliadwy er mwyn sicrhau bod cymunedau'n gallu elwa cymaint â phosibl ar ein gwaith.

Tabl 8.1 – Dyraniadau Adnoddau Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth

DEL	£000oedd							
	2011-12	2012-13			2013-14			2014-15
	Llinell sylfaen	Cynlluniau Dangosol Cyllideb Atodol Mehefin 2011	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Dangosol Cyllideb Atodol Mehefin 2011	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Dangosol
Sectorau a Busnes	48,871	46,768	-2,942	43,826	46,798	-2,942	43,856	43,856
Hybu Arloesi	3,162	2,129	3,656	5,785	2,144	3,656	5,800	5,800
Cyllid Rhanbarthol	2,005	2,005	-	2,005	2,005	-	2,005	2,005
Cyllid Cymru	5,102	4,802	-	4,802	4,102	-	4,102	4,102
Digwyddiadau Mawr	3,930	3,870	-	3,870	3,897	-	3,897	3,897
Marchnata	2,840	2,796	-	2,796	2,815	-	2,815	2,815
Seilwaith	21,470	22,415	-	22,415	23,571	-	23,571	23,571
Rhaglenni Strategaeth a Chorfforaethol	4,677	4,594	286	4,880	4,632	286	4,918	4,918
WEFO	1,522	1,522	-	1,522	1,522	-	1,522	1,522
Materion Gwledig	79,320	78,246	-	78,246	79,316	-	79,316	79,316
Twristiaeth	12,747	12,723	-	12,723	12,626	-	12,626	12,626
Cyfanswm DEL	**185,646**	**181,870**	**1,000**	**182,870**	**183,428**	**1,000**	**184,428**	**184,428**
AME								
Seilwaith	41,402	41,402	-	41,402	41,402	-	41,402	41,402
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	**227,048**	**223,272**	**1,000**	**224,272**	**224,830**	**1,000**	**225,830**	**225,830**

Tabl 8.2 – Dyraniadau Cyfalaf Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth

DEL	£000oedd							
	2011-12	2012-13			2013-14			2014-15
	Llinell sylfaen	Cynlluniau Dangosol Cyllideb Atodol Mehefin 2011	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Dangosol Cyllideb Atodol Mehefin 2011	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Dangosol
Sectorau a Busnes	69,129	59,992	-	59,992	43,711	-	43,711	43,711
Hybu Arloesi	433	357	-	357	300	-	300	300
Cyllid Rhanbarthol	995	995	-	995	995	-	995	995
Cyllid Cymru	1,500	1,500	-	1,500	1,500	-	1,500	1,500
Seilwaith	6,291	10,031	-	10,031	18,456	-	18,456	18,456
Rhaglenni Strategaeth a Chorfforaethol	449	417	-	417	372	-	372	372
Materion Gwledig	13,001	12,569	-	12,569	11,723	-	11,723	11,723
Twristiaeth	2,790	2,595	-	2,595	2,313	-	2,313	2,313
Cyfanswm DEL	**94,588**	**88,456**	**0**	**88,456**	**79,370**	**0**	**79,370**	**79,370**
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	**94,588**	**88,456**	**0**	**88,456**	**79,370**	**0**	**79,370**	**79,370**

9. Addysg a Sgiliau

Crynodeb o'r Newidiadau i'r Gyllideb

9.1 O gymharu â'r cynlluniau dangosol ar gyfer 2012-13 a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Derfynol 2011-12 (fel y'u hailddatganwyd yn seiliedig ar y strwythur newydd yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2011-12), mae cyfanswm y dyraniad MEG ar gyfer Addysg a Sgiliau wedi cynyddu £20.6m yn 2012-13 a £27.2m yn 2013-14. Y cynllun dangosol ar gyfer 2014-15, a gyhoeddir am y tro cyntaf, yw £1.826bn (£7.6m yn fwy nag yn 2013-14).

9.2 Mae'r cyllid adnoddau atodol yn gysylltiedig â'r rhaglenni gwariant canlynol:

- **Twf Swyddi Cymru** – Rydym wedi ymrwymo £25m yn ychwanegol bob blwyddyn i gefnogi'r broses o gyflwyno cynllun Twf Swyddi Cymru. Caiff yr ymrwymiad hwn ei ariannu drwy'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru a bydd yn helpu i greu 4,000 o swyddi ar gyfer pobl ifanc 16 i 24 oed yn y flwyddyn gyntaf;

- **Cynyddu'r Cyllid ar gyfer Ysgolion** – Rydym wedi dyrannu £4.6m yn ychwanegol yn 2014-15 ar gyfer y cyllidebau Addysg a Sgiliau, sy'n ychwanegol at y £22.4m a ddyrannwyd i'r MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau;

- **Adapt** – Rydym wedi dyrannu £5m yn ychwanegol ym mhob blwyddyn er mwyn parhau â rhaglen Adapt sy'n helpu gweithwyr y sector cyhoeddus sy'n colli eu gwaith i ddychwelyd i'r gwaith neu ddechrau eu busnesau eu hunain;

- **Buddion Cyffredinol** – Rydym wedi dyrannu £135k yn ychwanegol yn 2014-15 ar gyfer Brecwastau am Ddim mewn Ysgolion Cynradd a Llaeth Ysgol i blant o dan saith oed;

- **Cyllid Myfyrwyr** - O'r flwyddyn academaidd 2012-13 ymlaen bydd myfyrwyr Addysg Uwch rhan-amser yn gallu derbyn Benthyciadau Myfyrwyr, ac adlewyrchir costau hyn yn y cynnydd dros y tair blynedd ddilynol o £4.3m, £10.9m a £13.8m, yn y drefn honno.

9.3 Mae strwythur y MEG Addysg a Sgiliau wedi'i ddiwygio fel rhan o'r gyllideb hon er mwyn cydweddu'r cyllidebau â'r cynllun busnes Adrannol a chynnig gwybodaeth ariannol fwy ystyrlon. Mae Atodiad B yn cysoni'r strwythurau diwygiedig â'r strwythurau blaenorol.

9.4 Fel rhan o'r newidiadau i bortffolios y Gweinidogion, bydd y trosglwyddiad o £1m i gefnogi'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol, a wnaed i ddechrau yn 2011-12 yn troi'n rheolaidd; gwneir y trosglwyddiad hwn i'r MEG Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth. Yn ogystal, gwnaed trosglwyddiad rheolaidd o £210k i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu mewn perthynas â throsglwyddo'r cyfrifoldeb am Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.

9.5 Yn unol â ffocws Llywodraeth Cymru ar godi safonau addysgol, ym meysydd llythrennedd a rhifedd yn benodol, rydym yn trosglwyddo cyllid yn 2011-12 i greu cyllideb benodol ar gyfer 'Llythrennedd a Rhifedd'. Mae'r newidiadau hyn hefyd wedi golygu y gellir cyfeirio £7m o gyllid ar gyfer 'Lythrennedd a Rhifedd' i Ysgolion drwy'r Grant Effeithlonrwydd Ysgolion. Yn ogystal, rydym wedi trosglwyddo £1.1m i'r gyllideb 'Cyflogadwyedd y Gweithlu'. Trosglwyddir £2.2m o'r gyllideb 'Cyfleoedd Mynediad' i'r gyllideb 'Llythrennedd a Rhifedd' yn dilyn y newidiadau diweddar i bortffolios y Gweinidogion. Caiff y rhain eu hadlewyrchu yn y Gyllideb Atodol nesaf ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn y waelodlin a gyhoeddwyd ar gyfer cyllideb 2011-12.

9.6 Mae cyllid wedi cael ei ailflaenoriaethu o fewn y cyllidebau Addysg a Sgiliau, gyda'r ffocws ar wasanaethau rheng flaen. Canfuwyd arbedion pellach gwerth £3.4m ar gyfer y gyllideb Dysgu 14-19 yn 2012-13, a gaiff eu cyflawni'n rhannol drwy symud i weithio'n rhanbarthol. Ni fyddant yn effeithio ar y broses o weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru).Ceir gostyngiad o £5m yn y gyllideb ddangosol ar gyfer y gwasanaethau gyrfaoedd o 2013-14 ymlaen, sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau i adolygu cwmpas a darpariaeth y gwasanaeth.

Blaenoriaethau Strategol

9.7 Y brif egwyddor sy'n sail i weithgarwch yr Adran, a adlewyrchir yn y Rhaglen Lywodraethu, yw bod addysg yn hanfodol er mwyn helpu pobl i gyflawni eu potensial, cael boddhad personol, a chreu cymdeithas gyfiawn, gynhwysol a theg. Drwy weithio i gyflawni'r amcan hwn, bydd y rhaglen a'r prosiectau y mae cyllideb 2012-13 yn eu hariannu, fel y Gronfa Twf Swyddi a'r cynlluniau rhifedd cenedlaethol, yn helpu i gyfrannu at amcanion trawsbynciol ehangach Llywodraeth Cymru. Caiff amcanion fel sicrhau bod pobl yn byw bywydau cynhyrchiol mewn cymunedau bywiog a chynhwysol eu gwireddu yn rhannol gan ein pwyslais ar lythrennedd, rhifedd a lleihau'r bwlch ar draws yr ystod oedran. Bydd ein cefnogaeth barhaus i unigolion a busnesau ym maes sgiliau, drwy raglenni megis ReAct, Adapt a Llwybrau at Brentisiaethau, yn cyfrannu at nod ehangach Llywodraeth Cymru o greu economi gydnerth.

9.8 Mae'r cyllidebau ar gyfer Addysg a Sgiliau wedi'u hailstrwythuro er mwyn cydweddu pob Maes Rhaglenni Gwariant, a chyllideb lefel camau gweithredu, gyda'r blaenoriaethau strategol allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu.

9.9 Y flaenoriaeth gyntaf o'r fath yw **codi safonau'r ddarpariaeth, y cyrhaeddiad a'r seilwaith addysg a hyfforddiant** ledled Cymru. Yn benodol, mae yna bwyslais ar wella llythrennedd a rhifedd, a gostwng yr amrywiadau yn y ddarpariaeth – ar lefel awdurdodau lleol, ysgolion ac athrawon unigol. Fel prawf o arwyddocâd hyn, bydd cynnydd o £7.6m yn y cyllidebau ar gyfer y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion yn 2012-13 o gymharu â lefel grant 2011-12, gyda chynnydd pellach o tua £10m dros y ddwy flynedd ddilynol hyd 2014-15. Cyflawnwyd hynny drwy gynnal adolygiad sylfaenol o gyllidebau'r Adran er mwyn gallu rhoi mwy o bwyslais ar wasanaethau rheng flaen. Mae hyn yn ychwanegol at y cyllid atodol oedd yn yr arfaeth dros y cyfnod. Yn yr un modd,

bydd y cyllid ar gyfer llythrennedd a rhifedd hefyd yn cynyddu, gyda chynnydd o £4m erbyn 2014-15 o gymharu â'r gwariant arfaethedig yn 2011-12.

9.10 Mae hefyd yn hanfodol ein bod yn meithrin y gallu i gyflawni drwy wella ansawdd a chysondeb y ddarpariaeth a'r arweiniad yn ein hysgolion. Bydd yr Adran yn cyflwyno safonau proffesiynol newydd, gofynion llymach ar gyfer hyfforddiant athrawon ym meysydd llythrennedd a rhifedd, a Chymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol newydd ar gyfer Prifathrawiaeth. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu a chyflwyno cymhwyster Addysgu a Dysgu ar lefel Meistr, yn ogystal â diwygio'r rheoliadau rheoli perfformiad fel bod Datblygiad Proffesiynol Parhaus yn canolbwyntio ar flaenoriaethau'r ysgol a'r ardal leol. Bydd y cyllid ar gyfer y newidiadau hyn yn dod o'r cyllidebau cyfredol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth, a fydd yn newid eu ffocws.

9.11 Mae'n hanfodol cryfhau atebolrwydd er mwyn monitro a herio safonau uwch. Bydd yr Uned Safonau Ysgolion yn parhau i ysgogi gwelliannau i'r system gyfan ac yn hyrwyddo'r meysydd effeithlonrwydd a nodir yn yr Adroddiad ar Strwythur y Gwasanaethau Addysg yng Nghymru. Drwy ddatblygu Consortia Rhanbarthol byddwn yn symud i gyfeiriad gwasanaethau gwella ysgolion cryfach a mwy effeithiol.

9.12 Mae'r gyllideb ar gyfer y blynyddoedd nesaf yn darparu y bydd y cyllid ar gyfer addysg ôl-16 yn cynyddu £16m erbyn 2014-15 o gymharu â lefelau 2011-12. Ar y cyd â hyn, bydd yn ofynnol dangos y cynigir gwerth i ddysgwyr drwy welliannau yn ansawdd a phrofiad y ddarpariaeth addysg ôl-16 drwy ddiwygio'r dulliau llywodraethu a'r cyllid strategol. Yn yr un modd, byddwch yn disgwyl gweld gwelliannau i ansawdd y ddarpariaeth Addysg Uwch a phrofiad dysgwyr, drwy drawsnewid y sector i greu llai o brifysgolion cryfach sy'n cael eu llywodraethu'n gadarnach a chyda mwy o bwyslais ar gefnogi ein hagenda **Er Mwyn ein Dyfodol**.

9.13 Drwy gydweithio a'n rhaglen drawsnewid byddwn yn parhau i geisio sicrhau bod y strwythurau addysg ar bob lefel yn effeithlon ac yn effeithiol ac yn cynnig gwasanaeth ymatebol, gyda chymorth system ariannu deg a chadarn sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Mae hyn yn cynnwys TGCh, lle byddwn yn datblygu ein cynlluniau ar gyfer Rhith-amgylchedd Dysgu Cymru Gyfan.

9.14 Ein hail flaenoriaeth yw **darparu gweithlu sydd â'r sgiliau priodol gyda chyfleoedd o ansawdd uchel i bob dysgwr**. Bydd £25m o gyllid ychwanegol, a ariennir drwy Lywodraeth Cymru a'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, yn sicrhau y gellir gweithredu Twf Swyddi Cymru. Drwy'r rhaglen hon, a recriwtio mwy o bobl ifanc i fod yn brentisiaid, byddwn yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i ymgysylltu â phobl ifanc a gwella eu cyflogadwyedd. Drwy ailflaenoriaethu'r cyllidebau cyfredol bydd rhaglen Sgiliau Twf Cymru yn ymestyn hyd 2015. Effaith y buddsoddiad hwn fydd creu swyddi atodol, cynaliadwy ar gyfer pobl ifanc ac oedolion drwy fuddsoddi yn sgiliau cyflogwyr ym maes y gweithlu a rheoli, gan geisio creu cyfleoedd i sefydlu busnesau, eu hybu ac ymateb iddynt. Byddwn yn ceisio ymateb yn well i'r blaenoriaethau ar gyfer sgiliau drwy raglenni megis ReAct ac Adapt a fydd yn gwella

cyflogadwyedd y gweithlu. Elfen ganolog o hyn yw y bydd y £5m o gyllid atodol a ddarparwyd yn ystod 2011-12 yn parhau.

9.15 Er mwyn cynnig gwybodaeth am y llwybrau a'r cyfleoedd gorau ar gyfer addysg, sgiliau a gwaith, byddwn yn parhau i weithredu cynllun ar y ffordd ymlaen gyda chylch gorchwyl a strwythur Gyrfa Cymru i'r dyfodol.

9.16 Y drydedd flaenoriaeth yw helpu unigolion, teuluoedd, cymunedau a busnesau i **wella lles economaidd a chymdeithasol a lleihau anghydraddoldeb drwy addysg a hyfforddiant**. Mae tlodi yn parhau i rwystro gormod o bobl rhag cyflawni eu potensial addysgol. Mae addysg a hyfforddiant yn chwarae rhan hanfodol bwysig wrth hyrwyddo cymdeithas deg, gyfiawn a chynhwysol. Er mwyn cefnogi unigolion a theuluoedd ein nod yw cael gwared ar y rhwystrau i addysg ôl-16 a chynnal y cymorth ariannol i fyfyrwyr o gartrefi incwm isel ar yr un lefel.

9.17 Mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc yn cael y gefnogaeth y mae arnynt ei angen er mwyn manteisio ar ystod lawn o gyfleoedd dysgu a chyflogaeth. Yr hyn sy'n allweddol er mwyn i blant gyflawni eu potensial i'r eithaf yw'r egwyddor bod plant yn ddiogel, gyda gwell iechyd corfforol a meddyliol, sy'n parhau i gael ei gefnogi gan bolisïau megis brecwastau am ddim mewn ysgolion cynradd a llaeth am ddim i blant o dan saith oed. Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn cynnwys cynlluniau i gynyddu'r cyllid dros £4m dros y tair blynedd nesaf o gymharu â lefelau 2011-12. Yn yr un modd, bwriedir darparu £1m yn ychwanegol dros yr un cyfnod ar gyfer grantiau i gefnogi addysg Plant Teithwyr, a Chyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig.

9.18 Ein pedwaredd flaenoriaeth yw **gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru**. Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i Gymru ddwyieithog ffyniannus lle caiff ei phobl y cyfle i ddefnyddio eu dewis iaith ym myd addysg, yn y gwaith ac yn y gymuned ehangach.

9.19 Bydd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cyflwyno newidiadau sylweddol, sef creu Comisiynydd y Gymraeg, Tribiwnlys y Gymraeg, trefn newydd o Safonau'r Gymraeg a hawliau newydd i bobl Cymru.

9.20 Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi Strategaeth Iaith Gymraeg newydd, a bydd hon yn cynnig y fframwaith polisi ar gyfer penderfyniadau ar amrywiaeth o ymyriadau yn y dyfodol, gyda chymorth grantiau a phrosiectau.

9.21 Bydd cyfanswm o £26.4m y flwyddyn ar gael i gefnogi Dysgu'r Gymraeg a sefydlu Comisiynydd y Gymraeg o 1 Ebrill 2012 ymlaen.

9.22 Mae yna ymrwymiad clir i flaenoriaethau strategol allweddol a, chan ein bod yn benderfynol o ganolbwyntio'r cyllid ar wasanaethau rheng flaen, byddwn yn cymryd cam pellach drwy ryddhau £2m o **Gymorth Cyflawni** er mwyn gwella rhifedd, llythrennedd a lliniaru effaith tlodi ac anfantais ar gyflawniad addysgol.

9.23 Mae'r **cyllidebau cyfalaf** yn gyfyngedig o hyd, gyda gostyngiadau o gymharu â lefelau 2011-12 yn unol â'r cynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol. Byddwn yn

parhau i ganolbwyntio ar gwrdd â'n hymrwymiadau presennol i gwblhau'r holl brosiectau cyfalaf trosiannol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i wireddu'r rhaglen Ysgolion ar gyfer y 21ain Ganrif a fydd yn cynnig amgylcheddau dysgu sy'n addas ar gyfer y 21st ganrif i blant a phobl ifanc Cymru. Er mwyn sicrhau bod y system addysg yn gynaliadwy a'n bod yn defnyddio ein hadnoddau'n well ac yn fwy effeithiol, byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â'n partneriaid o fewn Llywodraeth Leol, Cyfarwyddwyr Esgobaethol y sector Gwirfoddol a Gynorthwyir a Cholegau Cymru.

Asesiadau Effaith

9.24 Wrth benderfynu ar ddyraniadau'r gyllideb, rhoddwyd ystyriaeth ofalus i effaith y newidiadau ar gydraddoldeb. Mae gan yr Adran Gynllun Gweithredu Cydraddoldebau Sengl a gaiff ei fonitro'n rheolaidd er mwyn cynnig sicrwydd bod ei pholisïau a'i rhaglenni yn ymdrin ag anghydraddoldeb.

9.25 Mae effaith y newidiadau cyllido sy'n codi o'r Gyllideb hon wedi'u hasesu, o ran eu heffaith ar sefydliadau, dysgwyr a chanlyniadau dysgu. Mae'r Adran wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol. Dangosir hyn drwy ein cynlluniau i wella sgiliau er mwyn creu mwy o gyfleoedd cyflogaeth, i bobl ifanc yn arbennig; darparu cefnogaeth sy'n galluogi cyfranogiad mewn Addysg Bellach ac Addysg Uwch; a gwella safonau er mwyn sicrhau y gall pawb gyflawni eu potensial. Lle bu'n rhaid cyflwyno gostyngiadau, mae'r rhain wedi'u targedu er mwyn sicrhau bod cyfran uwch o'r cyllid yn cyrraedd gwasanaethau rheng flaen. Maent yn adlewyrchu'r angen i wireddu ein haddewidion i ddysgwyr a hefyd weithio'n fwy effeithlon a chydweithio.

9.26 Mae'r Gyllideb Ddrafft yn adlewyrchu ein hymrwymiad i weithredu'r blaenoriaethau ar gyfer Addysg a Sgiliau a gyflwynwyd yn y Rhaglen Lywodraethu; cyflawni ein cynlluniau i wella safonau ysgolion a chanlyniadau i ddysgwyr; a'n hymrwymiad i weithredu argymhellion yr Adroddiad ar Strwythur Addysg yng Nghymru.

Tabl 9.1 – Dyraniadau Adnoddau Addysg a Sgiliau

DEL	£000oedd							
	2011-12	2012-13			2013-14			2014-15
	Llinell sylfaen	Cynlluniau Dangosol Cyllideb Atodol Mehefin 2011	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Dangosol Cyllideb Atodol Mehefin 2011	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Dangosol
Safonau Addysg a Hyfforddiant	1,137,490	1,142,317	3,159	1,145,476	1,158,560	8,159	1,166,719	1,171,319
Gweithlu Medrus	70,385	64,839	17,600	82,439	64,439	12,600	77,039	77,039
Lles Economaidd a Chymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldeb	390,758	388,931	1,831	390,762	393,174	8,431	401,605	404,640
Yr Iaith Gymraeg	26,255	26,355	-	26,355	26,455	-	26,455	26,455
Cymorth Cyflawni	5,313	5,148	-2,000	3,148	5,006	-2000	3,006	3,006
Cyfanswm DEL	**1,630,201**	**1,627,590**	**20,590**	**1,648,180**	**1,647,634**	**27,190**	**1,674,824**	**1,682,459**
AME								
Lles Economaidd a Chymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldeb	-115,649	-132,021	32,128	-99,893	-150,601	42,146	-108,455	-125,974
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	**1,514,552**	**1,495,569**	**52,718**	**1,548,287**	**1,497,033**	**69,336**	**1,566,369**	**1,556,485**

Tabl 9.2 – Dyraniadau Cyfalaf Addysg a Sgiliau

DEL	£000oedd							
	2011-12	2012-13			2013-14			2014-15
	Llinell sylfaen	Cynlluniau Dangosol Cyllideb Atodol Mehefin 2011		Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Dangosol Cyllideb Atodol Mehefin 2011	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Dangosol
Safonau Addysg a Hyfforddiant	169,923	161,243	-	161,243	143,734	-	143,734	143,734
Yr Iaith Gymraeg	50	100	-	100	100	-	100	100
Cyfanswm DEL	**169,973**	**161,343**	**0**	**161,343**	**143,834**	**0**	**143,834**	**143,834**
AME								
Lles Economaidd a Chymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldeb	240,951	254,333	-3,915	250,418	262,610	7,130	269,740	279,284
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	**410,924**	**415,676**	**-3,915**	**411,761**	**406,444**	**7,130**	**413,574**	**423,118**

10. Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

Crynodeb o'r Newidiadau i'r Gyllideb

10.1 O gymharu â chynlluniau dangosol ar gyfer 2012-13 a gyhoeddwyd yng Nghyllideb derfynol 2011-12 (fel y'u hailddatganwyd yn seiliedig ar y strwythur newydd yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2011-12), mae cyfanswm y dyraniad MEG ar gyfer yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy wedi cynyddu £17.5m yn 2012-13 a £17.7m yn 2013-14. Y cynllun dangosol ar gyfer 2014-15, a gyhoeddir am y tro cyntaf, yw £323.4m (£3.4m yn fwy nag yn 2013-14).

10.2 Mae'r cyllid adnoddau ychwanegol yn gysylltiedig â'r rhaglenni gwariant canlynol:

- **Rheoli Gwastraff** – Rydym wedi dyrannu £0.5m ychwanegol yn 2012-13 sy'n codi i £5.6m yn 2014-15 i gefnogi'r broses o drin gwastraff bwyd trefol. Bydd hyn yn parhau â'r cynnydd a wnaed i ddargyfeirio gwastraff bioddiraddiadwy o safleoedd tirlenwi, yn unol â'r strategaeth wastraff ac i fodloni ein rhwymedigaethau i'r Undeb Ewropeaidd;

- **Iechyd Anifeiliaid** - Rydym wedi dyrannu £17.2m ychwanegol yn 2012-13, £16.6m yn 2013-14 a £15.8m yn 2014-15. Mae hyn yn gysylltiedig â'r trosglwyddiadau o DEFRA i ariannu gweithgareddau'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a'r Labordai Milfeddygol yng Nghymru, sef y brif asiantaeth gyflenwi ar gyfer rhoi polisi iechyd a lles anifeiliaid Llywodraeth Cymru ar waith.

10.3 Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol eraill i'r gyllideb o'i chymharu â Chyllideb Derfynol y llynedd. Gwnaed newidiadau sylweddol i'r dyraniadau bryd hynny yn seiliedig ar setliad y DU, a bydd cyllidebau unigol yn parhau ar y lefelau hynny hyd at 2014-15. Bydd ein hymyriadau'n parhau i ganolbwyntio ar ddiogelu'r rheini mewn cymdeithas sydd fwyaf agored i niwed, hyrwyddo datblygu cynaliadwy, a sicrhau ein bod yn bodloni ein rhwymedigaethau rhyngwladol.

Blaenoriaethau Strategol

Y Rhaglen Lywodraethu

10.4 Nod Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yw gwneud y defnydd gorau posibl o'n hadnoddau fel cenedl, er budd ehangach y cyhoedd, er mwyn bod yn genedl "un blaned". Mae hyn yn rhoi datblygu cynaliadwy wrth wraidd y Llywodraeth fel ei phrif egwyddor drefniadol. Bydd y cynlluniau a amlinellir gennym yn y gyllideb ddrafft yn cefnogi hyn trwy fesurau i sicrhau ein bod yn defnyddio adnoddau, gan gynnwys ynni, yn fwy effeithlon; trwy wella ac integreiddio ein dull o reoli a rheoleiddio ein defnydd o dir, môr, awyr a dŵr; a thrwy weithio gydag eraill i gyflawni ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol y Llywodraeth.

10.5 Mae gan yr Adran hon gylch gwaith eang. Mae'n arwain ar ran Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r ymrwymiadau trosfwaol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Trwy ei rhaglenni buddsoddi a'i chyfrifoldebau cynllunio, mae'n cyfrannu at gynnal economi gref; cymdeithas iach a mwy cyfartal; amgylchedd amrywiol a chadarn; ac i ddatblygu Cymru fel cymdeithas carbon isel, gwastraff isel, sy'n defnyddio ynni'n effeithlon. Mae'r Adran yn arwain ar lunio polisïau a rheoliadau mewn perthynas â dŵr, gwastraff, ynni ac effeithlonrwydd ynni, iechyd anifeiliaid a phlanhigion, bioamrywiaeth a mynediad i gefn gwlad, cynllunio morol, cynllunio defnydd tir, tystiolaeth amgylcheddol, rheoli llygredd, ac ansawdd yr amgylchedd lleol. Mae'n noddi Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru.

10.6 Bydd y cynlluniau gwario a gyhoeddwyd y llynedd yn cael eu cyflwyno o 2013-14 i 2014-15, ac eithrio'r 2 prif ychwanegiad i'r gyllideb. Gyda'r gostyngiad cyffredinol yn ein cyllidebau, byddwn yn parhau i gyflenwi ein blaenoriaethau fel y'u nodir yn y Rhaglen Lywodraethu.

Asesiadau Effaith

10.7 Y llynedd, aethpwyd ati i ystyried yn ofalus effaith unrhyw newidiadau ar gydraddoldeb. Am fod y gyllideb hon yn adlewyrchu'r penderfyniad i beidio â newid unrhyw gyllideb yn sylweddol, ni fydd unrhyw effaith ychwanegol ar faterion cydraddoldeb.

Tabl 10.1 – Dyraniadau Adnoddau yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

DEL	£000oedd							
	2011-12	2012-13			2013-14			2014-15
	Llinell sylfaen	Cynlluniau Dangosol Cyllideb Atodol Mehefin 2011	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Dangosol Cyllideb Atodol Mehefin 2011	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Dangosol
Y Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd	117,485	115,475	410	115,885	119,908	1,210	121,118	125,418
Yr Amgylchedd	80,768	81,017	-130	80,887	77,778	-130	77,648	77,648
Cynllunio	7,772	7,403	-	7,403	7,090	-	7,090	7,090
Gwarchod a Gwella Iechyd a Lles Anifeiliaid	41,038	22,260	17,194	39,454	22,260	16,635	38,895	38,041
Y Sylfaen Dystiolaeth	404	354	-	354	304	-	304	304
Coedwigaeth	21,600	21,200	-	21,200	20,700	-	20,700	20,700
Cyfanswm DEL	**269,067**	**247,709**	**17,474**	**265,183**	**248,040**	**17,715**	**265,755**	**269,201**
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	**269,067**	**247,709**	**17,474**	**265,183**	**248,040**	**17,715**	**265,755**	**269,201**

Tabl 10.2 – Dyraniadau Cyfalaf yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

DEL	£000oedd							
	2011-12	2012-13			2013-14			2014-15
	Llinell sylfaen	Cynlluniau Dangosol Cyllideb Atodol Mehefin 2011	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Dangosol Cyllideb Atodol Mehefin 2011	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Dangosol
Y Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd	56,209	57,196	-	57,196	50,555	-	50,555	50,555
Yr Amgylchedd	4,600	4,600	-	4,600	3,850	-	3,850	3,850
Y Sylfaen Dystiolaeth	38	38	-	38	38	-	38	38
Coedwigaeth	-205	-205	-	-205	-205	-	-205	-205
Cyfanswm DEL	**60,642**	**61,629**	**0**	**61,629**	**54,238**	**0**	**54,238**	**54,238**
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	**60,642**	**61,629**	**0**	**61,629**	**54,238**	**0**	**54,238**	**54,238**

11. Tai, Adfywio a Threftadaeth

Crynodeb o'r Newidiadau i'r Gyllideb

11.1 O gymharu â chynlluniau dangosol ar gyfer 2012-13 a gyhoeddwyd yng Nghyllideb derfynol 2011-12 (fel y'u hailddatganwyd yn seiliedig ar y strwythur newydd yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2011-12), mae cyfanswm y dyraniad MEG ar gyfer Tai, Adfywio a Threftadaeth wedi cynyddu £0.4m yn 2012-13 a £0.6m yn 2013-14. Y cynllun dangosol ar gyfer 2014-15, a gyhoeddir am y tro cyntaf, yw £542.2m (£46,000 yn fwy nag yn 2013-14).

11.2 Mae'r cyllid adnoddau ychwanegol yn gysylltiedig â'r rhaglen wariant ganlynol:

- **Cadw** – Yn sgil y trosglwyddiad yng Nghyllideb Derfynol 2011-12 o'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, rydym wedi dyrannu £0.4m ychwanegol yn 2012-13 sy'n codi i £0.6m yn 2014-15 mewn perthynas â chostau rhedeg Cadw. Dyrennir yr arian ychwanegol i Cadw i gydnabod ei rôl mewn darparu gwasanaethau rheng flaen sy'n fuddiol o safbwynt ehangach twristiaeth, addysg a datblygu cynaliadwy.

11.3 Er mwyn cefnogi'r ymrwymiadau presennol mewn perthynas ag Awdurdod Harbwr Bae Caerdydd, mae cyllid gwerth £0.3m yn 2012-13 a £0.1m yn 2013-14 wedi'i drosglwyddo o'r Cam Gweithredu Ardaloedd Adfywio Strategol i'r Cam Gweithedu Rheoli a Chyflenwi Ardaloedd Adfywio Etifeddol. Felly mae'r gyllideb hon wedi'i chyflwyno'n wastad hyd at 2014-15.

Blaenoriaethau Strategol

Y Rhaglen Lywodraethu

11.4 Mae gan yr Adran hon gylch gwaith eang. Mae'n gyfrifol am ddatblygu a chyflenwi polisïau mewn perthynas â thai, adfywio, y celfyddydau, diwylliant, chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol, amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd, a'r amgylchedd hanesyddol.

11.5 Mae gan yr Adran nifer o amcanion allweddol sydd wedi'u hadlewyrchu ar draws y Rhaglen Lywodraethu, ac mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn dangos sut byddwn yn eu cyflawni yn 2012-13 a thu hwnt. Byddwn yn sicrhau bod gan bobl gartrefi cynnes a diogel o ansawdd uchel i fyw ynddynt. Mae effaith ein camau yn y maes hwn yn debygol o ddwyn ffrwyth yn y tymor hwy wrth inni newid y ddeddfwriaeth gynllunio ac ehangu ein stoc o dai cymdeithasol. Yn y tymor byr, fodd bynnag, bydd ffactorau economaidd fel polisi cyllidol ac ariannol y DU yn effeithio'n sylweddol ar ein llwyddiant cyffredinol.

11.6 Byddwn yn parhau i adfywio aneddiadau a chymunedau allweddol ac i adfer ein trefi glan y môr. Byddwn hefyd yn cefnogi diwylliant a threftadaeth Cymru er mwyn cynnig sylfaen well ar gyfer bywyd trwy ddarparu lleoedd, diwylliant, chwaraeon a chyfryngau bywiog.

Tai

11.7 Roedd ein strategaeth dai genedlaethol, **Gwella Bywydau a Chymunedau – Cartrefi yng Nghymru**, a gyhoeddwyd y llynedd, yn nodi ein blaenoriaethau strategol ar gyfer tai: cynyddu'r cyflenwad o dai; gwella'i ansawdd; a gwella gwasanaethau tai – yn arbennig ar gyfer pobl sy'n agored i niwed neu'n ddigartref.

11.8 Mae sicrhau bod gan bobl gartref sy'n bodloni eu hanghenion – cartref cynnes, fforddiadwy, diogel, sydd mewn cyflwr da ac nad yw'n effeithio'n wael ar yr amgylchedd – yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru. Mae cartref yn rhan hanfodol o fywydau pobl. Mae'n effeithio ar iechyd a lles, ansawdd bywyd, ac ar gyfleoedd bywyd unigolion a theuluoedd. Dyna pam rydym yn parhau i warchod y Lwfans Atgyweiriadau Mawr, cyllideb sy'n ariannu atgyweiriadau mawr ar dai awdurdodau lleol, a thaliadau gwaddoli ar gyfer cyn dai awdurdodau lleol sydd wedi'u trosglwyddo i landlordiaid trosglwyddo stoc newydd. Mae'r ddwy ffrwd ariannu hon yn helpu i gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), sydd â'r nod eang o sicrhau bod stoc tai cymdeithasol Cymru yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

11.9 Rydym hefyd yn parhau i fuddsoddi dros £130m y flwyddyn i ddarparu cymorth mewn perthynas â thai i bobl agored i niwed drwy'r Rhaglen Cefnogi Pobl. Mae hon yn flaenoriaeth os ydym am frwydro yn erbyn effeithiau'r dirywiad economaidd a diwygio'r system les. Mae'r rhaglen yn cefnogi 50,000 o bobl y flwyddyn, ac yn cynnig gwerth da am bob punt rydym yn ei gwario yng Nghymru. Rydym hefyd wedi ymrwymo i atal digartrefedd, sef un o'r enghreifftiau mwyaf eithriadol o amddifadedd.

11.10 Rydym yn ceisio cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy er mwyn bodloni'r galw amdanynt. Bydd hyn hefyd yn helpu i fynd i'r afael â digartrefedd. Rydym yn archwilio ymhellach i ddulliau arloesol o gynyddu'r cyflenwad trwy wasanaethau fel "Rhent Gyntaf" – tai â rhent canolradd y mae angen grant tai cymdeithasol ar lefel is i'w datblygu; a Phartneriaeth Tai Cymru, a lansiwyd yn ddiweddar – partneriaeth â chymdeithasau tai sy'n buddsoddi mewn ecwiti.

11.11 Mae galluogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain am gymaint o amser â phosibl hefyd yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Dyna pam ein bod wedi diogelu ein buddsoddiad yn y Rhaglen Addasiadau Brys. Mae'r rhaglen hon hefyd yn helpu i leihau'r pwysau ar y GIG a gwasanaethau cymdeithasol trwy alluogi pobl i adael yr ysbyty neu ofal preswyl cyn gynted ag y bydd modd iddynt wneud hynny.

Adfywio

11.12 Mae rhaglen adfywio Llywodraeth Cymru yn cynnwys cyfres integredig o gamau gweithredu a buddsoddiad a dargedir, sydd â'r nod o atal y dirywiad mewn ardaloedd o amddifadedd a'u hadnewyddu mewn ffordd gynaliadwy.

11.13 Mae ein cyllidebau 'Ardaloedd Adfywio' yn cefnogi cyfres o ymyriadau ar sail ardal, a hynny mewn rhannau o Gymru lle rydym o'r farn y gallwn weithio gydag asiantaethau lleol i fynd i'r afael ag anghenion acíwt, yn arbennig mathau o amddifadedd lluosog. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid ar draws

y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i ddatblygu a chyflenwi cynlluniau gweithredu cydgysylltiedig a holistaidd i ymdrin ag anghenion a chyfleoedd lleol, gan ddefnyddio ein cyllid i ysgogi rhagor o fuddsoddi. Ar hyn o bryd, mae gennym saith Ardal Adfywio (Blaenau'r Cymoedd, Cymoedd y Gorllewin, Môn a Menai, Arfordir y Gogledd, Aberystwyth, Abertawe a'r Barri). Defnyddir buddsoddiad o'n Hardaloedd Adfywio fel arian cyfatebol ar gyfer prosiectau a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r prosiect mwyaf o blith y rhain yn rhan o Barc Rhanbarthol y Cymoedd, partneriaeth rydym yn ei rhedeg ar ran dros 40 o sefydliadau.

11.14 Rydym hefyd yn darparu cyllid mewn dwy ardal arall sy'n flaenoriaeth - Newport Unlimited, sef yr unig Gwmni Adfywio Trefol yng Nghymru, ac Awdurdod Harbwr Caerdydd.

11.15 Wrth i'n cyllideb cyfalaf leihau, rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i sicrhau ein bod yn nodi'r buddsoddiadau strategol a fydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn, a'n bod yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyllido eraill er mwyn cynnal momentwm y newidiadau yn ein Hardaloedd Adfywio.

Treftadaeth

11.16 Mae darparu sylfaen well ar gyfer bywyd trwy gynnig lleoedd, diwylliant, chwaraeon a chyfryngau bywiog yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru. I'r perwyl hwn, byddwn yn parhau i ddarparu cymorth ariannol i Gyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Chwaraeon Cymru a Cadw.

11.17 Rydym yn cydnabod mor hanfodol bwysig yw'r celfyddydau i Gymru, a'u potensial i gyfrannu at ansawdd bywyd. Dyna pam rydym yn parhau i warchod cyllid ar gyfer y celfyddydau yn y Gyllideb Ddrafft hon. Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu cymorth ariannol i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

11.18 Bydd ein cefnogaeth ar gyfer Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn caniatáu inni barhau â'n polisi o roi mynediad am ddim i safleoedd yr amgueddfa genedlaethol. Byddwn hefyd yn parhau i roi cymorth ariannol ac arweiniad strategol i amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol trwy gyfrwng CyMAL, gan gydnabod cyfraniad sylweddol y gwasanaethau hyn i gymunedau lleol o safbwynt mynediad at wybodaeth a threftadaeth ddiwylliannol, yn ogystal â'u rôl yn cefnogi twristiaeth yng Nghymru.

11.19 Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru. Mae'n gyfrifol am warchod ein treftadaeth, sy'n cynnwys Safleoedd Treftadaeth y Byd, adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig. Mae Cadw hefyd yn gweithio i gynnal cymeriad nodweddiadol trefi a thirwedd Cymru, ac yn helpu pobl i'w deall ac i werthfawrogi eu gwerth hanesyddol. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y cyfraniad hwn o safbwynt economaidd a chymdeithasol, ac rydym wedi ymrwymo i'r rhaglen waith barhaus. Rydym hefyd wedi ymrwymo i gyflenwi'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth, sy'n werth £19m, a fydd yn gwella adeiladwaith llawer o'n henebion yn ogystal â phrofiad ymwelwyr ohonynt.

11.20 Rydym hefyd yn cydnabod y buddion enfawr a ddaw yn sgil chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar nifer o lefelau gwahanol, gan gynnwys gwella iechyd a lles unigolion. I gefnogi hyn, byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i nofio am ddim, ac yn darparu cyllid ychwanegol gwerth £46,000 yn 2014-15 i gynnal y ddarpariaeth.

Asesiadau Effaith

11.21 Cynhaliwyd Asesiadau Effaith cynhwysfawr ar raglenni a pholisïau'r Adran Tai, Adfywio a Threftadaeth adeg gosod y cynlluniau gwario ar gyfer 2011-12 i 2013-14 yng Nghyllideb y llynedd. Mae'r tybiaethau sy'n sylfaen i'r cynlluniau gwario hyn yn parhau'n berthnasol i 2014-15. Fodd bynnag, mae newidiadau perthnasol i'r Gyllideb Ddrafft hon wedi'u sgrinio, ac nid yw'n ofynnol cynnal asesiadau llawn o'r effaith ar gydraddoldeb.

Tabl 11.1 – Dyraniadau Adnoddau Tai, Adfywio a Threftadaeth

DEL	£000oedd							
	2011-12	2012-13			2013-14			2014-15
	Llinell sylfaen	Cynlluniau Dangosol Cyllideb Atodol Mehefin 2011	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Dangosol Cyllideb Atodol Mehefin 2011	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Dangosol
Tai	154,765	151,147	-	151,147	151,792	-	151,792	151,792
Adfywio	14,489	14,336	-	14,336	14,397	-	14,397	14,397
Cefnogi a chynnal sector celfyddydau cryf trwy Gyngor y Celfyddydau ac eraill	35,397	34,802	-	34,802	35,643	-	35,643	35,643
Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd	38,191	37,436	-	37,436	37,445	-	37,445	37,445
Gweithredu rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol effeithiol	25,437	24,923	-	24,923	24,853	-	24,853	24,899
Y Cyfryngau a Chyhoeddi	4,031	3,980	-	3,980	3,926	-	3,926	3,926
Cadw, gwarchod, cynnal a hyrwyddo mynediad i'r amgylchedd hanesyddol	11,712	11,305	353	11,658	10,920	621	11,541	11,541
Cyfanswm DEL	**284,022**	**277,929**	**353**	**278,282**	**278,976**	**621**	**279,597**	**279,643**
AME								
Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd	2,265	2,490	-	2,490	2,740	-	2,740	2,740
Tai	-72,000	-61,000	-	-61,000	-55,000	-	-55,000	-55,000
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	**214,287**	**219,419**	**353**	**219,772**	**226,716**	**621**	**227,337**	**227,383**

Tabl 11.2 – Dyraniadau Cyfalaf Tai, Adfywio a Threftadaeth

DEL	£000oedd							
	2011-12	2012-13			2013-14			2014-15
	Llinell sylfaen	Cynlluniau Dangosol Cyllideb Atodol Mehefin 2011	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Dangosol Cyllideb Atodol Mehefin 2011	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Dangosol
Tai	249,392	231,970	-	231,970	206,782	-	206,782	206,782
Adfywio	55,343	51,477	-	51,477	45,888	-	45,888	45,888
Cefnogi a chynnal sector celfyddydau cryf trwy'r Cyngor Celfyddydau ac eraill	460	455	-	455	450	-	450	450
Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd	5,673	4,973	-	4,973	4,043	-	4,043	4,043
Gweithredu rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol effeithiol	345	345	-	345	345	-	345	345
Y Cyfryngau a Chyhoeddi	25	25	-	25	25	-	25	25
Cadw, gwarchod, cynnal a hyrwyddo mynediad i'r amgylchedd hanesyddol	5,500	5,313	-	5,313	5,031	-	5,031	5,031
Cyfanswm DEL	**316,738**	**294,558**	**0**	**294,558**	**262,564**	**0**	**262,564**	**262,564**
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	**316,738**	**294,558**	**0**	**294,558**	**262,564**	**0**	**262,564**	**262,564**

12. Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

Crynodeb o'r Newidiadau i'r Gyllideb

12.1 O gymharu â chynlluniau dangosol ar gyfer 2012-13 a gyhoeddwyd yng Nghyllideb derfynol 2011-12 (fel y'u hailddatganwyd yn seiliedig ar y strwythur newydd yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2011-12), mae cyfanswm y dyraniad MEG ar gyfer Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu wedi cynyddu £0.443m yn 2012-13 a £0.443m yn 2013-14. Y cynllun dangosol ar gyfer 2014-15, a gyhoeddir am y tro cyntaf, yw £332.2m (yr un fath ag yn 2013-14).

12.2 Mae'r cyllid adnoddau ychwanegol yn gysylltiedig â'r rhaglenni gwariant canlynol:

- Rydym wedi dyrannu £0.4m ychwanegol ym mhob un o'r tair blynedd nesaf yn sgil trosglwyddo cyllid i mewn o DEFRA (ar gyfer Iechyd Anifeiliaid), a throsglwyddo cyfrifoldebau o bortffolios Gweinidogol eraill, sydd wedi'i wrthbwyso'n rhannol trwy drosglwyddo cyfrifoldebau allan mewn perthynas â chostau rhedeg Comisiwn Iechyd Cymru.

12.3 Ym mhob un o'r tair blynedd nesaf, bydd y gyllideb costau staff yn cynyddu £1.2m o'i chymharu â'n cynlluniau cyhoeddedig blaenorol. Mae'r cynnydd hwn yn deillio o'r broses barhaus o ail-flaenoriaethu cyllidebau, a'r symud o wasanaethau wedi'u contractio'n allanol tuag at ddarparu gwasanaethau'n fewnol. Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae'r gyllideb costau staff yn gostwng £10m rhwng 2011-12 a 2012-13, ac o £10m arall rhwng 2012-13 a 2013-14.

12.4 Ceir y trosglwyddiad arwyddocaol arall yn y MEG o ganlyniad i gau'r Strategaeth Leoli, yn sgil cwblhau swyddfeydd newydd Llywodraeth Cymru yn Aberystwyth a Chyffordd Llandudno. Mae rhan o gyllideb y 'Strategaeth Leoli' yn cael ei throsglwyddo i 'Weinyddu Cyffredinol', er mwyn talu am gostau parhaus y swyddfeydd newydd. Bydd y gweddill yn cael ei throsglwyddo i'r rhaglen 'Hwyluso Llywodraeth', lle caiff ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau i wella busnesau, ac yn benodol ar gyfer camau i wella effeithlonrwydd ein hystâd weinyddu.

12.5 Wrth i'r gyllideb cyfalaf leihau bob blwyddyn, rydym yn bwriadu cadw'r asedau TGCh yn weithredol am fwy o amser, gan arwain at ostyngiad o £0.4m i'r gyllideb hon. Byddwn yn defnyddio gweddill y gyllideb cyfalaf i wella ein llety gweinyddol a chrynhoi ein gweithlu mewn llai o adeiladau er mwyn cyflawni arbedion adnoddau yn y tymor hwy.

Blaenoriaethau Strategol

12.6 Ffocws y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yw darparu Llywodraeth ddatganoledig effeithiol ac atebol. Mae'r gyllideb yn cynnwys ystod eang o swyddogaethau, gan gynnwys: costau rhedeg Llywodraeth Cymru, costau gwasanaethau canolog eraill, a gwasanaethau a rhaglenni gwybodaeth Iedled

y Llywodraeth. Mae hefyd yn cynnwys nifer o linellau cyllideb i helpu i gyflawni canlyniadau y mae naill ai Prif Weinidog Cymru neu'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ yn uniongyrchol gyfrifol amdanynt.

12.7 Yng nghyd-destun cyllideb sy'n lleihau, ein blaenoriaeth allweddol yw sicrhau bod ein hadnoddau wedi'u halinio yn y ffordd orau i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru. Trwy gyfuniad o fentrau, rydym yn ceisio lleihau costau mewn ffordd gydlynol a chytbwys i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau i Weinidogion a phobl Cymru.

12.8 Er bod y mentrau hyn ar gamau gwahanol yn eu datblygiad, maent yn canolbwyntio ar leihau costau staff, lleihau costau gweinyddol nad ydynt yn ymwneud â chyflogau (Llwyddo â Llai), a rhesymoli ein hystâd o swyddfeydd gweinyddu.

12.9 Mae'r gostyngiadau a gyflawnwyd eisoes drwy'r cynllun ymadael gwirfoddol a chamau gweithredu eraill yn golygu y gallwn ateb yr her hon yn hyderus, er y bydd angen inni barhau i reoli costau staff yn ofalus a manteisio ar gyfleoedd i leihau costau gweinyddu eraill lle bo modd.

Arbedion Effeithlonrwydd

12.10 Y mwyaf arwyddocaol a datblygedig o'r rhain yw'r arbedion mewn costau cyflenwi yn sgil lleihau maint cyffredinol y gweithlu. Rydym eisoes wedi lleihau'r gweithlu o bron i 1,000 o staff cyfwerth ag amser llawn rhwng Mawrth 2010 a Gorffennaf 2011. Gwnaethpwyd hynny trwy gyfuniad o ddiswyddo gwirfoddol a rhoi mesurau rheoli mewnol ar waith, gan gynnwys rhewi'r broses o lenwi swyddi gwag, atal penodiadau newydd, ffrwyno goramser a chyfyngu ar deithio.

12.11 Gydag amser byddwn yn ymestyn y mesurau hyn er mwyn cyflawni rhagor o arbedion yn Llywodraeth Cymru a chaniatáu inni gyflenwi mwy gyda llai. Bydd yr arbedion sylweddol a gyflawnwyd eisoes yn rhoi Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa dda i ddygymod â chyllidebau llai yn y blynyddoedd a ddêl. Ond os bydd cyllidebau'n parhau i gael eu gwastatáu o safbwynt arian parod, bydd pwysau chwyddiannol yn ei gwneud yn ofynnol cymryd camau pellach ar ryw bwynt.

12.12 O fewn ei linellau cyllideb gweinyddol, mae'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn helpu i ariannu nifer o ymyriadau allweddol sy'n cyfrannu at flaenoriaethau canlynol Llywodraeth Cymru:

- datblygu cynllun secondiadau cenedlaethol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru;
- sefydlu Canolfan Arwain a Rhagoriaeth strategol i wella arferion arwain a rheoli;
- rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU i roi bargen gyllido decach i Gymru;

- datblygu Cynllun Seilwaith Cenedlaethol 10 mlynedd ledled Cymru i flaenoriaethu cynlluniau cyfalaf sydd o bwys cenedlaethol.

Ariannu Rhaglenni Allweddol

12.13 Mae'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn cynnwys bloc o arian rhaglenni sy'n cefnogi blaenoriaethau canlynol Llywodraeth Cymru:

- Ceisio creu cymdeithas deg sy'n rhydd o wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ac sydd â chymunedau cydlynol a chynhwysol, gan gynnwys:
  - llai o anghydraddoldeb o safbwynt canlyniadau economaidd-gymdeithasol;
  - gwasanaethau cyhoeddus sy'n cefnogi cydraddoldeb;
  - cymunedau mwy cynhwysol a chydlynol;
  - mwy o amrywiaeth ymysg pobl sy'n gwneud penderfyniadau ac sy'n aelodau o fyrddau, gan adlewyrchu'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.
- Parhau i gefnogi Cymru fel Gwlad Masnach Deg;
- Sicrhau bod Cymru yn parhau i chwarae ei rhan ar lwyfan fyd-eang, er enghraifft trwy raglen Cymru o Blaid Affrica.

Asesiadau Effaith

12.14 Y newid mwyaf arwyddocaol o bell ffordd sy'n effeithio ar y gyllideb Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yw'r gostyngiad ym maint ein gweithlu. Cynhaliwyd ymarfer sgrinio cydraddoldeb ar y cynllun ymadael gwirfoddol i nodi unrhyw dueddiadau neu faterion allweddol yn gynnar yn y broses. Roedd hefyd yn caniatáu cymharu amrywiaeth y ceisiadau yn erbyn data cynrychiolaeth y gweithlu a gyhoeddwyd yn adroddiad cydraddoldeb cyflogwyr 2009-10. Roedd amrywiaeth y cynllun yn adlewyrchu amrywiaeth y sefydliad.

12.15 Ar wahân i hyn, nid oes unrhyw asesiadau effaith newydd wedi'u cynnal ar gyfer y gyllideb hon am fod a wnelo'r newidiadau, fel y'u nodwyd yn y Gyllideb Ddrafft, â throsglwyddo cyfrifoldebau ar gyfer penawdau'r gyllideb ac nid ag ailddyrannu adnoddau i flaenoriaethau newydd.

Tabl 12.1 – Dyraniadau Adnoddau Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

DEL	£000oedd							
	2011-12	2012-13			2013-14			2014-15
	Llinell sylfaen	Cynlluniau Dangosol Cyllideb Atodol Mehefin 2011	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Dangosol Cyllideb Atodol Mehefin 2011	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Dangosol
Costau Rhedeg Dirprwyedig	214,326	203,155	1,185	204,340	192,904	1,195	194,099	194,099
Costau Rhedeg Canolog	91,176	92,419	-1,042	91,377	89,135	-1,052	88,083	88,083
Gwasanaethau Gwybodaeth a Chymorth	11,524	11,167	210	11,377	10,825	210	11,035	11,035
Rhaglenni Canolog	14,804	14,271	90	14,361	13,592	90	13,682	13,682
Cyfanswm DEL	**331,830**	**321,012**	**443**	**321,455**	**306,456**	**443**	**306,899**	**306,899**
AME								
Costau Rhedeg Canolog	-1,100	-800	-1,037	-1,837	-400	-966	-1,366	-848
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	**330,730**	**320,212**	**-594**	**319,618**	**306,056**	**-523**	**305,533**	**306,051**

Tabl 12.2 – Dyraniadau Cyfalaf Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

DEL	£000oedd							
	2011-12	2012-13			2013-14			2014-15
	Llinell sylfaen	Cynlluniau Dangosol Cyllideb Atodol Mehefin 2011	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Dangosol Cyllideb Atodol Mehefin 2011	Newidiadau	Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft	Cynlluniau Dangosol
Costau Rhedeg Canolog	11,982	11,145	-	11,145	9,935	-	9,935	9,935
Rhaglenni Canolog	18,738	17,319	-	17,319	15,378	-	15,378	15,378
Cyfanswm DEL	**30,720**	**28,464**	**0**	**28,464**	**25,313**	**0**	**25,313**	**25,313**
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	**30,720**	**28,464**	**0**	**28,464**	**25,313**	**0**	**25,313**	**25,313**

Atodiad A – Cysoni'r Gyllideb Weinyddol â Dyraniad yr Adnoddau yn y Cynigion ar gyfer y Gyllideb Ddrafft

Mae'r ddogfen hon yn ategu'r Cynigion ar gyfer y Gyllideb Ddrafft, sy'n nodi'r adnoddau y mae Llywodraeth Cymru yn cynnig eu defnyddio yn 2012-13 a'r arian parod y mae'n gofyn am awdurdod i'w dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae'r tablau yn yr adroddiad hwn yn dangos y cyllidebau ar sail weinyddol ond mae'r ffigurau yn y Cynigion ar gyfer y Gyllideb Flynyddol Ddrafft ar sail adnoddau.

Mae cyllideb weinyddol Llywodraeth Cymru yn cynnwys nifer o eitemau sy'n cael eu sgorio y tu allan i gyfrifon Llywodraeth Cymru ac felly nid ydynt yn sgorio fel rhan o'r Adnoddau y Gofynnir Amdanynt gan Weinidogion Cymru. Mae'r Atodiad hwn yn cysoni cyllidebau gweinyddol ac adnoddau pob Prif Grŵp Gwariant.

Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant

	£000oedd		
	2012-13	**2013-14**	**2014-15**
DEL			
Adnoddau	6,046,623	6,079,280	6,079,668
Cyfalaf	240,603	214,478	214,478
AME			
Adnoddau	181,780	80,514	199,392
Cyfalaf	-	-	-
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	**6,469,006**	**6,374,272**	**6,493,538**
Cysoni ag Adnoddau			
Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCau a chyrff y GIG	317,159	200,261	319,139
Benthyca â Chymorth	4,174	3,602	3,602
Derbyniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol (a'r costau casglu)	887,856	887,859	887,859
Yr adnoddau y gwnaed cais amdanynt	**5,259,814**	**5,282,550**	**5,282,938**

Llywodraeth Leol a Chymunedau

	£000oedd		
	2012-13	**2013-14**	**2014-15**
DEL			
Adnoddau	4,842,872	4,897,837	4,920,978
Cyfalaf	261,641	233,291	233,291
AME			
Adnoddau	64,314	25,690	53,240
Cyfalaf	-	-	-
Cyfanswm y gwariant a reolir (TME)	**5,168,827**	**5,156,818**	**5,207,509**
Cysoni ag Adnoddau			
Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCau a chyrff y GIG	400	400	400
Benthyca â Chymorth	12,001	10,336	10,336
Ardrethi Annomestig Cenedlaethol sy'n daladwy (a'r costau casglu)	949,172	949,172	949,172
Menter Cyllid Preifat (PFI)	7,353	7,566	7,786
Yr adnoddau y gwnaed cais amdanynt	**4,199,901**	**4,189,344**	**4,239,815**

Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth

	£000oedd		
	2012-13	**2013-14**	**2014-15**
DEL			
Adnoddau	182,870	184,428	184,428
Cyfalaf	88,456	79,370	79,370
AME			
Adnoddau	41,402	41,402	41,402
Cyfalaf	-	-	-
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	**312,728**	**305,200**	**305,200**
Cysoni ag Adnoddau			
Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru	1,695	1,686	1,677
Yr adnoddau y gwnaed cais amdanynt	**311,033**	**303,514**	**303,523**

Addysg a Sgiliau

	£000oedd		
	2012-13	**2013-14**	**2014-15**
DEL			
Adnoddau	1,648,180	1,674,824	1,682,459
Cyfalaf	161,343	143,834	143,834
AME			
Adnoddau	99,893	108,455	125,974
Cyfalaf	250,418	269,740	279,284
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	**1,960,048**	**1,979,943**	**1,979,603**
Cysoni ag Adnoddau			
Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCau a chyrff y GIG	213	213	213
Benthyca â Chymorth	39,038	33,781	33,781
Yr adnoddau y gwnaed cais amdanynt	**1,920,797**	**1,945,949**	**1,945,609**

Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

	£000oedd		
	2012-13	**2013-14**	**2014-15**
DEL			
Adnoddau	265,183	265,755	269,201
Cyfalaf	61,629	54,238	54,238
AME			
Adnoddau	-	-	-
Cyfalaf	-	-	-
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	**326,812**	**319,993**	**323,439**
Cysoni ag Adnoddau			
Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCau a chyrff y GIG	3,090	3,090	3090
Benthyca â Chymorth	10,341	9,741	9,741
Yr adnoddau y gwnaed cais amdanynt	**313,381**	**307,162**	**310,608**

Tai, Adfywio a Threftadaeth

	£000oedd		
	2012-13	**2013-14**	**2014-15**
DEL			
Adnoddau	278,282	279,597	279,643
Cyfalaf	294,558	262,564	262,564
AME			
Adnoddau	58,510	52,260	52,260
Cyfalaf	-	-	-
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	**514,330**	**489,901**	**489,947**
Cysoni ag Adnoddau			
Adnoddau a Ddefnyddir gan CNLCau a chyrff y GIG	5,758	6,008	6,008
Benthyca â Chymorth	41,745	31,340	31,340
Yr adnoddau y gwnaed cais amdanynt	**466,827**	**452,553**	**452,599**

Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

	£000oedd		
	2012-13	**2013-14**	**2014-15**
DEL			
Adnoddau	321,455	306,899	306,899
Cyfalaf	28,464	25,313	25,313
AME			
Adnoddau	1,837	1,366	848
Cyfalaf	-	-	-
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	**348,082**	**330,846**	**331,364**
Cysoni ag Adnoddau			
Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru	97	92	92
Yr adnoddau y gwnaed cais amdanynt	**347,985**	**330,754**	**331,272**

Atodiad B – Cysoni Strwythur y Gyllideb ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Addysg a Sgiliau

	CYLLIDEB ADNODDAU – Terfyn Gwariant Adrannol				£000's	
Maes Rhaglenni Gwariant	**Gweithredu**	**2011-12 Llinell Sylfaen wedi'i hailddatgan**	**2012-13 Llinell Sylfaen wedi'i hailddatgan**	**2013-14 Llinell Sylfaen wedi'i hailddatgan**	**2014-15 Llinell Sylfaen wedi'i hailddatgan**	**SYLWADAU**
Safonau Addysgol	Llythrennedd a Rhifedd	9,353	11,353	13,353	13,353	Sgiliau Sylfaenol gynt
	Y Cwricwlwm	121,562	127,562	131,462	131,462	Y Cwricwlwm ac Asesu (gan gynnwys y Cyfnod Sylfaen) ynghyd â £20.62m am Ddysgu 14-19 a oedd gynt yn elfen graidd ar y Strategaeth Plant a Phobl Ifanc
	Addysgu ac Arweinyddiaeth	20,218	19,548	18,815	18,815	Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol gynt
	Cymwysterau	15,304	15,304	15,304	15,304	Cymwysterau a Dysgu gynt
	Addysg ôl-16	542,376	551,345	558,476	558,476	Dysgu Gydol Oes a Darparwyr gynt, arian am Addysg ôl-16 ac eithrio Gyrfa Cymru (£38m) a Thrawsnewid (£3.943m) a drosglwyddir i Gamau Gweithredu newydd isod
	Addysg Uwch	394,479	380,424	380,284	380,284	Heb ei newid
	Strwythurau Addysg	3,943	3,943	3,943	3,943	Arian Trawsnewid a oedd gynt yn rhan o Ddysgu Gydol Oes a Darparwyr
	Safonau Addysg	22,600	25,300	29,500	29,500	Arweinyddiaeth Ysgolion ac Effeithiolrwydd gynt
	TGCh ac IMS	7,655	7,538	7,423	7,423	Craidd Rheoli Gwybodaeth gynt
	Cyfanswm Safonau Addysg a Hyfforddiant	**1,137,490**	**1,142,317**	**1,158,560**	**1,158,560**	
Gweithlu Medrus	Sgiliau yn y Gweithle	25,952	21,406	22,006	22,006	Craidd Busnes a Sgiliau gynt ynghyd â £0.539m o Gyllid ac Arian Myfyrwyr
	Cyflogadwyedd y Gweithlu	6,433	7,433	7,433	7,433	Rhan o Fusnes a Sgiliau gynt
	Dewis Addysgol a Gyrfaoedd	38,000	36,000	35,000	35,000	Arian Gyrfa Cymru a oedd gynt yn rhan o Ddysgu Gydol Oes a Darparwyr
	Cyfanswm Gweithlu Medrus	**70,385**	**64,839**	**64,439**	**64,439**	
Lles Economaidd a Chymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldeb	Cyfleoedd Mynediad	7,229	7,253	7,253	7,253	Rhan o'r Strategaeth Plant a Phobl Ifanc gynt, ddim yn cynnwys £20.62m Dysgu 14-19 a gynhwysir yn y Cwricwlwm uchod.
	Lles Plant a Phobl Ifanc	60,590	62,840	65,090	65,090	Craidd Cymorth i Ddysgwyr gynt gyda'r gweddill yn Ennyn Diddordeb Disgyblion isod
	Cymorth i Ddysgwyr ôl-16	311,281	306,680	308,073	308,073	Craidd Cyllid ac Arian Myfyrwyr gynt llai £0.539m i Sgiliau yn y Gweithle
	Ennyn Diddordeb Disgyblion	11,658	12,158	12,758	12,758	Rhan o Gymorth i Ddysgwyr gynt
	Cyfanswm Lles Economaidd a Chymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldeb	**390,758**	**388,931**	**393,174**	**393,174**	
Yr Iaith Gymraeg	Dysgu Cymraeg	12,377	12,377	12,377	12,377	Datblygu'r Gymraeg gynt
	Bwrdd yr Iaith Gymraeg	13,878	13,978	14,078	14,078	Heb ei newid
	Cyfanswm y Gymraeg	**26,255**	**26,355**	**26,455**	**26,455**	
Cymorth Cyflawni	Cymorth Cyflawni	5,313	5,148	5,006	5,006	Prosiectau Strategol o £2.699m gynt ynghyd â gweddill Rheoli Gwybodaeth o 2.614m yn 2011-12.
	Cyfanswm Cymorth Cyflawni	**5,313**	**5,148**	**5,006**	**5,006**	
	Cyfanswm Adnoddau – Addysg a Sgiliau	**1,630,201**	**1,627,590**	**1,647,634**	**1,647,634**	

	CYLLIDEB CYFALAF- TERFYN GWARIANT ADRANNOL				£000's	
Maes Rhaglenni Gwariant	**Gweithredu**	**2011-12 Llinell Sylfaen wedi'i hailddatgan**	**2012-13 Llinell Sylfaen wedi'i hailddatgan**	**2013-14 Llinell Sylfaen wedi'i hailddatgan**	**2014-15 Llinell Sylfaen wedi'i hailddatgan**	
Safonau Addysgol	Yr Ystad a'r ddarpariaeth TG	169,923	161,243	143,734	143,734	
	Cyfanswm Codi Safonau	**169,923**	**161,243**	**143,734**	**143,734**	
Yr Iaith Gymraeg	Bwrdd yr Iaith Gymraeg	50	100	100	100	
	Cyfanswm y Gymraeg	**50**	**100**	**100**	**100**	
	Cyfanswm DEL Cyfalaf- Addysg a Sgiliau	**169,973**	**161,343**	**143,834**	**143,834**	
	CYLLIDEB CYFALAF – Gwariant a Reolir yn Flynyddol				**£000's**	
SPA	**Gweithredu**	**2011-12 Llinell Sylfaen wedi'i hailddatgan**	**2012-13 Llinell Sylfaen wedi'i hailddatgan**	**2013-14 Llinell Sylfaen wedi'i hailddatgan**	**2014-15 Llinell Sylfaen wedi'i hailddatgan**	
Lles Economaidd a Chymdeithasol a Lleihau Anghydraddoldeb	Cymorth i Ddysgwyr ôl-16	240,951	254,333	262,610	262,610	
	Cymorth i Ddysgwyr ôl-16	-115,649	-132,021	-150,601	-150,601	
	Cyfanswm Gwella Busnes a Buddsoddi Adnoddau	**125,302**	**122,312**	**112,009**	**112,009**	
	Cyfanswm AME – Addysg a Sgiliau	**125,302**	**122,312**	**112,009**	**112,009**	

					£000's	
	Addysg a Sgiliau – Crynodeb	**2011-12 Llinell Sylfaen wedi'i hailddatgan**	**2012-13 Llinell Sylfaen wedi'i hailddatgan**	**2013-14 Llinell Sylfaen wedi'i hailddatgan**	**2014-15 Llinell Sylfaen wedi'i hailddatgan**	
	DEL Adnoddau	1,630,201	1,627,590	1,647,634	1,647,634	
	DEL Cyfalaf	169,973	161,343	143,834	143,834	
	Cyfanswm DEL	**1,800,174**	**1,788,933**	**1,791,468**	**1,791,468**	
	Gwariant a Reolir yn Flynyddol - Cyfalaf	**240,951**	**254,333**	**262,610**	**262,610**	
	Gwariant a Reolir yn Flynyddol - Adnoddau	**-115,649**	**-132,021**	**-150,601**	**-150,601**	
	Cyfanswm Gwariant a Reolir yn Flynyddol	**125,302**	**122,312**	**112,009**	**112,009**	
	Cyfanswm Addysg a Sgiliau	**1,925,476**	**1,911,245**	**1,903,477**	**1,903,477**	

Atodiad C - Asesu'r Effeithiau ar Gydraddoldeb

C1. Cyflwyniad

C1.1 Mae cydraddoldeb, cynhwysiant a chyfiawnder cymdeithasol wrth galon Llywodraeth Cymru. Adlewyrchir hyn gan y ffaith mai Llywodraeth Cymru yw'r Llywodraeth gyntaf yn y DU i gyhoeddi ei Dyletswyddau Penodol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf). Yn ganolog i'r dyletswyddau hyn mae gwaith ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, tystiolaeth ac asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod cydraddoldeb, cynhwysiant a hawliau dynol yn cael eu prif-ffrydio mewn prosesau llunio a chyflawni polisïau. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i ni ddeall yn well yr effeithiau ar bobl Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 o ran oedran, anabledd, rhywedd a ailbennwyd, hil, crefydd neu gred, beichiogrwydd a mamolaeth, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, a phriodas a phartneriaeth sifil.

C2. Cyllideb Llywodraeth Cymru a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer 2011-12

C2.1 Ym mis Chwefror 2011, cyhoeddwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2011-12 ochr yn ochr â Chyllideb Derfynol 2011-12[14]. Cynhaliodd yr Adrannau Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer eu penderfyniadau eu hunain ynghylch sut i ddyrannu'r gyllideb, a arweiniodd at nifer o addasiadau. Mae'n bwysig nodi i Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb gael ei gynnal mewn perthynas â'r penderfyniadau strategol a wnaed gan y Cabinet a arweiniodd at gynnydd yn yr arian ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a thai i bobl fregus.

C2.2 Dyma'r tro cyntaf i Lywodraeth Cymru (neu unrhyw weinyddiaeth arall) gynnal Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar ei Chyllideb Ddrafft ac felly nid oedd glasbrint i seilio'r gwaith arno. Datblygwyd proses yn seiliedig ar adnodd Llunio Polisi Cynhwysol Llywodraeth Cymru[15] a defnyddiwyd y broses honno gan bob Adran.

C3. Cyllideb Ddrafft 2012-13

C3.1 Er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol, mae angen i ni ddangos ein bod yn ystyried effeithiau posibl ein cynlluniau gwariant ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Fel rhan o Gyllideb y llynedd, a oedd yn gyllideb tair blynedd,

---

[14] Mae manylion llawn Cyllideb Llywodraeth Cymru a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer 2011-12 i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru yn: http://wales.gov.uk/about/civilservice/directorates/spfp/financedepartmentreports/110201equalityimpacts/?lang=cy

[15] Mae mwy o wybodaeth a chanllawiau, gan gynnwys pecyn ar gyfer defnyddio'r broses Llunio Polisi Cynhwysol, ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn: http://www.wales.gov.uk/topics/equality/inclusivepolicy/?lang=cy
Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi llunio canllawiau ar Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a phenderfyniadau Ariannol a nodyn cryno i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb: http://www.equalityhumanrights.com/hafan/cymru/asesiad-effaith-ar-gydraddoldeb/

gwnaeth Llywodraeth Cymru lawer o waith i asesu effaith y cynlluniau a gyhoeddwyd gennym ar gydraddoldeb. Mae dyraniadau eleni yr un peth i raddau helaeth â'r rhai yng Nghyllideb y llynedd; felly nid yw Llywodraeth Cymru wedi ail-wneud y gwaith manwl a wnaed y llynedd. Am y rheswm hwn, dylid ystyried y ddogfen hon a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer Cyllideb 2011-12 gyda'i gilydd.

C3.2 Fodd bynnag, lle bo cynlluniau gwariant yn wahanol i'r rhai a gyhoeddwyd yng Nghyllideb y llynedd, aed ati i asesu eu heffaith ar gydraddoldeb ac, yn benodol, mae'r rhain yn cynnwys dyraniadau ychwanegol ar gyfer:

- ein hymrwymiadau **Pump am Ddyfodol Tecach**;
- parhau i ddarparu ein cyfres o fuddion cyffredinol;
- sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn y GIG.

C3.3 Er mwyn bod yn hyderus eu bod wedi asesu'r effaith ar gydraddoldeb yn y meysydd hyn a rhai eraill, ymgymerodd Adrannau Llywodraeth Cymru â phroses sgrinio gychwynnol i ystyried a allai fod effaith bosibl ar gydraddoldeb. Yn dilyn y broses sgrinio gychwynnol, os oedd yn amlwg y byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith sylweddol ar bobl ag un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig, roedd yn rhaid cynnal Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb llawn er mwyn rhoi sylw dyledus i effaith bosibl y dyraniadau cyllidebol arfaethedig a'i deall yn well. Pwysleisiwyd y byddai'n rhaid i'r Adrannau hynny y byddai angen iddynt gynnal asesiadau o'r effaith bosibl ar gydraddoldeb wneud y canlynol:

- ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol ac ystyried eu barn;
- sicrhau eu bod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn.

C4. Rhwymedigaethau Cyfreithiol

C4.1 Mae Gweinidogion Cymru wedi defnyddio eu pwerau o dan y Ddeddf i osod dyletswyddau cydraddoldeb penodol ar awdurdodau arbennig yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru ei hun. Nod y dyletswyddau penodol hyn yw helpu awdurdodau i gydymffurfio â'r ddyletswydd gydraddoldeb gyffredinol, ac fe'u nodir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Diwygiwyd ein proses o lunio polisi cynhwysol yn unol â'r dyletswyddau penodol hynny er mwyn sicrhau bod pob polisi newydd, a pholisïau cyfredol a gaiff eu hadolygu a'u diwygio, yn ystyried yr effaith ar bawb sydd â nodweddion gwarchodedig.

C4.2 Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd ddyletswydd o dan adran 77 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i roi trefniadau ar waith i sicrhau y cyflawnir ei swyddogaethau gan roi sylw dyledus i'r egwyddor y dylai pawb gael cyfle cyfartal.

C5. Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru

C5.1 Bydd Cynllun Cydraddoldeb Sengl Llywodraeth Cymru yn dod i ben ar 31ain Mawrth. Roedd y cynllun hwn yn mynd y tu hwnt i'r gofynion statudol i ymdrin ag anabledd, rhywedd a hil gan gynnwys hefyd oedran, crefydd a chred, cyfeiriadedd rhywiol a thrawsrywedd.

C5.2 Cyflwynodd Deddf Cydraddoldeb 2010 ddyletswydd gydraddoldeb gyffredinol i'r sector cyhoeddus ledled Prydain Fawr a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2011. Yn y Ddeddf gwnaed darpariaeth i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau sy'n gosod dyletswyddau sector cyhoeddus penodol ar awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru i'w helpu i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol.

C5.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi pasio deddfwriaeth a wnaeth Dyletswyddau Penodol Cymru yn gyfraith gwlad. Cyflwynwyd Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 8 Mawrth ac fe'u trafodwyd mewn Cyfarfod Llawn ar 29 Mawrth. Cymeradwywyd y rheoliadau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a daethant i rym ar 6 Ebrill 2011 (y weinyddiaeth gyntaf yn y DU i wneud hynny). Bwriedir i Ddyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni eu dyletswydd gyffredinol yn well.

C5.4 Mae ffocws Dyletswyddau Penodol Cymru ar amcanion o ran cydraddoldeb sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Er mwyn sicrhau bod y rhain yn ystyrlon, rhaid casglu tystiolaeth gadarn a'i dadansoddi er mwyn canfod ble mae angen targedu camau gweithredu. Cynigia Llywodraeth Cymru fod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn casglu tystiolaeth, yn asesu'r effaith ar gydraddoldeb ac yn ymgysylltu â phobl, ac yn y diwedd yn datblygu amcanion a fydd yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl.

C5.5 Bydd angen cyhoeddi'r amcanion hyn erbyn mis Ebrill 2012. Yn sgîl yr amcanion hyn, bydd dinasyddion yn gwybod yn union beth y bydd cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ei wneud i weithio i ddileu gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da.

C6. Crynodeb o effaith ddosbarthiadol Cyllideb Llywodraeth Cymru

C6.1 Ceir gwaith ymchwil sylweddol ar effaith gwariant cyhoeddus ar unigolion yn unol â lefel eu hincwm. O'r ymchwil hon, gwyddom, yn gyffredinol, pa grwpiau sy'n debygol o gael y budd mwyaf o'r penderfyniadau a wnawn i liniaru effeithiau andwyol y camau cysoni ariannol y mae Llywodraeth glymblaid y DU yn eu cymryd ar hyn o bryd.

C6.2 Dengys yr ymchwil hon mai'r rhai sydd ar waelod y dosbarthiad incwm, ar gyfartaledd, sy'n cael y budd mwyaf o wariant cyhoeddus ar wasanaethau, a hynny'n bennaf oherwydd natur gynyddol gwariant ar iechyd ac addysg. Pan gaiff effaith trethiant a budd-daliadau lles ei hystyried, mae'r darlun cyffredinol hyd yn oed yn fwy cynyddol gan fod y rhai ar waelod y dosbarthiad incwm yn talu llai o dreth ac yn cael mwy o fudd-daliadau lles o'u cymharu â'r rhai ar ben uchaf y

dosbarthiad incwm[16]. Felly, mae'r newidiadau i dreth a budd-daliadau yn cael effaith sylweddol iawn ar y rheini sydd ar incwm isel yng Nghymru.

C6.3 Er bod Llywodraeth Cymru wedi'i chyfyngu'n sylweddol gan y camau cysoni ariannol cyffredinol a gymerwyd gan Lywodraeth glymblaid y DU, rydym wedi gallu helpu i liniaru rhai o effeithiau andwyol gwariant cyhoeddus is ar grwpiau difreintiedig drwy ein penderfyniadau ar wariant. Mae crynodeb o oblygiadau ein penderfyniadau wedi'i gynnwys. Hefyd ceir crynodeb sy'n dangos yr effaith y mae penderfyniadau Llywodraeth glymblaid y DU o ran treth a budd-daliadau wedi'i chael.

C7. Crynodeb o'r effaith ar benderfyniadau gwariant mewn meysydd datganoledig

C7.1 Mae goblygiadau dosbarthiadol pwysig ynghlwm wrth ein penderfyniad i gynyddu gwariant ar iechyd dros gyfnod y gyllideb ac mae'n fesur allweddol i helpu i liniaru effaith andwyol yr amgylchedd cyllidebol llymach sy'n ein hwynebu. Ceir hanes hir a chryn dystiolaeth o amrywiadau cymdeithasol-ddemograffig yn y risg i iechyd ac mae llawer o gyflyrau iechyd andwyol yn fwy cyffredin ymhlith unigolion sydd ar incwm isel. Ceir tystiolaeth hefyd fod unigolion o grwpiau incwm is yn ymweld â'u meddygon teulu yn amlach. Bydd ein penderfyniad i gynyddu hygyrchedd meddygon teulu yn sicrhau y bydd y rhai y mae angen gwasanaethau iechyd arnynt fwyaf yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Yn ogystal, bydd dyblu nifer y plant fydd yn cael budd o Dechrau'n Deg yn helpu plant yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig i gael y cymorth iechyd sydd ei angen arnynt yn gynnar mewn bywyd.

C7.2 Mae penderfyniadau i gynyddu gwariant ar iechyd hefyd yn arwain at effeithiau pwysig ar gydraddoldeb. Gwyddom fod nifer yr achosion o afiechyd hunan-gofnodedig yn uwch ymhlith unigolion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig ar gyfer cyflyrau penodol [17], eu bod yn uwch yn gyffredinol ymhlith menywod na dynion a'u bod yn tueddu i gynyddu gydag oedran. Yn ogystal, mae'n amlwg y bydd cynyddu gwariant ar iechyd yn arbennig o fuddiol i bobl anabl gan fod cryn dystiolaeth i ddangos bod mwy o angen gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar bobl anabl (gan gynnwys pobl ag anawsterau dysgu, problemau iechyd meddwl, nam corfforol a nam ar y synhwyrau) nag sydd ar y boblogaeth yn gyffredinol.

C7.3 Byddwn hefyd yn gwella iechyd pobl Cymru drwy'r ymrwymiad i sicrhau bod presgripsiynau'n parhau i fod am ddim. Fel y soniwyd uchod mae achosion o afiechyd ar eu huchaf ymhlith y rhai sydd ar incwm isel a nifer o'r rheini â nodweddion gwarchodedig. Felly mae presgripsiynau am ddim o fudd i'r rhai sydd â'r angen mwyaf am eu bod yn sicrhau nad oes neb yn cael eu hatal rhag cymryd meddyginiaeth reolaidd a fyddai'n eu helpu i fyw bywydau iachach, oherwydd y gost o dalu am bresgripsiynau rheolaidd. Mae sicrhau y gall pawb gael y feddyginiaeth sydd ei hangen arnynt hefyd yn bwysig er mwyn helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith.

[16] Mae trafodaeth fanylach ar fesur effaith ddosbarthiadol gwariant cyhoeddus ar gael yng nghyllideb werdd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid: Chwefror 2011.

[17] Mae tystiolaeth i ddangos bod rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig, naill ai oherwydd geneteg neu arferion diwylliannol, yn wynebu mwy o risg o gyflyrau iechyd penodol fel diabetes, strôc, clefyd y galon a phroblemau iechyd meddwl, na'r boblogaeth gyffredinol.

C7.4 Yn ogystal â'r buddiannau a ddaw yn sgîl gwariant iechyd, un o'r prif resymau pam mae unigolion o waelod y dosbarthiad incwm yn ennill mwy yn gymesur o wariant cyhoeddus yw'r buddiannau sy'n deillio o addysg wladol. Ceir gwahaniaethau mewn cyfraddau cyfranogi ar lefelau cynradd, uwchradd ac uwch. Ar y lefelau cynradd ac uwchradd, mae addysg, wrth gwrs, yn orfodol ond gall unigolion ddewis tynnu eu plentyn o'r sector cyhoeddus a'i addysgu'n breifat. Mae cyfran y cartrefi sy'n prynu addysg breifat yn cynyddu yn unol ag incwm.

C7.5 Bydd ein penderfyniad i gynyddu gwariant rheng flaen ar ysgolion o fudd i bawb mewn addysg wladol. Fodd bynnag, yn ogystal â'r cyfraddau is o blant o gartrefi incwm isel sy'n cael addysg breifat, mae'r fformiwla i ddyrannu adnoddau addysg i awdurdodau lleol yng Nghymru yn cynnwys nifer y plant sy'n cael prydau ysgol am ddim a dyrennir mwy o adnoddau i ardaloedd lle mae gan nifer fawr o blant yr hawl i gael prydau ysgol am ddim. Dengys tystiolaeth fod cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim yn fesur procsi defnyddiol i nodi nifer y disgyblion sy'n dod o gefndiroedd difreintiedig, sy'n golygu y bydd ein cynnydd mewn gwariant rheng flaen ar ysgolion o fudd i'r rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

C7.6 Mae gwariant ar addysg hefyd yn arwain at rai effeithiau pwysig ar gydraddoldeb. Gwyddom fod y lefelau cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim yn uwch ymhlith unigolion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig nag ar gyfer y boblogaeth ysgol yn gyffredinol. Hefyd mae gwahaniaethau sefydledig o ran cyrhaeddiad rhwng merched a bechgyn a cheir tystiolaeth i ddangos y gall cynyddu adnoddau ysgolion arwain at lefelau cyrhaeddiad gwell. Yn amlwg gallai'r adnoddau ychwanegol a gyhoeddir yn y Gyllideb helpu i gau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad merched a bechgyn.

C7.7 Yn ogystal â'r cynnydd mewn gwariant rheng flaen ar ysgolion, byddwn hefyd yn cadw ein polisi o ddarparu brecwast a llaeth am ddim i blant dan saith oed. Dengys tystiolaeth fod cysylltiad rhwng brecwast iach ac iechyd gwell, gallu gwell i ganolbwyntio ac ymddygiad gwell yn ein hysgolion. Bydd ein hymrwymiad i gadw'r polisi pwysig hwn o fudd i bawb, ond bydd yn arbennig o fuddiol i blant o gartrefi difreintiedig gan ein bod yn gwybod bod unigolion o grwpiau cymdeithasol is yn llai tebygol o fwyta brecwast iach. Dengys tystiolaeth o waith gwerthuso fod y polisi wedi arwain at welliant yn ansawdd y brecwast a fwyteir. Bu cynnydd hefyd yn y bwydydd iach a fwyteir megis ffrwythau, llysiau a bara gwenith cyflawn, sydd i gyd yn eitemau y mae unigolion o gartrefi incwm is yn llai tebygol o'u bwyta.

C7.8 Rydym hefyd wedi ymrwymo i gynorthwyo ein myfyrwyr addysg uwch fel na fydd angen iddynt dalu'r cynnydd yn ffioedd dysgu prifysgolion. Bydd y cymorth hwn yn arbennig o bwysig i fyfyrwyr o gartrefi incwm isel oherwydd dengys y dystiolaeth y gall cyfyngiadau ariannol fod yn ffactor yn eu penderfyniadau i gyfranogi mewn addysg ai peidio. Ers i grantiau cynhaliaeth gael eu cyflwyno yma yng Nghymru gwyddom eisoes fod lefelau cyfranogi mewn astudiaethau llawn amser a rhan-amser wedi cynyddu'n fwy ymhlith myfyrwyr o grwpiau economaidd-gymdeithasol is.

C7.9 Unwaith eto, mae ein penderfyniad i gynorthwyo myfyrwyr mewn addysg uwch yn arwain at rai effeithiau pwysig ar gydraddoldeb. Mae cyfran y myfyrwyr o'r boblogaeth lleiafrifoedd ethnig yn ei chyfanrwydd, sy'n byw yng Nghymru ac sy'n cofrestru i ddilyn cwrs addysg uwch, yn uwch na'u cyfran gyffredinol o fewn y

boblogaeth felly bydd ein cymorth i helpu myfyrwyr i barhau ag addysg uwch yn amlwg o fudd i fyfyrwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

C7.10 Nid dim ond pobl ifanc sy'n symud i addysg uwch fydd yn cael budd o'n penderfyniadau cyllidebol. Rydym hefyd yn dyrannu arian ychwanegol i greu cronfa swyddi a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc ac ymestyn cyfleoedd prentisiaeth ar gyfer pobl ifanc. O gofio'r cynnydd mewn diweithdra ymhlith ieuenctid ledled y DU bydd yr arian ychwanegol hwn yn hollbwysig er mwyn mynd i'r afael â'r broblem yma yng Nghymru.

C7.11 Gwyddom hefyd nad dim ond pobl ifanc sydd angen cymorth mewn marchnad lafur anodd. Mae ein polisïau a'n rhaglenni i gynorthwyo pobl sydd wedi colli eu swyddi - fel rhaglen ReAct - wedi helpu i liniaru effaith un o'r dirwasgiadau gwaethaf erioed. Gydag adferiad economaidd ansicr, mae'n bwysig ein bod yn adeiladu ar y cymorth hwn er mwyn sicrhau bod y rhai a gollodd eu swyddi yn cael yr help sydd ei angen arnynt i ddychwelyd i waith.

C7.12 Dengys y dystiolaeth mai dynion oedd mwyafrif y rhai a gollodd eu swyddi yn ystod y dirwasgiad [18]. Felly, mae ein cymorth i helpu'r bobl hynny a gollodd eu swyddi i ddod o hyd i waith yn debygol o fod wedi bod o fudd arbennig i ddynion. Fodd bynnag, o gofio bod lefelau diweithdra'n cynyddu ymhlith merched a bod merched yn cyfrif am ddwy ran o dair o'r holl weithwyr sector cyhoeddus yng Nghymru, bydd y cymorth sydd ar gael gennym i helpu pobl i ddychwelyd i waith yn hollbwysig i'n gweithlu benywaidd hefyd.

C8. Y Gweithlu Sector Cyhoeddus yng Nghymru

C8.1 Caiff 'Addasu', a lansiwyd ar 1af Ebrill 2011, ei ategu gan Bwynt Cyswllt Cyntaf ar gyfer cyflogwyr yn y sector cyhoeddus fel y gallant gael gafael ar unwaith ar gymorth a chyngor a fydd yn eu galluogi i leihau effaith colledion mewn swyddi. Caiff y gwasanaeth ei deilwra hefyd i ofynion unigolion sy'n wynebu colli eu swydd (yn wirfoddol neu'n orfodol). Y nod yw helpu i gadw talent a sgiliau yn economi Cymru yn ogystal â sicrhau bod unigolion yn rheoli'r broses o symud o swydd yn y sector cyhoeddus i amrywiaeth o yrfaoedd newydd a ffyrdd newydd o fyw mor hawdd â phosibl. I'r rhai sy'n gymwys, mae grantiau hyfforddiant galwedigaethol o £1,500 ar gael.

C8.2 Ers ei lansio, bu cynnydd graddol yng ngweithgarwch Addasu. Ymdrechion cyflogwyr yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru i osgoi dileu swyddi sy'n gyfrifol am y cynnydd graddol yn y defnydd a wneir o'r cynllun, ynghyd â'r amser y mae'n ei gymryd i'r broses honno gyrraedd y pwynt lle mae'n rhaid dileu swyddi. Y rheswm penodol am hyn yw y gellir ystyried cyfleoedd adleoli mewn mannau eraill yn y sector, neu'r opsiwn o ymddeol, gan gymryd y cam o ddileu swyddi dim ond pan fetho popeth arall. Dyma'r data diweddaraf:

[18] Rhwng y tri mis hyd at fis Mehefin 2008 a'r tri mis hyd at fis Medi 2009 cynyddodd y gyfradd diweithdra ymhlith dynion yng Nghymru 4.7 pwynt canran i 10.1 y cant - cynnydd mwy nag a welwyd ymhlith Menywod (2.5 pwynt canran i 7.4 y cant).

Galwadau i'r Pwynt Cyswllt Cyntaf (O'r dyddiad lansio hyd at fis Awst 2011)	
Cyflogwyr	45
Unigolion	108 (69.5% yn fenywod)
Ymholiadau cyffredinol	61
Ceisiadau llwyddiannus am grantiau Addasu (O'r dyddiad lansio hyd at fis Medi 2011)	
Grantiau hyfforddiant galwedigaethol	126 (57% i fenywod)
Cymorthdaliadau cyflog cyflogwr	12 (33% o ymgeiswyr yn fenywod)

C8.3 Yn ogystal, mae'r gwasanaeth wedi cael nifer o ymholiadau gan unigolion a chyflogwyr a gysylltodd yn uniongyrchol â'r tîm Addasu/ReAct ac efallai nad yw'r rhain wedi'u cynnwys uchod.

C8.4 Mae Addasu yn ffrwyth dull newydd o weithredu yng Nghymru i ddwyn cyflogwyr ac undebau llafur ynghyd mewn partneriaeth o dan Gyngor Partneriaeth y Gweithlu Llywodraeth Cymru, o dan gadeiryddiaeth Prif Weinidog Cymru, er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r heriau mawr sydd i ddod. Mae hyn yn cynnwys, fel nod hirdymor, sut i greu gwasanaeth cyhoeddus mwy unedig yng Nghymru sydd â brand neu hunaniaeth unigryw. Bydd y gwaith hwn yn ystyried y ffactorau fydd yn ei gwneud yn bosibl i'r uchelgais hwn gael ei gyflawni, gan gynnwys rhannu dull o weithredu ar les cyflogeion, hybu lefelau uwch o ymgysylltu â chyflogeion, ystyried sut y gellir cysoni telerau ac amodau gwasanaeth a ddatblygwyd ar wahân dros sawl degawd a mabwysiadu Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol modern mewn perthynas â swyddi sector cyhoeddus.

C9. Effaith y newidiadau i Dreth a Budd-daliadau

C9.1 Mae'r system treth a budd-daliadau yn un annatganoledig felly cawn ein cyfyngu gan y penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth glymblaid y DU. Mae'r penderfyniadau hynny o bwys mawr i bobl Cymru gan fod cyfran uwch o boblogaeth Cymru yn cael budd-daliadau lles o gymharu â gweddill y DU gyfan. O ganlyniad, bydd effaith y toriadau mewn budd-daliadau yn fwy yma yng Nghymru.

C9.2 Mae'r dadansoddiad mwyaf cynhwysfawr o effaith y newidiadau i dreth a budd-daliadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth glymblaid y DU wedi ei gyhoeddi gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS).[19]. Yr IFS yw un o sefydliadau ymchwil annibynnol mwyaf blaenllaw Prydain sy'n arbenigo mewn cyllid cyhoeddus a pholisïau treth a lles. Mae'r IFS yn aml yn cynhyrchu dadansoddiad annibynnol ar effaith y newidiadau mewn polisïau treth a budd-daliadau.

C9.3 Ym marn yr IFS mae polisïau Llywodraeth glymblaid y DU yn atchweliadol (h.y. byddant yn cymryd cyfran fwy oddi wrth grwpiau incwm is nag y byddant oddi wrth grwpiau incwm uwch) ar gyfer naw rhan o ddeg isaf y dosbarthiad incwm. I'r gwrthwyneb, mae effaith ddosbarthiadol polisïau torri diffyg y Llywodraeth flaenorol

[19] I ategu dogfennau Cyllideb 2010 a'r Adolygiad o Wariant cyhoeddodd Trysorlys Ei Mawrhydi ddadansoddiad dosbarthiadol o'r newidiadau i drethi, credydau treth a budd-daliadau lles. Beirniadwyd y dadansoddiad cychwynnol hwn gan yr IFS gan nad oedd yn cynnwys nifer o fesurau diwygio lles mawr oedd i'w cyflwyno ac mai dim ond 2012-13 yr oedd yn ei gwmpasu.

a gadwyd gan Lywodraeth glymblaid y DU yn gynyddol (h.y. bydd newidiadau yn cymryd cyfran fwy oddi wrth y grwpiau incwm uwch), yn bennaf am eu bod yn codi trethi ar gyfer enillwyr uwch[20].

C9.4 Mae effaith polisïau Llywodraeth glymblaid y DU yn debygol o fod yn fwy difrifol yng Nghymru gan fod incwm yn is a chan fod cyfran uwch o boblogaeth Cymru yn hawlio budd-daliadau lles. Yn wir, dengys dadansoddiad ychwanegol gan yr IFS fod disgwyl i gartrefi yng Nghymru ar gyfartaledd golli 4.1 y cant o'u hincwm o ganlyniad i'r newidiadau a gyhoeddwyd erbyn 2014-15. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd y DU o 3.8 y cant. Dim ond cartrefi yng Ngogledd Iwerddon y mae disgwyl i gartrefi golli mwy na'r rhai yng Nghymru[21].

C9.5 Gwelir bod y newidiadau i dreth a budd-daliadau a weithredir yn 2011-12 yn gostwng incwm ar draws y dosbarthiad incwm. Disgwylir i'r cynnydd mewn TAW yn arbennig gael effaith andwyol ar y rhai sydd ar incwm isel gan eu bod yn gwario cyfran fwy o'u hincwm na'r rheini sydd ar lefel uwch o ran dosbarthiad incwm. Gyda'i gilydd, amcangyfrifodd yr IFS bod y newidiadau i dreth a budd-daliadau a weithredir eleni yn gyfystyr â chyfanswm 'tynnu i ffwrdd' net cyfartalog (gostyngiad mewn incwm cartrefi) o bron £700 y flwyddyn fesul cartref ar gyfartaledd[22]. Un o'r prif resymau am y golled hon mewn incwm yw'r penderfyniad i uwchraddio budd-daliadau drwy'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI). I lawer o gartrefi ar incwm isel sy'n dibynnu ar fudd-daliadau lles bydd uwchraddio eu taliadau drwy'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu yn arwain at ostyngiad mewn termau real yn eu budd-daliadau [23].

C9.6 Mae goblygiadau chwyddiant uchel wedi eu trafod yn yr adroddiad chwyddiant diweddaraf gan Fanc Lloegr. Nodir bod twf economaidd yn debygol o barhau i fod yn araf yn y tymor agos, gan adlewyrchu'r wasgfa barhaus ar incwm gwirioneddol cartrefi. Mae goblygiadau pwysig i hyn o ran dosbarthiad hefyd. Ers y dirwasgiad, mae enillion cyfartalog wedi bod yn cynyddu ar gyfradd sy'n is na'r gyfradd chwyddiant gyfartalog sy'n golygu bod y rhan fwyaf o'r boblogaeth oedran gweithio wedi gweld gostyngiadau mewn termau real yn eu henillion. Mae'r chwyddiant cymharol uchel yn debygol o effeithio ar gartrefi yn wahaniaethol gan effeithio'n arbennig o wael ar lawer o gartrefi incwm isel. Dengys dadansoddiad o batrymau gwariant fod cartrefi incwm isel yn gwario cyfran uwch o'u hincwm ar danwydd a bwyd na'r rhai sydd ar lefel uwch y dosbarthiad enillion[24]. Mae'r ddwy eitem hyn wedi gweld cynnydd mawr sydd wedi codi chwyddiant yn gyffredinol yn uwch na tharged Banc Lloegr o 2 y cant. Ar gyfartaledd gwelir bod gan gartrefi incwm is

[20] Mae dadansoddiad pellach ar gael gan yr IFS (2010) Distributional Analysis of tax and benefit changes. http://www.ifs.org.uk/publications/5313
[21] IFS (2010) The Impact of Tax and Benefit Reforms to be introduced between 2010-11 and 2014-15 in Northern Ireland. http://www.ifs.org.uk/publications/5369
[22] IFS (2011) The impact of the tax and benefit changes to be implemented in April 2011. http://www.ifs.org.uk/publications/5451
[23] Yn hanesyddol mae CPI yn is na'r RPI gan fod CPI yn un o is-setiau'r mesur ehangach o chwyddiant yr RPI. Mae hyn yn golygu bod taliadau lles yn cynyddu ar gyfradd arafach nag o'r blaen ac ar gyfradd islaw'r gyfradd chwyddiant y mae unigolion yn ei thalu mewn gwirionedd (yr RPI).
[24] IFS (2011) The spending patterns and inflation experience of low-income households over the past decade http://www.ifs.org.uk/publications/5606

gyfradd chwyddiant uwch na chartrefi incwm uwch sy'n golygu eu bod yn wynebu gostyngiad mwy o faint mewn enillion gwirioneddol.

C9.7 Mae'r newidiadau i dreth a budd-daliadau yn amlwg yn cael effaith wahaniaethol ar draws grwpiau incwm. Cânt effaith wahaniaethol hefyd ar draws mathau o gartrefi gan fod mesurau penodol a fydd yn effeithio ar rai cartrefi. Daw'r IFS i'r casgliad mai teuluoedd â phlant fydd ar eu colled mwyaf. Mae hyn am mai dyma'r grŵp y mae toriadau i gredydau treth a'r cynnydd yng nghyfraddau Yswiriant Gwladol yn cael yr effaith fwyaf arnynt[25]. O ganlyniad, bydd y newidiadau a wneir gan Lywodraeth Glymblaid y DU yn cael effaith negyddol ar dlodi plant, er bod yr effaith gyffredinol a welir yn fach.[26]

C9.8 O gymharu â chartrefi eraill, mae cartrefi pensiynwyr ond yn colli symiau cymharol fach o ganlyniad i newidiadau i dreth a budd-daliadau. Fel pob cartref, mae pensiynwyr ar eu colled o ganlyniad i'r cynnydd mewn TAW ac uwchraddio budd-daliadau anabledd drwy gyfrwng y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu. Fodd bynnag, disgwylir i gartrefi pensiynwyr elwa ar y cynnydd ym Mhensiwn Sylfaenol y Wladwriaeth a'r newidiadau i'r Warant Credyd Pensiwn[27].

C9.9 Mae rhywfaint o'r dadansoddiad cychwynnol o effaith y newidiadau i dreth a budd-daliadau yn ôl rhywedd yn dangos mai bach yw'r effaith wahaniaethol ar y cyfan. Bydd y newidiadau i dreth a budd-daliadau a gyflwynir erbyn 2014-15 yn golygu colled fwy i fenywod sengl na dynion sengl. Y golled arbennig o fawr i rieni unigol yn sgîl y diwygiadau hyn sy'n gyfrifol am hyn i raddau helaeth, ac mae dros 90% o'r rhieni unigol hyn yn fenywod[28].

C10. Asesu'r newidiadau cyllidebol i Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant

C10.1 Cynhaliwyd asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb ar bolisïau Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant i sicrhau eu bod yn rhoi sylw dyledus i oedran, anabledd, rhywedd a ailbennwyd, hil, crefydd neu gred, beichiogrwydd a mamolaeth, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol, pan nodwyd y cynlluniau gwariant ar gyfer 2011-12 i 2013-14 yng Nghyllideb y llynedd. Mae tybiaethau sylfaenol y cynlluniau gwariant hyn yn ddigyfnewid i raddau helaeth, ac yn parhau yn berthnasol ar gyfer 2014-15.

C10.2 Mae ystyriaeth ar wahân wedi ei rhoi i effaith y dyraniadau ychwanegol a gynhwyswyd yn y Gyllideb Ddrafft hon ar gydraddoldeb.

---

[25] IFS (2010) Distributional Analysis of tax and benefit changes. http://www.ifs.org.uk/publications/5313

[26] Daeth HMT i'r casgliad na fyddai'r diwygiadau yn cael effaith negyddol ar dlodi plant. Y rheswm dros yr anghysondeb rhwng dadansoddiad HMT a'r IFS yw bod yr IFS yn modelu diwygiadau Lwfans Tai Lleol, yn wahanol i HMT.

[27] IFS (2011) Average losses for pensioner households from tax and benefit changes to be introduced between January 2011 and April 2014 http://www.ifs.org.uk/publications/5440

[28] IFS (2011) The impact of tax and benefit reforms by sex: some simple analysis http://www.ifs.org.uk/publications/5610

C10.3 **Cyllid Orthopedeg Rheolaidd** - Caiff y cyllid hwn ei ddefnyddio i ddatblygu datrysiadau cynaliadwy i gyflawni targedau amseroedd aros orthopedig. Bydd hyn yn sicrhau triniaeth brydlon ar gyfer cleifion sy'n aros i gael eu hasesu a'u trin am gyflyrau perthnasol waeth beth fo'u rhywedd, hil, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, rhywedd a ailbennwyd, crefydd neu gred, ac felly nid oes unrhyw effaith fawr ar gydraddoldeb yn deillio o'r cyllid hwn.

C10.4 **Cymorth rheolaidd y GIG** - Caiff y cyllid hwn ei ddefnyddio i roi'r GIG ar sylfaen ariannol gadarn. Mae'n ofynnol i sefydliadau'r GIG sicrhau eu bod yn rhoi sylw dyledus i rywedd, hil, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, rhywedd a ailbennwyd a chrefydd neu gred wrth ddatblygu eu cynlluniau effeithlonrwydd, a chânt eu hatgoffa o'r gofyniad hwn pan gyhoeddir dyraniad adnoddau 2012-13 yn yr hydref.

C10.5 **Dechrau'n Deg** - bydd y cyllid hwn yn cynyddu nifer y plant sy'n elwa ar fuddsoddiad cynyddol mewn blynyddoedd cynnar. Fe'i targedir yn benodol at blant o deuluoedd difreintiedig sy'n byw mewn tlodi. Estyniad ydyw o bolisi sy'n bodoli eisoes ac sydd eisoes wedi ei ystyried o ran rhywedd, hil, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, rhywedd a ailbennwyd a chrefydd neu gred.

C10.6 **Presgripsiynau am ddim** - Bwriad y cyllid hwn yw parhau i sicrhau na fydd pobl ar incwm isel yn rhoi'r gorau i gymryd meddyginiaeth reolaidd a fyddai'n eu helpu i fyw bywydau iachach. Mae polisi presgripsiynau am ddim ar gael i bob un o drigolion Cymru, waeth beth fo'u rhywedd, hil, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, rhywedd a ailbennwyd, crefydd neu gred. Mae gorgynrychiolaeth o rai pobl â nodweddion gwarchodedig ymhlith y rhai sydd ar incwm isel a dylent fod yn gallu manteisio ar bresgripsiynau am ddim.

Diweddariadau o adroddiad 2011-12:

C10.7 **Cefnogi Addysg a Hyfforddiant Gweithlu'r GIG** - Er bod gostyngiad mewn cyllid ni ragwelir y bydd hyn yn cael effaith anghymesur ar y dyletswyddau Cydraddoldeb. Serch hynny, mae hyn yn fater a gaiff ei adolygu'n gyson a chaiff yr Effaith ar Gydraddoleb ei hailasesu pan fydd canlyniad yr Adolygiad Bwrsariaeth yn hysbys a phan fydd cynlluniau'r gweithlu wedi dod i law. Cwblhawyd yr adolygiad bwrsariaeth ym mis Gorffennaf 2011.

C10.8 **Hyrwyddo Gwella Iechyd ac Iach ar Waith** - mae'r materion y mae'r maes gweithredu hwn yn mynd i'r afael â hwy, megis ysmygu, bwyta bwyd afiach, diffyg gweithgarwch corfforol, canlyniadau gwael o ran beichiogrwydd ac amgylcheddau gwaith afiach, yn gysylltiedig ag anfantais gymdeithasol. Bwriedir i weithgareddau a ariennir ymdrin ag anghydraddoldebau yn benodol. Gallai lleihau cyllidebau gael effaith anghymesur ar grwpiau difreintiedig ac rydym yn cydnabod hyn. Ceir gostyngiad o £0.696m yn 2011-12. Wrth ddatblygu'r gwaith hwn yn y dyfodol, bydd swyddogion felly yn ceisio sicrhau na fydd yr effaith ar grwpiau difreintiedig yn anghymesur gan geisio adolygu'n rheolaidd yr angen am asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb.

C11. Asesu'r newidiadau cyllidebol i Lywodraeth Leol a Chymunedau

C11.1 Wrth bennu'r dyraniadau cyllidebol, rhoddwyd ystyriaeth ofalus i effaith y newidiadau ar gydraddoldeb. Fel rhan o broses y Gyllideb y llynedd, gwnaethom gryn dipyn o waith i asesu effaith y cynlluniau a gyhoeddwyd gennym ar gydraddoldeb.

C11.2 Nid yw tybiaethau sylfaenol dyraniadau eleni wedi newid o gymharu â chynlluniau y llynedd. Er enghraifft, mae'r diogelwch a roddir eisoes i gyllidebau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol yn ystyried hyn yn ogystal ag adlewyrchu'n fwy cyffredinol yr angen i gynnal gwasanaethau i'r rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas.

C11.3 Mae cynnydd mewn dyraniadau ar gyfer blaenoriaethau fel Teithiau Bws am Ddim i Bensiynwyr a Phobl Anabl a'u Gofalwyr yn 2014-15 hefyd yn pwysleisio ein hymrwymiad i'r agenda cydraddoldebau.

C11.4 Er bod cyllid yn cael ei ailflaenoriaethu o fewn y cyllidebau trafnidiaeth a bod newidiadau strwythurol i gyllidebau llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus, nid oes unrhyw effeithiau posibl o ran cydraddoldebau.

C11.5 Cynhelir Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar y cam nesaf o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar yr adeg briodol.

Diweddariadau o adroddiad 2011-12:

C11.6 **Cronfa Arallgyfeirio Swyddfeydd Post** - bydd hyn yn dod i ben ym mis Mawrth 2012, gyda rownd derfynol yn cau ar 29 Ebrill 2011. Caiff rowndiau Hydref 2010 ac Ebrill 2011 eu dal fel cyfalaf yn unig. Byddwn yn comisiynu gwerthusiad annibynnol o'r Gronfa yn 2011 a fydd yn ystyried unrhyw fanteision cadarnhaol y cynllun ar gyfer grwpiau gwarchodedig ac yn llywio proses ariannu swyddfeydd post yng Nghymru yn y dyfodol.

C11.7 Bydd adroddiad drafft ar werthusiad annibynnol Cronfa Arallgyfeirio Swyddfeydd Post yn cael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2011.

C12. Asesu'r newidiadau cyllidebol i Fusnes, yr Economi, Technoleg a Gwyddoniaeth

C12.1 Cynhaliwyd proses asesu'r effaith ar gydraddoldeb pan nodwyd y dyraniadau dangosol yng Nghyllideb y llynedd ac mae'r gwaith hwn yn parhau i fod yn berthnasol gan mai dim ond mân newidiadau a wnaed i'r Gyllideb Ddrafft hon.

C12.2 Mae Busnes, yr Economi, Technoleg a Gwyddoniaeth (BETS) ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ar y cam cynllunio a gweithredu ar draws meysydd amrywiol yr Adran. Bydd pob asesiad yn cynnwys cynllun gweithredu a fydd yn nodi sut y bydd yr Adran yn ymdrin â meysydd o effaith anghymesur ar draws cwmpas ei gwaith.

C13. Asesu'r newidiadau cyllidebol i Addysg a Sgiliau

C13.1 Er bod y newid cyffredinol i'r gyllideb ddrafft yn gynnydd, bydd yr Adran Addysg a Sgiliau yn lleihau rhai cyllidebau fel y gellir ailflaenoriaethu.

C13.2 Yr asesiad cychwynnol o'r gostyngiadau cyllidebol a gymhwysir o fewn y Gyllideb Ddrafft yw nad ydynt yn effeithio'n anghymesur ar y grwpiau penodol ar sail oedran, anabledd, rhywedd a rhywedd a ailbennwyd, hil, crefydd neu gred neu ddiffyg cred na chyfeiriadedd rhywiol. Fodd bynnag, bydd angen parhau i adolygu er mwyn asesu effaith y cyllidebau terfynol ar gydraddoldebau, a dilyn hyn drwy'r dyraniad pellach i raglenni penodol, a chyrff allanol.

Diweddariadau o adroddiad 2011-12:

C13.3 **CCAUC** - Mae'r gostyngiadau a gymhwysir mewn perthynas ag Addysg Uwch ar lefel strategol. Y disgwyl yw y bydd llawer o'r gostyngiad yn cael ei gyflawni drwy weinyddu Addysg Uwch yn fwy effeithlon ac fel y cyfryw ni ddylai'r gostyngiadau gael effaith fawr ar ddysgwyr. Fodd bynnag gwneir dyraniadau i Sefydliadau Addysg Uwch penodol gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Mae CCAUC yn cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rheolaidd ar newidiadau mawr i'w strategaethau a'i gyfundrefnau ariannu. Ar hyn o bryd, yn ogystal â derbyn y newidiadau cyllidebol ar gyfer 2011-12, mae'n wynebu newidiadau mawr i'w rôl a'i flaenoriaethau yng ngoleuni *Er mwyn ein Dyfodol* a'r newidiadau i ffioedd dysgu cyllid myfyrwyr, a gyhoeddwyd gan y Gweinidog ym mis Tachwedd 2010. Gall hyn olygu na fydd yn bosibl iddo gyflwyno Asesiad cywir o'r Effaith ar Gydraddoldeb tan hydref 2011.

C13.4 Cynhaliwyd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan CCAUC ar nifer o feysydd penodol gan gynnwys:

- Strategaeth Gorfforaethol CCAUC 2010-11 - 2012-13;
- canllawiau ar strategaethau rhanbarthol;
- newidiadau i'r dull ariannu yn 2011-12, (gan gynnwys ymchwil o safon);
- canllawiau ar ddefnyddio Achredu Profiad a Dysgu Blaenorol;
- Polisi Gradd Sylfaen;
- canllawiau ar y Strategaeth Dysgu ac Addysgu ac Ehangu Mynediad;
- canllawiau ar y Strategaeth HCA;
- rheoli nifer y myfyrwyr llawn amser o 2011-12;
- canllawiau ar y Strategaeth Arloesi ac Ymgysylltu;
- canllawiau ar Gostau Astudio;

- trefniadau grant y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

C14. Asesu'r newidiadau cyllidebol i Dai, Adfywio a Threftadaeth

14.1 Cynhaliwyd asesiadau cynhwysfawr o effaith ar raglenni a pholisïau Tai, Adfywio a Threftadaeth pan nodwyd y cynlluniau gwariant ar gyfer 2011-12 i 2013-14 yng Nghyllideb y llynedd.

14.2 Mae tybiaethau sylfaenol y cynlluniau gwariant hyn yn parhau i fod yn berthnasol i 2014-15. Fodd bynnag, cynhaliwyd proses sgrinio ac nid oes angen Asesiadau llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Diweddariadau o adroddiad 2011-12:

14.3 **Tai** - Fel rhan o gyllideb 2011-12, ymrwymodd yr Is-adran Tai i gynhyrchu Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb i ystyried newidiadau i'r gyllideb hon. Wrth gwblhau'r asesiad hwn, cynhaliwyd trafodaethau helaeth â rhanddeiliaid a sefydliadau partner gan gynnwys dadansoddi a gwerthuso tystiolaeth. Cwmpasodd yr asesiad y Rhaglen Cefnogi Pobl, Gofal a Thrwsio Cymru, Ardaloedd Adnewyddu a Grantiau Tai Cymdeithasol ac fe'i cwblhawyd yn ystod cyfarfod o'r Panel IPM ar 6 Ebrill 2011. O ganlyniad i lwyddiant y panel hwn, cytunodd Llywodraeth Cymru ac aelodau allanol o'r panel i barhau â'r panel a chyfarfod yn rheolaidd i gynnal rhagor o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â Thai yn ôl y galw.

14.4 **Treftadaeth** - Cwblhawyd asesiad sgrinio ar **Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli**. Mae CyMAL wedi anfon gwybodaeth at restr o grwpiau a sefydliadau yn ymwneud â chydraddoldeb er mwyn iddynt ymgynghori arni fel rhan o'i gynllun cyfathrebu.

14.5 **Glasbrint Cydraddoldebau** - Canllawiau ymarferol i'r sector sy'n dwyn ynghyd, mewn un man, wybodaeth am gymalau perthnasol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau a gafodd ei gadarnhau yn ddiweddar, darpariaethau perthnasol y Bil Cydraddoldeb (ar ôl iddo gael ei basio) ac ardaloedd i'w datblygu a grybwyllwyd yn Mesur Amrywiaeth a dehongliad o'r cymalau hynny. Y nod yw cael safbwynt hawliau dynol ar amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd - gyda'r pwyslais ar yr hyn y mae hynny'n ei olygu yn ymarferol. Cynhelir asesiad llawn o effaith ar y glasbrint cyn i'r gwaith ddechrau.

Templed Cryno Mynediad

14.6 "Mae'r Is-adran ar hyn o bryd yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael yn ymwneud ag agweddau amrywiol ar y gwaith, gyda'r bwriad o gynnal asesiad sgrinio a chwblhau Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb os bydd angen. Bydd yr asesiad o'r Strategaeth Llyfrgelloedd yn mynd rhagddo yn ystod gwanwyn/haf 2011. Caiff asesiad ar y Templed Cryno Mynediad ei gynnal yn ystod 2011-12.

14.7 Penodwyd ymgynghorwyr drwy broses dendro agored a sefydlwyd grŵp llywio yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd ac o grwpiau anabledd. Caiff y templed drafft ei ddatblygu erbyn mis Ionawr 2012.

Mynediad i safleoedd Cadw (Gostyngiadau yn y Gyllideb)

14.8 Mae'r maes polisi hwn yn mynd drwy'r broses IPM ac mae'r cam casglu gwybodaeth wedi ei gwblhau; casglwyd y wybodaeth hon, gan gynnwys tystiolaeth o gydraddoldeb ac ymchwil iddo, i bennu pa mor berthnasol yw mynediad am ddim i safleoedd Cadw mewn perthynas â chydraddoldeb a hawliau dynol.

14.9 Amlygodd y broses sgrinio effeithiau posibl ar Anabledd, Hil ac Oedran a bydd yn symud ymlaen at asesiad manwl.

C15. Asesu'r newidiadau cyllidebol i'r Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

C15.1 Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol i gyllideb 2012-13 o gymharu â chyllideb derfynol y llynedd. Gwnaed newidiadau mawr bryd hynny i'r dyraniadau yng ngoleuni setliad y DU a bydd y cyllidebau unigol hyn yn parhau ar y lefelau hynny hyd at 2014-15. Bydd ein hymyriadau yn parhau i ganolbwyntio ar ddiogelu'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas, gan hyrwyddo datblygu cynaliadwy a sicrhau y bodlonir ein hymrwymiadau rhyngwladol. Fel y cyfryw ni fydd angen rhagor o Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb.

C16. Yr Adrannau Canolog

C16.1 Yr Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant - Nid oes unrhyw newidiadau i'r gyllideb ac nid oes unrhyw newid i'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gyhoeddwyd yn flaenorol.

C16.2 Sicrhawyd bod cyllid ar gael yn 2011-12, drwy'r Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb, ar gyfer lansio a datblygu Rhwydwaith Menywod Cymru gyfan a digwyddiadau i ddathlu cydraddoldeb ac amrywiaeth, gyda chysylltiad ag un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig a geir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac ar gyfer digwyddiadau i ddatblygu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2012.

C16.3 Cynhwysiant Digidol - Nid oes unrhyw newidiadau i'r gyllideb ac nid oes unrhyw newid i'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gyhoeddwyd yn flaenorol.

Atodiad D – Geirfa

Adnoddau (refeniw gynt)	Gwariant cyfredol, er enghraifft arian i dalu cyflog gweithwyr y sector cyhoeddus ac i brynu nwyddau a gwasanaethau traul.
Adnoddau Anghyllidol (adnoddau nad ydynt yn arian parod gynt)	Mesurau croniadau a gynhwysir mewn cyllidebau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu cost economaidd lawn gweithgareddau er nad oes cysylltiad uniongyrchol â ffrydiau arian parod yn y cyfnod dan sylw – er enghraifft, dibrisiant a darpariaethau. Ni ellir defnyddio'r DEL adnoddau anghyllidol i ariannu gwariant DEL adnoddau cyllidol.
Adnoddau Cyllidol (adnoddau sydd bron yn arian parod gynt)	Mesurau croniadau sydd fel rheol yn troi'n ffrwd arian parod yn fuan, er enghraifft, tâl, caffael cyfredol, grantiau refeniw a chymorthdaliadau.
Adolygiad o Wariant	Bob dwy neu dair blynedd mae Trysorlys EM yn adolygu gwariant pob adran yn Llywodraeth y DU ac yn pennu cyllidebau ar gyfer y tair blynedd i ddod. Mae'r cyllidebau ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig yn deillio o'r cyllidebau hyn drwy fformwla Barnett.
Cam Gweithredu	O fewn pob Maes Rhaglen Wariant, dyrennir cyllidebau i nifer o is-raglenni a elwir yn Gamau Gweithredu. Mae tablau sy'n dangos y cyllidebau ar lefel y Camau Gweithredu ar gael yn: http://wales.gov.uk/budget
CNLC	Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru
Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru	Gwariant y mae'n ofynnol yn gyfreithiol gofyn i Gronfa Gyfunol Cymru ei dalu'n uniongyrchol ac felly nad yw'n sgorio yn erbyn cyllidebau Llywodraeth Cymru nac unrhyw gorff arall. Ymhlith y Costau Uniongyrchol mae cyflog y Llywydd a'r Archwilydd Cyffredinol.
Cronfa Gyfunol Cymru	Y cyfrif sy'n derbyn yr arian sydd i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn unol â phleidlais Senedd y DU.

Cwmpasoedd gwariant
Disgrifiadau o'r dibenion penodol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wario adnoddau arnynt. Mae Disgrifiadau o'r Cwmpasoedd a'r terfynau o ran adnoddau wedi'u cynnwys yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol. Mae'r cwmpasoedd yn cyfateb i'r MEGiau.

Cyfalaf
Gwariant sy'n arwain yn bennaf at ased ffisegol, er enghraifft adeilad newydd. Mae gan gyllidebau DEL a Gwariant a Reolir yn Flynyddol Llywodraeth Cymru derfynau gwahanol ar gyfer cyfalaf a refeniw.

Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)
Cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol yn ogystal â'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

Cyllidebu adnoddau
Mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i phennu ar sail adnoddau sy'n deillio o wybodaeth am groniadau. Mae'r wybodaeth am groniadau yn mesur adnoddau wrth iddynt gael eu defnyddio yn hytrach na phan delir yr arian parod. Felly, er enghraifft, mae cyllideb adnoddau yn cynnwys ffi am ddibrisiant, ffordd o fesur yr asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd neu a dreuliwyd.

Cynnig y Gyllideb
Y dull a ddefnyddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i roi awdurdod i Weinidogion Cymru wario adnoddau hyd at lefel benodol ar ddibenion penodedig a thynnu arian parod hyd at derfyn penodol, o Gronfa Gyfunol Cymru.

Derbyniadau
Mae rhai rhannau o weithgarwch Llywodraeth Cymru yn creu incwm, er enghraifft, drwy werthu neu rentu asedau. Caiff y rhain eu cynrychioli yn y gyllideb fel ffigurau negyddol.

Dibrisiant
Y gostyngiad yng ngwerth ased yn sgil traul, oed a'r ffaith ei bod wedi darfod. O ran cyllidebu adnoddau, mae dibrisiant yn rhan o DEL Llywodraeth Cymru ond mae'n eitem DEL adnoddau anghyllidol.

Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)
Gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, aml-flwyddyn yn yr un ffordd â DEL, ac sydd felly'n cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac Adroddiad Rhag-gyllidebol Trysorlys EM. Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol, fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr ac yn ymateb i'r galw, er enghraifft benthyciadau i fyfyrwyr.

Maes Rhaglen Wariant
O fewn pob MEG, caiff cyllidebau eu dyrannu i Feysydd Rhaglenni Gwariant yn ôl y math o wasanaethau y byddant yn eu darparu.

Prif Grŵp Gwariant (MEG)	Caiff DEL Llywodraeth Cymru ei rannu'n nifer o Brif Grwpiau Gwariant. Ar hyn o bryd mae 7 ohonynt: Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant; Llywodraeth Leol a Chymunedau; Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth; Addysg a Sgiliau; Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy; Tai, Adfywio a Threftadaeth a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.
Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)	Terfyn y gyllideb aml-flwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennwyd gan Drysorlys EM. Caiff y DEL ei gynllunio a'i reoli ar sail tair blynedd mewn Adolygiadau o Wariant.